# Adroddiad Blynyddol 2024-25










Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 3 |
| Amdanom ni | 7 |
| Rhan 1: Adroddiad Perfformiad | 12 |
| Rhan 2: Atebolrwydd | 65 |
| Rhan 3: Datganiadau Ariannol | 105 |



# Rhagair

**Er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn iaith fyw sy'n ffynnu, mae angen i'n gwaith ni ymwneud â phob agwedd o fywydau pobl.**

Mae fy swyddogion a minnau felly wedi ymwneud ag amrywiaeth o faterion dros y flwyddyn ddiwethaf wrth hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Rwyf hefyd wedi bod wrth fy modd yn cyfarfod â siaradwyr Cymraeg ar draws Cymru yn ystod y flwyddyn i glywed am eu profiadau.


Yn ystod y flwyddyn cyhoeddom y byddem yn defnyddio dull mwy rhagweithiol o gyd-reoleiddio wrth gyflawni ein dyletswyddau. Fel rhan o'r drefn honno rydym wedi gosod deilliannau penodol a fydd yn sicrhau bod ein hymdrechion yn canolbwyntio ar feysydd allweddol lle gallwn wneud y gwahaniaeth mwyaf. Bydd hyn yn gwella ansawdd a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwasanaethau cyhoeddus, yn y gweithle, ac yn y gymuned.

## Y deilliannau a osodwyd yw:




### Deilliant 1

Sefydliadau â'r capasiti i ddarparu gwasanaethau Cymraeg o ansawdd uchel ar bob achlysur.




### Deilliant 2

Defnyddwyr y Gymraeg yn deall ac yn ymwybodol o'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael iddynt.




### Deilliant 3

Sefydliadau'n rhoi sylw dyladwy i effeithiau posibl eu penderfyniadau polisi ar y Gymraeg.



### Deilliant 4

Sefydliadau'n cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn eu gweithle, gan alluogi staff i weithio yn Gymraeg o ddydd i ddydd.



### Deilliant 5

Sefydliadau'n hyrwyddo'r Gymraeg fel y gall pobl ddefnyddio'r iaith yn naturiol yn eu bywydau bob dydd.



### Deilliant 6

Sefydliadau â threfniadau llywodraethu a chwynion effeithiol sy'n sicrhau bod buddiannau defnyddwyr y Gymraeg yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo.

Ein bwriad wrth gyflwyno'r deilliannau hyn yw sicrhau bod ein gwaith rheoleiddio yn arwain at gynnydd mewn cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

Mae sicrhau bod sefydliadau a sectorau yn rhannu ein gweledigaeth am y Gymraeg yn hanfodol i gyflawni ein dyheadau a'n deilliannau. Rydym felly wedi cynnal cyfres o ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn er mwyn hyrwyddo cydymffurfiaeth sefydliadau â'u dyletswyddau iaith.

Gwelwyd cynnydd yn y sefydliadau sy'n gweithredu yn unol â'r safonau yn ystod y flwyddyn gyda chwmnïau dŵr ac eraill yn dod o dan y safonau yn ystod y flwyddyn. Mae disgwyl i gyrff eraill, gan gynnwys cymdeithasau tai, ddod yn rhan o'n cyfundrefn reoleiddio cyn diwedd tymor y Senedd hwn.

Mae plant a phobl ifanc yn parhau i fod yn flaenoriaeth i ni. Roedd yn galonogol gweld Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) yn cael ei gyflwyno yn y Senedd ac roeddwn yn falch o rannu fy safbwynt arno. Rwy'n credu'n gryf fod hwn, o'i weithredu'n gadarn gydag adnoddau digonol, yn ddatblygiad arwyddocaol o ran y Gymraeg.

Roedd yn dda gweld adroddiad cyntaf y Comisiwn Cymunedau Cymraeg yn cael ei gyhoeddi. Roeddem yn falch o weld bod y Llywodraeth yn ei hymateb i'r adroddiad yn cytuno â'r argymhelliad bod angen sefydlu ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, ond roeddem yn siomedig nad oedd eglurder ynghylch sut y bwriedir gwneud hynny. Mae'n rhaid gweithredu er mwyn cynnal a chryfhau'r Gymraeg fel iaith gymunedol, a byddai sefydlu'r ardaloedd yn gam cychwynnol arwyddocaol. Rydym yn galw ar yr holl bleidiau gwleidyddol i ymrwymo yn eu maniffestos ar gyfer etholiad Senedd Cymru 2026 i weithredu prif argymhelliad y Comisiwn i sefydlu ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch ac i roi cynllun ac amserlen glir yn eu lle er mwyn gwneud hynny.

**Mae sicrhau bod sefydliadau a sectorau yn rhannu ein gweledigaeth am y Gymraeg yn hanfodol i gyflawni ein dyheadau a'n deilliannau.**

Ochr yn ochr â'n gwaith polisi, cawsom gyfleoedd hefyd i fwynhau ein gwyliau cenedlaethol. Ar ein stondin yn Eisteddfod yr Urdd ym Meifod fe wnaethom lansio sioe newydd i ysgolion er mwyn hybu'r defnydd o'r Gymraeg i ddisgyblion ysgolion uwchradd. Wedi ei chynhyrchu gan gwmni **Mewn Cymeriad** a'i hysgrifennu gan Manon Steffan Ros, mae'r sioe ***Geiriau*** yn cyd-fynd â phecyn addysg newydd. Datblygwyd hwn mewn ymateb i ymholiadau gan athrawon ac arweinyddion addysg sydd yn dymuno cynnig gweithgareddau am y Gymraeg a rôl y Comisiynydd.


Roedd Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf yn gyfle pellach i rannu gwybodaeth am ein gwaith ac mewn digwyddiad ar y bore Llun cyflwynodd fy nirprwy, Osian Llywelyn, ein gweledigaeth ar gyfer dyfodol ein gwaith cyd-reoleiddio. Roedd yn gyfle da hefyd i dderbyn adborth gan y cyhoedd ar ein gwaith.

Yn ystod yr un wythnos fe wnaethom lansio partneriaeth newydd gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a fydd yn cyfrannu ymhellach at ddatblygu cynllun y ***Cynnig Cymraeg***. Mae'r cynllun wedi ei anelu at y sectorau hynny nad ydynt yn dod o dan safonau'r Gymraeg.

Roedd cynhadledd Cymdeithas Ryngwladol y Comisiynwyr Iaith yng Nghymru yn gyfle i ni ystyried pwysigrwydd ieithoedd lleiafrifol ar draws y byd a'r rôl y mae'r Gymraeg yn ei chwarae. Dros dri diwrnod bu trafodaethau, cyflwyniadau a sgyrsiau difyr, ac roedd yn fraint medru croesawu cyd-gomisiynwyr i Gymru.

Bu'r flwyddyn ddiwethaf hefyd yn gyfnod o baratoi ar gyfer y dyfodol. Buom yn ymgysylltu ar ein cynllun strategol pum mlynedd - cynllun a fydd yn weithredol am weddill fy amser fel Comisiynydd y Gymraeg.

Mae'r cyfnod nesaf yn un allweddol i'r Gymraeg ac rwy'n benderfynol o weithio gyda fy swyddogion, a'n partneriaid, i sicrhau gwahaniaeth sylweddol i sefyllfa'r Gymraeg. Edrychaf ymlaen at gydweithio, ymgyrchu, eirioli a dylanwadu er lles yr iaith Gymraeg.



**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg



# Amdanom ni

Gweithredu fel rheoleiddiwr safonau'r Gymraeg

Monitro gweithrediad cynlluniau iaith Gymraeg

Gweithio gyda sefydliadau o'r sector preifat a'r trydydd sector i gynyddu eu darpariaeth Gymraeg

Dylanwadu ar ddatblygiad polisi a deddfwriaeth er mwyn i'r Gymraeg fod yn ganolog iddynt

Safoni a hybu enwau lleoedd Cymru

Statws y Gymraeg a'r rhyddid i'w defnyddio

Cydweithio â mudiadau eraill sy'n hyrwyddo'r Gymraeg, a chomisiynwyr a rheoleiddwyr eraill yng Nghymru a thu hwnt

Cynnal ymchwil

Rhannu gwybodaeth am ein gwaith

## Amdanom ni

**Mae Comisiynydd y Gymraeg eisiau i bobl Cymru allu byw yn Gymraeg. Ein rôl yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Mae ein gwaith yn arwain at fwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith. Crëwyd y rôl gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a wnaeth hefyd roi statws swyddogol i'r iaith yng Nghymru am y tro cyntaf.**

**Er mwyn cyflawni ein nod rydym yn:**

### Gweithredu fel rheoleiddiwr safonau'r Gymraeg

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i nifer o sefydliadau yng Nghymru weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg. Dyletswyddau yw'r safonau sydd â'r bwriad o gynyddu'r nifer o wasanaethau sydd ar gael i bobl eu defnyddio yng Nghymru ac i hwyluso eu defnydd ohonynt. Golyga hyn fod rhaid i sefydliadau hyrwyddo'r defnydd o'u gwasanaethau. Mae'r safonau hefyd yn anelu at gynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith, ac yn y gymuned yn achos awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol.

Drwy gyfrwng ein gwaith rheoleiddio, rydym yn gweithredu rhaglen o weithgareddau er mwyn cefnogi, monitro ac asesu cydymffurfiaeth sefydliadau â safonau'r Gymraeg, a chymryd camau pellach os oes angen.

### Monitro gweithrediad cynlluniau iaith Gymraeg

Mae rhai sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru yn darparu gwasanaethau Cymraeg yn unol â'u cynlluniau iaith Gymraeg sydd â'r bwriad o sicrhau eu bod yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth eu gwaith. Maent wedi paratoi'r cynlluniau hyn oherwydd gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Sefydliadau Llywodraeth y Deyrnas Unedig a chyrff y Goron yw'r sefydliadau hyn yn bennaf.





### Gweithio gyda sefydliadau o’r sector preifat a’r trydydd sector i gynyddu eu darpariaeth Gymraeg


Rydym yn annog sefydliadau yn y sector preifat a’r trydydd sector i gynyddu’r gwasanaethau y maent yn eu darparu yn Gymraeg ac i ymgyrraedd at farc ansawdd y **Cynnig Cymraeg**. I’w helpu i wneud hyn rydym yn rhannu arfer da a chanllawiau ar sut i gynnig gwasanaethau yn Gymraeg. Er bod y sectorau hyn yn eang rydym yn blaenoriaethu gweithio gyda sefydliadau mawr, fel archfarchnadoedd, siopau, a banciau sy’n darparu’r mwyaf posibl o wasanaethau i’r mwyaf posibl o bobl. Mae nifer o sefydliadau trydydd sector yn cynnig cyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg mewn gweithgareddau cymdeithasol a gwirfoddol yn ogystal â darparu gwasanaethau yn Gymraeg. Rydym hefyd yn gweithio gydag arianwyr i’w hannog i osod amodau ieithyddol ar yr arian y byddant yn ei ddyrannu.

### Dylanwadu ar ddatblygiad polisi a deddfwriaeth er mwyn i’r Gymraeg fod yn ganolog iddynt

Rydym yn dylanwadu ar ddatblygiad polisi a deddfwriaeth er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn rhan annatod o bolisi cyhoeddus. Gwnawn hynny drwy flaenoriaethu gweithio mewn meysydd polisi sy’n effeithio ar gyfleoedd pobl i ddysgu a defnyddio’r Gymraeg o ddydd i ddydd megis y sector addysg, y sector iechyd a gofal cymdeithasol a chynllunio, a datblygu economaidd. Gan amlaf, rydym yn canolbwyntio ar faterion cenedlaethol a strategol sy’n golygu ein bod yn craffu a dylanwadu ar bolisïau a deddfwriaeth a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru yn bennaf.

Wrth ein gwaith rydym yn ymwneud â sefydliadau eraill sy’n gyfrifol am lunio neu weithredu polisi ar lefel genedlaethol neu â dylanwad ar ddatblygiad polisi cenedlaethol. Rydym hefyd yn craffu ar waith Senedd Cymru, ac ar ddeddfwriaeth yn San Steffan mewn meysydd nas datganolwyd sy’n effeithio ar y Gymraeg, megis y maes darlledu. Er ein bod yn aml yn ymateb i ddatblygiadau polisi sefydliadau eraill rydym hefyd yn gweithio’n rhagweithiol i osod ein hagenda polisi ein hunain yn y meysydd sydd o flaenoriaeth i’r defnydd o’r Gymraeg.







## Safoni a hybu enwau lleoedd Cymru

Mae enwau lleoedd o ddiddordeb i bobl mewn cymunedau ar draws Cymru. Rydym yn cydweithio â sefydliadau o bob math i safoni enwau lleoedd Cymru gan wneud hynny ar sail ein canllawiau safoni enwau lleoedd cenedlaethol a chyngor ein Panel Safoni Enwau Lleoedd arbenigol. Rydym wedi cyhoeddi cronfa o enwau lleoedd safonol Cymru ac rydym yn gweithio i sicrhau y bydd y ffurfiau safonol hyn yn cael eu defnyddio yn gyson trwy Gymru gan sefydliadau o bob math. Rydym hefyd yn cyfrannu at ymdrechion i amddiffyn a hyrwyddo'r defnydd o enwau lleoedd Cymraeg.

## Statws y Gymraeg a'r rhyddid i'w defnyddio

Gallwn ymchwilio i achosion o bobl yn atal siaradwyr y Gymraeg rhag defnyddio'r iaith â siaradwyr Cymraeg eraill. Mae sefyllfaoedd fel hyn yn gallu digwydd oherwydd agweddau pobl tuag at y Gymraeg a diffyg gwybodaeth amdani. Byddwn yn ceisio deall pryd a pham y bydd achosion fel hyn yn digwydd ac yn gweithio i atal sefyllfaoedd o'r fath rhag digwydd yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth yn gyffredinol o statws y Gymraeg a'r rhyddid sydd gan bobl i'w defnyddio, a cheisio cynyddu agweddau cadarnhaol gan bawb yng Nghymru tuag at y Gymraeg.







### Cydweithio â mudiadau eraill sy'n hyrwyddo'r Gymraeg, a chomisiynwyr a rheoleiddwyr eraill yng Nghymru a thu hwnt

Rydym yn cydweithio â chyrff eraill yng Nghymru sy'n hyrwyddo'r Gymraeg a gyda chomisiynwyr a rheoleiddwyr eraill yng Nghymru a Phrydain. Mae sawl comisiynydd iaith ac ombwdsmon arall yn y byd sy'n gweithio i amddiffyn hawliau ieithyddol eu siaradwyr. Rydym yn dysgu am eu gwaith a'u profiadau hwythau ac yn rhannu ein profiadau a'r arferion da y gwelwn ninnau wrth ein gwaith gyda hwy. Gwnawn hynny yn bennaf drwy ein haelodaeth o Gymdeithas Ryngwladol y Comisiynwyr Iaith.

### Cynnal ymchwil

Mae gennym ddiddordeb mewn ymchwil o bob math sy'n ymwneud â chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a ieithoedd lleiafrifol eraill yn rhyngwladol. Rydym yn cynnal gwaith ymchwil i osod sail tystiolaeth i'n gwaith ac i fesur a ydym yn cyflawni ein hamcanion. Bob pum mlynedd mae'n ofynnol inni gyhoeddi adroddiad ar sefyllfa'r Gymraeg. Yn 2026 byddwn yn cyhoeddi Adroddiad 5-mlynedd a fydd yn adrodd ar ganlyniadau Cyfrifiad 2021 ac asesiad o oblygiadau'r canlyniadau hynny i sefyllfa'r Gymraeg.

### Rhannu gwybodaeth am ein gwaith

Rydym yn rhannu gwybodaeth am ein holl waith yn hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys tynnu sylw at y cyfleoedd sydd yna ar draws Cymru i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'r sefydliadau y byddwn yn cydweithio â hwy wrth ein gwaith. Rydym yn rhannu arferion da am sut mae datblygu a hyrwyddo'r gwasanaethau a'r cyfleoedd hynny.








# Rhan 1 Adroddiad Perfformiad

Mae ein Cynllun Strategol am y cyfnod 2022–2025 yn gosod yr amcanion canlynol, ac mae'r adroddiad hwn yn nodi ein cynnydd wrth gwrdd â'r amcanion hynny:


## Amcan 1

**Sicrhau tegwch, cyfiawnder a hawliau i siaradwyr Cymraeg**




## Amcan 2

**Sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried mewn polisi a deddfwriaeth**




## Amcan 3

**Cynnal a chynyddu cydymffurfiaeth sefydliadau gyda'u dyletswyddau statudol**



## Amcan 4

**Cynyddu defnydd o'r Gymraeg gan sefydliadau ar draws pob sector**



# Cyd-destun y Gymraeg

**Yn ein hadroddiad blynyddol llynedd cyfeiriom at ddatblygiadau arwyddocaol mewn dau faes polisi sy'n gwbl greiddiol i strategaeth Cymraeg 2050, sef datblygiad Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) a chychwyn gwaith y Comisiwn Cymunedau Cymraeg.**

Fe wnaethom nodi y byddem yn disgwyl i'r gwaith pwysig hwn barhau yn ystod 2024-25. Yn wir, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r gwaith ar Fil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) wedi dwyn ffrwyth, gyda Llywodraeth Cymru'n cyflwyno bil drafft i'r Senedd. Daeth hefyd benllanw rhan gyntaf gwaith y Comisiwn Cymunedau Cymraeg (y Comisiwn) pan gyhoeddwyd yr adroddiad *Grymuso Cymunedau, Cryfhau'r Gymraeg*.




### Cyflwyno Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)

Cyflwynwyd Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) ym mis Gorffennaf ac fe ddaeth i rym yn ystod haf 2025.

Ers datganoli, rydym wedi gweld nifer o bolisïau a strategaethau oedd â'r bwriad o gryfhau prosesau cynllunio addysg Gymraeg. Serch hynny, ychydig o gynnydd gwirioneddol rydym wedi ei weld dros yr ugain mlynedd diwethaf ac mae tystiolaeth glir o'r angen am bolisïau a deddfwriaeth mwy beiddgar ar gyfer y Gymraeg ym maes addysg a sgiliau. Roeddem felly yn croesawu'n fawr y Bil sydd â'r potensial i wneud cyfraniad sylweddol tuag at gyflawni gweledigaeth ac amcanion Cymraeg 2050.

Mae'r hyn sydd yn cael ei gynnig yn y Bil yn ymateb i nifer o ddiffygion sy'n bodoli yn y gyfundrefn cynllunio ieithyddol bresennol. Am y tro cyntaf bydd sail statudol i'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a thargedau eraill sy'n ymwneud â defnyddio'r iaith, gan gynnwys yn y gweithle ac yn gymdeithasol. Yn arwyddocaol, bydd y Ddeddf newydd hefyd yn cynnwys mecanweithiau deddfwriaethol pwerus a fydd yn galluogi dylanwadu yn llawer mwy uniongyrchol ar gyflawni rhai o'r targedau hyn.

Bydd y Ddeddf yn anelu at ehangu addysg cyfrwng Cymraeg ac at godi safonau addysg Gymraeg o fewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Y bwriad yw ysgogi mwy o ysgolion i symud ar hyd continwwm ieithyddol. Dros y blynyddoedd nesaf bydd y Ddeddf yn arwain at sefydlu corff statudol, yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol, a fydd yn gyfrifol am gefnogi pobl o bob oed i ddysgu Cymraeg trwy gynllunio cefnogaeth a hyfforddiant ieithyddol i'r gweithlu addysg.

Bydd y ddeddf newydd hefyd yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adolygu safonau'r Gymraeg gyda'r nod o gynnig dilyniant ieithyddol. Rydym yn disgwyl iddynt chwarae rôl i gysylltu'r berthynas rhwng datblygu sgiliau Cymraeg plant a phobl ifanc drwy'r gyfundrefn addysg a chynyddu defnydd unigolion o'r sgiliau hyn wrth iddynt fynd i mewn i fyd gwaith. Yn ogystal â hynny, mae potensial pellach ar gyfer defnyddio safonau hybu'r Gymraeg fel arf ar gyfer plethu cynllunio ym maes addysg a sgiliau â'r strategaethau ehangach sy'n bodoli ar gyfer hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Rydym yn edrych ymlaen at chwarae rhan allweddol yn y meysydd yma yn ystod y cyfnod sydd i ddod.

## Argymhelliad i sefydlu ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch

Yn ei adroddiad *Grymuso cymunedau, cryfhau'r Gymraeg* mae'r Comisiwn yn argymell y dylid deddfu er mwyn gallu sefydlu ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Yn ôl y Comisiwn byddai hyn yn galluogi datblygu polisïau cyhoeddus sydd wedi eu teilwra i anghenion unigryw yr ardaloedd yma mewn meysydd fel addysg, cynllunio gwlad a thref, datblygu cymunedol a'r economi.

Mae'r Comisiwn yn cynnig dadansoddiad manwl o ystadegau'r cyfrifiad, sy'n dangos yn glir bod sefydlogrwydd y Gymraeg yn yr ardaloedd lle mae'r dwysedd uchaf o'i siaradwyr yn dirywio. Golyga hyn felly fod bygythiad mawr i hyfywedd y Gymraeg, nid yn unig yn yr ardaloedd hynny, ond hefyd ar lefel genedlaethol.

Mae'r Comisiynydd yn cefnogi prif argymhelliad y Comisiwn. Mae angen atal dirywiad pellach yn yr ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn iaith fwyafrifol ac yn cael ei throsglwyddo o un genhedlaeth i'r nesaf.

Rydym hefyd yn croesawu'r argymhelliad i edrych ar berthnasedd ein safonau hybu i ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Mae'r gofynion ar gyfer strategaethau hybu yn gyfyngedig ar hyn o bryd, ond mae potensial i fod yn fwy penodol o ran cynnwys a chwmpas y strategaethau. Yn ein maniffesto ar gyfer etholiadau'r Senedd rydym yn galw ar y Llywodraeth nesaf i gryfhau'r safonau hybu er mwyn iddynt fod yn gerbyd mwy effeithiol ar gyfer cynllunio ieithyddol cymunedol.

Yn yr un modd mae'r argymhellion ynghylch cynyddu defnydd mewnol o'r Gymraeg o fewn sefydliadau cyhoeddus yn cyd-fynd â'n blaenoriaethau strategol ni fel sefydliad. Fel y Comisiwn, rydym yn awyddus iawn i ddefnyddio safonau'r Gymraeg fel arf ar gyfer symud sefydliadau ar hyd continwwm ieithyddol ac i annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg wrth weithio ac wrth ddarparu gwasanaethau.

Cydnabu'r adroddiad bod angen gwaith pellach er mwyn datblygu cynigion polisi pendant a fydd yn adeiladu ar y 57 o argymhellion mae'r Comisiwn wedi eu gosod i'r Llywodraeth. Ymatebodd y Llywodraeth i'r argymhellion yn Eisteddfod yr Urdd ym Mharc Margam gan gytuno â'r argymhelliad bod angen sefydlu ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch ond heb nodi cynllun nac amserlen ar gyfer gwneud hynny.

Un o'r meysydd sydd wedi derbyn sylw pellach gan y Comisiwn yw cynllunio gwlad a thref. Cyhoeddwyd adroddiad dilynol ym mis Chwefror sy'n rhoi ffocws ar y dylanwad sydd gan y maes cymhleth hwn ar ddefnydd tir, a'r dylanwad mae hynny yn gallu ei gael ar hyfywedd y Gymraeg mewn ardaloedd â dwysedd uwch, yn ogystal ag ardaloedd eraill yng Nghymru.

Mae'r Comisiwn bellach wedi dechrau'r gwaith o gasglu tystiolaeth yn fwy eang am yr ardaloedd hynny sydd y tu allan i'r ardaloedd lle mae dwysedd uwch o siaradwyr, ac mae disgwyl iddynt gyhoeddi adroddiad erbyn Awst 2026.



# Amcan 1 Sicrhau tegwch, cyfiawnder a hawliau i siaradwyr Cymraeg

Ymgysylltu gyda'r cyhoedd gan wrando ac ystyried yr hyn gaiff ei fynegi yn deg a chytbwys. Gweithredu ar ran pobl, boed yn weithwyr neu aelodau'r cyhoedd, os ydynt yn wynebu rhwystrau wrth ddefnyddio'r Gymraeg. Cymryd bob cyfle i estyn allan at gynulleidfa ehangach.




Codi ymwybyddiaeth am yr hawliau cyfreithiol sydd gan ddefnyddwyr y Gymraeg gan gymryd pob cyfle i estyn allan at gynulleidfa ehangach.

Gweithredu trefn gwyno effeithiol sy'n atal methiannau rhag parhau neu gael eu hail adrodd.

Addysgu a rhannu gwybodaeth am ganlyniadau arwyddocaol gwaith achos gyda chynulleidfaoedd targed o bob math.

Cynnal darnau gwaith ymatebol sy'n ceisio darganfod a oes gan rai grwpiau o ddefnyddwyr y Gymraeg fwy o anawsterau i arfer eu hawliau oherwydd eu hamgylchiadau a gwneud argymhellion i'w cefnogi.

Gosod safonau ar gyrff mewn modd amserol unwaith i safonau gael eu cyflwyno gan y Senedd. O fewn oes y cynllun hwn ac yn unol â Chytundeb Cydweithio Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, disgwylir gwneud hynny ar gyfer y sefydliadau canlynol: trafnidiaeth gyhoeddus, rheoleiddwyr yn y sector iechyd, sefydliadau cyhoeddus sy'n dal y tu allan i'r gyfundrefn safonau ar hyn o bryd a chwmnïau dŵr.

## Arolwg Barn

**Er mwyn sicrhau ein bod yn gwrando ac yn deall yr hyn sydd gan bobl i'w ddweud am y Gymraeg, rydym yn comisiynu arolwg blynyddol o farn siaradwyr Cymraeg am wasanaethau Cymraeg sefydliadau cyhoeddus a'u barn am gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.**

Roedd 27% o'r ymatebwyr o'r farn bod eu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus wedi cynyddu dros y flwyddyn flaenorol (cynnydd o 4%) a 53% o'r farn bod cyfleoedd wedi aros yr un peth.

17% o'r sampl oedd yn nodi ei bod yn well ganddyn nhw ddefnyddio'r Gymraeg gyda sefydliadau cyhoeddus, 71% yn nodi bod yn well ganddyn nhw ddefnyddio'r Saesneg, a 12% yn nodi ei bod yn amrywio.

Rhai o'r ffactorau pennaf sy'n effeithio ar ddewis iaith yw'r pwnc neu ddefnydd o eirfa dechnegol (37%), hyder personol a theimlo'n gyfforddus i ddefnyddio'r Gymraeg (16%), argaeledd siaradwr Cymraeg (11%) a'r person arall yn siarad Cymraeg yn gyntaf (7%).

**79%**

**o'r ymatebwyr yn cytuno eu bod fel arfer yn gallu delio â sefydliadau yn Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.**

**75%**

**yn cytuno bod gwasanaethau Cymraeg sefydliadau cyhoeddus yn gwella yn gyffredinol (cynnydd o 1%).**

**75%**

**yn cytuno bod sefydliadau cyhoeddus yn gofyn iddynt ym mha iaith yr hoffent ddelio â nhw.**

**70%**

**o'r rhai a ymatebodd yn cytuno eu bod yn fwy tebygol o ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg os yw sefydliadau yn ei gwneud yn glir eu bod ar gael (cynnydd o 5%).**

## Ymestyn y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg

**Erbyn hyn, mae dros 130 o sefydliadau yn ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg, gan adlewyrchu'r cynnydd sylweddol sydd wedi'i wneud tuag at sicrhau bod y Gymraeg yn rhan annatod o wasanaethau cyhoeddus ledled Cymru.**

Mae parhau â'r rhaglen o ymestyn safonau'r Gymraeg i sefydliadau cyhoeddus eraill yn allweddol os ydym am gyflawni ein deilliannau rheoleiddio, a'n gweledigaeth o Gymru lle gall pobl fyw eu bywyd yn Gymraeg. Rydym yn falch fod y gwaith o osod safonau, gan ymestyn y dyletswyddau statudol yma i sefydliadau a sectorau eraill, wedi parhau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Ym mis Ebrill 2024, gosodwyd hysbysiadau cydymffurfio ar gyd-bwyllgorau corfforedig oedd yn cynnwys safonau'r Gymraeg y byddai'n ofynnol iddynt gydymffurfio â nhw. Daeth y safonau cyntaf i rym ym mis Hydref 2024. Mae cyd-bwyllgorau corfforedig yn gyrff cyhoeddus statudol a sefydlir gan ddau neu fwy o gyrff llywodraeth leol i gyflawni swyddogaethau penodol ar y cyd, megis darparu gwasanaethau rhanbarthol neu reoli adnoddau.

Yn ogystal, gosodwyd hysbysiadau cydymffurfio ar gwmnïau dŵr, gan sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth a chyfathrebu â chwsmeriaid yn Gymraeg, gan wella'r profiad i siaradwyr Cymraeg ledled Cymru. Bydd y safonau hyn yn dod i rym ym mis Awst 2025.

Ers sefydlu Medr yn weithredol ym mis Awst 2024, rydym wedi bod yn gweithio gyda'r sefydliad i ddeall yn well sut byddent yn gallu cydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Ar hyn o bryd, rydym yn ymgynghori â Medr ar gynnwys hysbysiad cydymffurfio, gan osod y sylfeini ar gyfer gweithredu'r safonau yn ffurfiol yn y dyfodol agos.





## Amcan 1

Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru ar ychwanegu deg o sefydliadau cyhoeddus at Reoliadau Safonau'r Gymraeg presennol, cymeradwywyd y cynigion gan Senedd Cymru, a daethant i rym ar 28 Mawrth 2025.

Rydym yn croesawu'r cam hwn gan Lywodraeth Cymru i ehangu cwmpas y rheoliadau fel y bo mwy o sefydliadau cyhoeddus yn gweithredu o fewn fframwaith statudol sy'n hyrwyddo'r Gymraeg.




**Mae ein gwaith o ymgysylltu â'r sefydliadau isod bellach ar waith ac edrychwn ymlaen at ddatblygu ein perthynas reoleiddio â nhw yn ystod y flwyddyn nesaf.**

Awdurdod Cyllid Cymru

Cymwysterau Cymru

Y Comisiwn Ffiniau i Gymru

Panel Dyfarnu Cymru

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Awdurdodau Iechyd Arbennig

- Addysg a Gwella Iechyd Cymru
- Iechyd a Gofal Digidol Cymru
- Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG
- Awdurdod Busnes y GIG

Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol

**Rydym hefyd wedi bod yn cydweithio'n agos gyda'r sector cymdeithasau tai i baratoi ar gyfer y rheoliadau newydd y bydd y Llywodraeth yn eu cyflwyno yn ystod 2025/26.**

Rydym yn ystyried y paratoadau hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y cymdeithasau tai yn gallu darparu gwasanaethau dwyieithog effeithiol i'w tenantiaid.

Cynhaliom ddigwyddiad yng Nghaerdydd ar 19 Mawrth ar gyfer y sefydliadau hynny sydd yn paratoi at weithredu safonau'r Gymraeg. Roedd y sesiwn yn gyfle i glywed gan amryw o sefydliadau am eu profiadau wrth gychwyn ar y broses reoleiddio, a thrafod y cyfleoedd, yr heriau a'r cymorth sydd ar gael iddynt.




**6** — **Nifer y sefydliadau a dderbyniodd hysbysiad cydymffurfio**

**8** — **Nifer o gynlluniau iaith newydd neu ddiwygiedig a gymeradwywyd**

**1** — **Nifer yr heriau a dderbyniwyd ac a broseswyd yn unol â gofynion gweithdrefn y Comisiynydd**

## Ymdrin â chwynion

**Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi parhau i ymdrin â chwynion, ac wedi cynnal ymchwiliadau statudol a gosod camau gorfodi pan nad oedd ymateb sefydliadau i'r cwynion hynny yn ddigonol i sicrhau cydymffurfiaeth i'r dyfodol.**

Ein nod yw gwneud yn siŵr nad yw rheoleiddio yn golygu cynnal ymchwiliadau statudol a gosod camau gorfodi yn unig. Rydym felly wedi buddsoddi mwy mewn gweithgareddau hyrwyddo i gefnogi sefydliadau i symud yn eu blaenau tuag at gydymffurfiaeth uwch. Rydym wedi ymrwymo i weithredu'n gymesur gan dargedu ein gwaith rheoleiddio a gweithredu ar nifer o fesurau penodol, gan gynnwys ein hasesiad o risg tebygol y sefydliad o fethu â chydymffurfio.

Er mwyn gwella gwasanaethau rydym am gynyddu'r gefnogaeth reoleiddio sydd ar gael drwy ddarparu cyngor, codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth, a chefnogi sefydliadau i gydymffurfio â'r safonau.

Wrth edrych ar y gostyngiad yn nifer yr ymchwiliadau i gwynion yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'n amlwg bod sawl ffactor wedi cyfrannu at y newid hwn.

Dim ond os yw'r Comisiynydd yn amau bod sefydliad wedi methu â chydymffurfio y caiff gynnal ymchwiliad. Yn aml, mae'r asesiad cychwynnol i benderfynu a oes angen ymchwiliad yn datgelu nad oes amheuaeth o fethiant gan y sefydliadau dan sylw. Mae hyn yn golygu bod llawer o gwynion yn cael eu cau heb yr angen am ymchwiliad.

Yn ogystal, mae sefydliadau wedi bod yn cymryd camau rhagweithiol i adfer cydymffurfiaeth o'u gwirfodd. Pan fydd cwyn yn codi, mae nifer o sefydliadau yn mynd ati i ddatrys y materion gan sicrhau bod y safonau'n cael eu cynnal.

O bryd i'w gilydd, rydym yn arfer ein disgresiwn i benderfynu peidio â chynnal ymchwiliad i gŵyn. Gwneir y penderfyniad hwn pan fyddwn yn pennu y byddai ymchwilio i'r mater dan sylw yn anghymesur â'r adnoddau fyddai eu hangen i gynnal ymchwiliad.

Wrth ystyried gwaith rheoleiddio Comisiynydd y Gymraeg yn ei gyfanrwydd, ni ddylid mesur llwyddiant yn unig yn ôl nifer y camau gorfodi a gymerir. Yn hytrach, dylid ei asesu yn seiliedig ar welliant cyffredinol yn y cyfraddau cydymffurfio. Yn ogystal, mae'n bwysig ystyried barn siaradwyr Cymraeg am wasanaethau Cymraeg sefydliadau cyhoeddus a'u barn ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

Rydym wedi gweld cynnydd yn y ddau ddangosydd yma eleni, sy'n dangos bod cyfraddau cydymffurfio sefydliadau yn parhau i gynyddu (gweler Amcan 3), a bod mwy o bobl yn fodlon gyda'r gwasanaethau Cymraeg ac yn teimlo bod ganddynt fwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith (gweler uchod).

Gwelwyd lleihad yn y camau gorfodi a osodwyd yn ystod y flwyddyn. Mae hynny'n rhannol o ganlyniad i'r gostyngiad yn nifer y cwynion a dderbyniwyd, ac i agor ymchwiliadau i ganran llai o'r cwynion hynny. Ond, mae hefyd yn ganlyniad ymdrech fwriadus gennym ni i dargedu ein camau gorfodi tuag at y materion hynny yr oedd gwir angen rhoi sylw iddynt ac a fyddai'n cael y traweffaith mwyaf.

## Amcan 1

Yn y gorffennol, rydym wedi gosod camau gorfodi pan ganfuwyd methiant i gydymffurfio â safon, p'un a oedd y sefydliad wedi cymryd camau i gywiro'r mater yn ystod yr ymchwiliad ai peidio. Erbyn hyn, rydym yn canolbwyntio ein camau gorfodi ar faterion lle nad oes sicrwydd y byddai cydymffurfiaeth yn cael ei hadfer pe na bai camau gorfodi'n cael eu gosod.

Rydym hefyd wedi symud i ffwrdd o'r arfer o osod camau penodol a rhagnodol, er mwyn rhoi rhywfaint o ddisgresiwn i sefydliadau benderfynu drostynt eu hunain sut i weithredu.




**2024/25**

| | |
|---|---|
| Cyfanswm y cwynion yn ymwneud â safonau'r Gymraeg | **77** |
| Nifer y cwynion dilys yn ymwneud â safonau'r Gymraeg | **77** |
| Nifer y cwynion yr ymchwiliwyd iddynt | **20** |
| Nifer y cwynion y penderfynwyd peidio ag ymchwilio iddynt | **60** |
| • Dim amheuaeth o fethiant | **18** (30%) |
| • Ymchwiliad i'r un mater eisoes ar agor | **2** (3%) |
| • Adnoddau sydd eu hangen i ymchwilio i'r gŵyn yn anghymesur â'r buddion a/neu'r canlyniadau disgwyliedig o'r ymchwiliad | **1** (2%) |
| • Datrysiad i'r mater wedi ei gyflawni gan y sefydliad o'i wirfodd | **26** (43%) |
| • Ymrwymiad gan y sefydliad i gymryd camau at ddatrys y mater | **13** (22%) |
| Nifer yr ymchwiliadau y dyfarnwyd arnynt | **26** |
| Nifer yr ymchwiliadau ar agor ar 31 Mawrth | **21** |
| Nifer y safonau unigol (nid ymchwiliadau) y dyfarnwyd arnynt | **57** |

Gellir canfod rhagor o wybodaeth am waith Gorfodi'r Comisiynydd (Rhan 5 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011) drwy fynd i'n **Cofrestr Camau Gorfodi**.



**2024/25 (parhad)**

| | |
|---|---|
| Nifer y dyfarniadau o fethiant i gydymffurfio â safonau unigol | **50** |
| Categori'r cwynion y dyfarnwyd arnynt: | |
| ▪ Cyflenwi gwasanaethau | **51** |
| ▪ Llunio polisi | **3** |
| ▪ Gweithredu | **3** |
| ▪ Hybu | **0** |
| ▪ Cadw cofnodion | **0** |
| ▪ Materion atodol | **0** |
| Nifer y camau i adfer neu orfodi cydymffurfiaeth | **66** |
| ▪ Cymryd camau i atal methiant | **55** |
| ▪ Paratoi cynllun gweithredu | **6** |
| ▪ Cyhoeddusrwydd | **0** |
| ▪ Rhoi cyngor | **1** |
| ▪ Rhoi argymhellion | **4** |

## Cynlluniau iaith Gymraeg

| | |
|---|---|
| Cyfanswm cwynion yn ymwneud â chynlluniau iaith | 20 |
| Nifer y cwynion dilys yn ymwneud â chynlluniau iaith | 10 |
| Nifer yr ymchwiliadau yn ymwneud â chynlluniau iaith | 0 |
| Nifer yr argymhellion yn sgil ymchwiliad yn ymwneud â chynlluniau iaith | 2* |

*yn sgil adroddiad agorwyd yn y flwyddyn flaenorol

## Rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg

Mae Rhan 6 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn darparu bod modd i unigolyn gyflwyno cais i'r Comisiynydd os yw'n teimlo bod unigolyn neu sefydliad wedi ymyrryd â'i ryddid i gyfathrebu â pherson arall drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn ystod y cyfnod adrodd eleni, derbyniwyd un ymholiad cychwynnol yn ymwneud â'r ddarpariaeth hon, ac fe aethom ati i gynnal ymchwiliad i un honiad penodol. Ar ddiwedd y cyfnod adrodd, roedd yr holl dystiolaeth wedi'i chasglu a'i dadansoddi'n fanwl. Rhannwyd copi o'r adroddiad terfynol gyda'r partïon perthnasol.

## Datrysiadau i ymchwiliadau

### Cyngor Sir Ceredigion

Cysylltodd aelod o'r cyhoedd gyda'r Comisiynydd am ymgynghoriad Cyngor Sir Ceredigion ar ddyfodol ysgolion cynradd gwledig. Yn marn yr achwynydd nid oedd ystyriaeth ddigonol i'r Gymraeg yn y ddogfen ymgynghori. Ymatebodd y Cyngor gan gydnabod nad oedd wedi cydymffurfio â'r safonau llunio polisi, a chytunwyd i ddiwygio'r ddogfen gan ymestyn y cyfnod ymgynghori i roi cyfle teg i bawb ymateb.

Cynhaliwyd cyfarfodydd rhwng swyddogion y Comisiynydd a'r Cyngor, a rhoddwyd cyngor ar gryfhau'r ystyriaethau i'r Gymraeg. Ymrwymodd y Cyngor i weithredu'n gyflym a chyflwyno'r dogfennau newydd i'w rhanddeiliaid. Oherwydd y camau a gymerwyd, ni chynhaliwyd ymchwiliad pellach.

Yn yr achos hwn, llwyddwyd i newid arferion y sefydliad cyn i'r ymgynghoriad ddod i ben. Er y byddai ymchwiliad o bosib wedi canfod methiant wedi i'r cyfnod ymgynghori ddirwyn i ben, ni fyddai wedi bod yn bosibl dylanwadu ar y broses ymgynghori yn amserol.

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

### Cyngor Caerdydd

Ar ôl derbyn cwynion am ddiffyg darpariaeth Gymraeg yn nerbynfa Llyfrgell Ganolog Caerdydd, penderfynwyd cynnal ymchwiliad. Cadarnhaodd y Cyngor nad oedd siaradwr Cymraeg ar gael yn y dderbynfa drwy'r amser, ac nad oedd modd sicrhau gwasanaeth Cymraeg ar bob achlysur.

Er mwyn mynd i'r afael â'r broblem, mae'r Cyngor bellach wedi cymryd camau penodol. Mae'n ymroi i recriwtio rhai sy'n barod i ddysgu'r Gymraeg gan gefnogi staff cyfredol i ddysgu'r iaith. Byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa, gan sicrhau bod y camau yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

CARDIFF CAERDYDD

**Yn ôl Cyngor Caerdydd:**

**"Rydym yn gweithio ar gynllun gweithredu ar draws y timau i sicrhau ein bod yn darparu ac yn hyrwyddo gwasanaethau dwyieithog i'w llawn botensial. Mae hyn yn cynnwys trefnu digwyddiadau recriwtio wedi'u hanelu at siaradwyr Cymraeg a hyrwyddo Cyngor Caerdydd fel sefydliad dwyieithog.**

**Byddwn yn gwella hysbysebion ar gyfer swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol, gan weithio'n agos gyda Chaerdydd Ddwyieithog. Rydym hefyd yn creu grwpiau ffocws ym mhob adran i gefnogi rheolwyr llinell gyda dadansoddi recriwtio a sgiliau."**

## Cyngor Wrecsam

Cafwyd cwyn nad oedd y Cyngor wedi asesu'r angen am sgiliau Cymraeg wrth hysbysebu swyddi yn eu canolfannau hamdden. Gosodwyd camau gweithredu er mwyn iddynt addasu eu trefniadau gyda'r darparwr trydydd parti sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau hamdden ar ran y Cyngor, er mwyn sicrhau bod y safonau recriwtio yn cael eu dilyn.

Yn sgil hyn, gohebwyd gyda phob sefydliad sy'n ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg, gan rannu'r gwersi ehangach a chodi ymwybyddiaeth o'r disgwyliadau statudol mewn perthynas â chydymffurfiaeth wrth recriwtio drwy drydydd parti. Yn ogystal, ychwanegwyd **gwybodaeth berthnasol** ar ein gwefan i gefnogi sefydliadau i adolygu ac atgyfnerthu eu trefniadau eu hunain.

wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam









## Profiad siaradwyr Cymraeg sy’n hawlio budd-daliadau

**Arweiniodd pandemig COVID-19 at gynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy’n hawlio budd-daliadau yn y DU am resymau economaidd ac iechyd. Roedd y Comisiynydd yn awyddus i ddeall i ba raddau yr oedd y gwasanaethau hynny ar gael yn y Gymraeg ac a oeddent yn ddigon hygyrch i siaradwyr.**

Lluniwyd holiadur ar-lein i gasglu barn y rhai sy’n hawlio Credyd Cynhwysol yn ogystal â chynnal cyfweliadau un-i-un â hawlwyr. Roedd gwybodaeth am y Credyd Cynhwysol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ynghyd â’r broses ymgeisio ar gael yn Gymraeg, a’r rhan fwyaf o’r defnyddwyr wedi cael profiad cadarnhaol. Fodd bynnag, dangosodd yr arolwg nad oedd y gwasanaeth Cymraeg yn ddigon hygyrch nac yn hawdd dod o hyd iddo.

**Cyflwynwyd argymhellion ar sail canfyddiadau’r archwiliad oedd yn nodi’r angen i sicrhau**

- bod gwasanaethau Cymraeg yn hawdd eu deall
- bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu hyrwyddo’n amlwg yn y canolfannau gwaith
- adolygu sgiliau ieithyddol staff adrannau gwahanol, a
- bod y capasiti i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg yn ddigonol.

**Lluniwyd holiadur ar-lein i gasglu barn y rhai sy’n hawlio Credyd Cynhwysol yn ogystal â chynnal cyfweliadau un-i-un â hawlwyr.**



## Diwygio'r Polisi Gorfodi

**Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom ymrwymo i gyd-reoleiddio gyda ffocws cryf ar hybu hunan-reoleiddio. Mae'r dull newydd hwn yn annog cydweithio a phartneriaeth gyda sefydliadau.**

Wrth **gyhoeddi'r dull hwn**, fe gyfeiriom at yr angen i ni edrych ar sut orau i hwyluso ein gwaith ymchwilio a gorfodi, a photensial ymdrin â chwynion a chydymffurfiaeth yn fwy effeithiol. Rydym am wneud yn siŵr nad yw rheoleiddio yn golygu cynnal ymchwiliadau statudol a gosod camau gorfodi yn unig ac ystyried a oes modd adfer cydymffurfiaeth drwy ddulliau eraill. Rydym am gynyddu'r gefnogaeth reoleiddio sydd ar gael drwy ddarparu cyngor, codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth, a chefnogi sefydliadau i gydymffurfio â'r safonau.

I adlewyrchu'r ymagwedd newydd hon, aethom ati i ddiwygio ein Polisi Gorfodi, y tro cyntaf ers 2015 i hynny ddigwydd, y tu hwnt i addasiadau gweithredol bychan a wnaed mwyn ymateb i argyfwng Covid.

**Mae ein polisi diwygiedig drafft yn:**

- **cynyddu'r cyfleoedd i sefydliadau roi eu prosesau cwynion eu hunain ar waith, lle bo hynny'n briodol**
- **pwysleisio'r angen i osgoi oedi di-angen ac i weithredu'n amserol**
- **nodi'n glir bod amrywiaeth o ddulliau y gallwn eu defnyddio i adfer cydymffurfiaeth, gan ddewis y dull gorau ym mhob amgylchiad.**

Er mwyn casglu barn ar y polisi drafft, rhannwyd gwybodaeth a dolen at y ddogfen gydag amrywiaeth eang o unigolion a sefydliadau – gan gynnwys pob sefydliad sy'n ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg, y rhai a restrwyd mewn rheoliadau diweddar, cymdeithasau tai, grwpiau ymgyrchu, mudiadau Cymraeg a rhanddeiliaid perthnasol eraill.

Cynhaliwyd cyfnod ymgysylltu o wyth wythnos, a derbyniwyd ymatebion drwy amrywiaeth o sianeli. Roedd y sylwadau a gafwyd yn fanwl, yn gynhwysfawr ac yn adlewyrchu ystyriaeth ofalus o'r materion dan sylw.

Er mwyn rhannu gwybodaeth ac annog pobl i gymryd rhan, fe wnaethom gyhoeddi gwybodaeth berthnasol ar ein gwefan, lle roedd ffurflen ar-lein ar gael ar gyfer cyflwyno sylwadau. Tynnwyd sylw'n benodol at y cyfle i ymateb drwy'r wefan, ac fe rannwyd gwybodaeth bellach drwy gylchlythyr rhanddeiliaid yr hydref. Hyrwyddwyd hwn ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol, gan gyrraedd dros 2,700 o ddilynwyr a 756 o danysgrifwyr. Yn ogystal, postiwyd dolenni a negeseuon atgoffa tuag at ddiwedd y cyfnod ymgysylltu i annog cyfranogiad gan y cyhoedd yn ogystal â rhanddeiliaid sefydliadol.

Ar ôl ystyried y sylwadau hyn yn fanwl, ein bwriad yw cyflwyno fersiwn ddiwygiedig o'r polisi gorfodi i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo, cyn ei roi ar waith yn ystod 2025-26.

## Ymgyrch Defnyddia dy Gymraeg

**Adeiladodd ymgyrch Defnyddia dy Gymraeg eleni ar y seiliau cadarn a sefydlwyd y llynedd.**

Anogwyd sefydliadau i hyrwyddo eu gwasanaethau Cymraeg i'r cyhoedd, gan greu cynnwys i'w rannu ar gyfryngau cymdeithasol a gwefannau. Rhoddwyd ffocws benodol eleni ar iechyd a gofal. Gan mai meddwl.org oedd elusen y flwyddyn y Comisiynydd, cafwyd cefnogaeth gan y grwp Eden, a chydweithiwyd gyda'r gantores Non Parry sy'n llysgennad i'r elusen, er mwyn tynnu sylw pellach at bwysigrwydd gallu defnyddio'r iaith yn y maes iechyd meddwl.



Buom ar ymweliad ac yn ffilmio mewn ysgol gynradd ger Caerfyrddin, crëwyd fideos poblogaidd, a chafwyd cyfweliadau ar y cyfryngau gydag Eden. Ffilmiwyd podlediad hefyd a fu'n boblogaidd ar ein gwefan a'n cyfryngau cymdeithasol.

Mae'r ymgyrch wedi ennill ei lle ymysg ein partneriaid a'n rhanddeiliaid ac mae'r ymgysylltiad yn cynyddu'n gyson. Cafwyd bron i 150,000 o argraffiadau ar ein cynnwys yn ystod cyfnod yr ymgyrch, cynnydd o dros 20% o'i gymharu ag ymgyrch y llynedd.


Pwysleisia hyn ein cenhadaeth nad cyfrifoldeb un person nac un sefydliad yw'r Gymraeg. Rydym am i bawb yng Nghymru ei pherchnogi a'i defnyddio.






**Cafwyd bron i 150,000 o argraffiadau ar ein cynnwys yn ystod cyfnod yr ymgyrch, cynnydd o dros 20% o'i gymharu ag ymgyrch y llynedd.**

# Amcan 2 Sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried mewn polisi a deddfwriaeth



Cynllunio adroddiad 5-mlynedd ar sefyllfa'r Gymraeg (2021–25) a fydd yn cynnwys dadansoddiad o ganlyniadau Cyfrifiad 2021 ac asesiad o'u goblygiadau, i'w gyhoeddi yn 2026.

Meithrin dealltwriaeth o waith comisiynwyr iaith ac asiantaethau eraill ledled y byd a rhoi llwyfan i arferion llwyddiannus o Gymru.

Craffu ar ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar y Gymraeg.

Cydweithio a rhannu gwybodaeth â phartneriaid perthnasol i ddylanwadu ar bolisi a deddfwriaeth a chyfrannu yn adeiladol at drafodaethau yn ymwneud â meysydd sy'n effeithio ar y Gymraeg.

Dylanwadu ar bolisi sy'n effeithio ar y Gymraeg.

Ymchwilio ac adrodd ar sefyllfa'r Gymraeg a siaradwyr Cymraeg mewn meysydd polisi er mwyn gosod sail tystiolaeth ar gyfer safbwyntiau'r Comisiynydd.

Ystadegau perthnasol:

**25** Ymateb i 25 ymgynghoriad cyhoeddus mewn meysydd fel addysg a sgiliau, iechyd a gofal, tai a chyfiawnder

**125** Cynnal 125 cyfarfod gyda 67 endid gwahanol sy'n berthnasol i'n gwaith dylanwadu ar bolisi

**9** Darparu tystiolaeth ar lafar neu yn ysgrifenedig 9 gwaith i bwyllgorau yn y Senedd ac yn San Steffan

## Addysg a sgiliau

**Cyhoeddwyd Bil y Gymraeg ac Addysg ym mis Gorffennaf 2024.**

Fel y gwnaethom ei nodi yn ein hymateb i ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar egwyddorion cyffredinol y Bil, mae'r Bil yn cynrychioli trobwynt hanesyddol yn natblygiad polisi addysg ac iaith Gymraeg y Llywodraeth. Am y tro cyntaf, bydd rhai o dargedau ac ymrwymiadau pwysicaf strategaeth iaith y Llywodraeth yn cael eu gosod mewn deddfwriaeth.

Yn ein tystiolaeth ysgrifenedig i ymchwiliad y pwyllgor, a hefyd wrth ddarparu tystiolaeth ar lafar wrth i'r pwyllgor graffu ar y Bil dywedom:

- Ein bod yn croesawu'r bwriad i ddeddfu yn y maes
- Ein bod am gryfhau'r cynigion, yn enwedig mewn perthynas â datblygu gweithlu addysg dwyieithog
- Ei bod yn bwysig ehangu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn benodol
- Bod angen ystyriaeth bellach i natur categorïau iaith ysgolion.

Cyfeiriodd adroddiad y pwyllgor yn gyson at ein tystiolaeth a'n pryderon, ac anogwyd Gweinidogion Cymru i ddiwygio elfennau pwysig o'r Bil. Yn ystod ail a thrydedd cyfnod y broses deddfu gwelwyd y Llywodraeth yn ymateb yn gadarnhaol i nifer o'r argymhellion hyn, ac rydym yn ffyddiog y bydd y ddeddfwriaeth yn fwy cadarn yn sgil hyn.

O ystyried bod mwyafrif darpariaethau pwysicaf y Bil yn ddibynnol ar ddatblygu nifer o ddarnau pwysig o is-ddeddfwriaeth, bydd ein hymwneud â'r maes allweddol hwn yn parhau yn y blynyddoedd i ddod.

Er mwyn gwireddu amcanion y Bil bydd angen sicrhau bod polisïau ehangach y Llywodraeth a chyrff perthnasol yn symud i'r un cyfeiriad. Yn y cyd-destun hwn fe wnaethom ymateb i ddatblygiadau pwysig ym maes dynodi cymwysterau 14-16, ac ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y canllawiau statudol drafft ar ddysgu 14 i 16.

## Amcan 2

**Er bod y Bil yn canolbwyntio ar y gyfundrefn addysg statudol yn bennaf, braf hefyd oedd gweld datblygiadau arwyddocaol o safbwynt y sector ôl-orfodol.**

Ymatebodd y Comisiynydd i ymgynghoriad ar gynllun strategol cyntaf Medr, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, a sefydlwyd ym mis Awst 2024. Croesawyd ffocws Medr ar gryfhau darpariaeth addysg drydyddol trwy gyfrwng y Gymraeg, a byddwn yn parhau i gydweithio i hyrwyddo hyn.

Gwnaethom hefyd ymateb i ddau ymchwiliad pwysig gan bwyllgorau'r Senedd, y cyntaf oedd yn craffu ar lwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16, a'r ail ar lwybrau prentisiaeth yng Nghymru. Wrth ymateb i'r ymgynghoriadau hyn gwnaethom bwysleisio'r heriau sy'n bodoli o ran sicrhau dilyniant ieithyddol i'r sector ôl-orfodol. Gwnaethom bwysleisio'r angen i ddatblygu llwybrau clir tuag at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog sy'n cynnal ac yn datblygu sgiliau Cymraeg dysgwyr trwy'r sector ôl-orfodol ac ymlaen i'r gweithle.







## Maes iechyd a gofal

**Mwy na geiriau 2022-27 yw fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r cynllun yn nodi nifer o feysydd blaenoriaeth, er enghraifft gofal dementia i siaradwyr Cymraeg.**

Ym mis Medi cyhoeddodd y Comisiynydd friff polisi a oedd yn rhoi diweddariad ar sefyllfa gofal dementia i siaradwyr Cymraeg. Ffocws y briff oedd asesu'r cynnydd sydd wedi'i wneud yn y maes ers i ni gyhoeddi adroddiad ar y cyd â'r Gymdeithas Alzheimers yn 2018.

Prif gasgliadau'r briff polisi oedd:

- Mai ychydig o gynnydd sydd wedi'i wneud mewn perthynas â mwyafrif argymhellion yr adroddiad blaenorol
- Bod y momentwm a oedd unwaith yn bodoli yn sgil cyhoeddi'r adroddiad yn 2018 wedi arafu'n sylweddol a bod angen ail-gynau'r momentwm hwn ar fyrder
- Bod angen ail-sefydlu'r is-grŵp dementia a'r Gymraeg er mwyn cefnogi Llywodraeth Cymru wrth iddyn nhw ddatblygu Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer dementia.

Yn sgil cyhoeddi'r briff mae'r is-grwp wedi'i ail-sefydlu ac mae'r Llywodraeth wedi ymateb yn gadarnhaol i'r argymhellion. Bydd y grŵp yn parhau i gynghori'r Llywodraeth wrth i gynllun gweithredu newydd gael ei roi ar waith er mwyn sicrhau bod y cynllun hwnnw yn cynnig gwell profiadau gofal i siaradwyr Cymraeg sy'n byw â dementia.





## Y Comisiwn Cymunedau Cymraeg

**Fis Hydref ymatebodd y Comisiynydd i adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg, *Grymuso cymunedau, cryfhau'r Gymraeg.***

Mae ardaloedd yng Nghymru le mae'r Gymraeg yn iaith fwyafrifol ac yn cael ei throsglwyddo o un genhedlaeth i'r llall. Os ydyn ni o ddifri am gryfhau sefyllfa'r Gymraeg ar lefel Cymru gyfan mae'n allweddol atal dirywiad pellach yn yr ardaloedd hyn. Rydym felly yn cytuno â'r egwyddor o sefydlu ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch fel cerbyd fyddai'n galluogi cyflwyno amrywiadau polisi yn yr ardaloedd lle mae'r Gymraeg ar ei chryfaf.

Yn ystod ein trafodaethau â'r Comisiwn, fe wnaethom nodi potensial y safonau hybu ar gyfer cynllunio mwy uchelgeisiol a manwl er mwyn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Mae gofynion y strategaethau hybu yn weddol gyfyngedig ar hyn o bryd, ond mae potensial i fod yn llawer mwy penodol o ran cynnwys a chwmpas y strategaethau. Roeddem felly yn croesawu argymhellion y Comisiwn sy'n ymwneud â safonau'r Gymraeg a'n gwaith ni fel rheoleiddiwr.

Yn yr un modd mae'r argymhellion ynghylch cynyddu'r defnydd mewnol o'r Gymraeg o fewn sefydliadau cyhoeddus yn cyd-fynd â'n blaenoriaethau strategol ni fel sefydliad.

**Fel y Comisiwn, rydym yn awyddus iawn i ddefnyddio safonau'r Gymraeg fel arf ar gyfer symud sefydliadau ar hyd continwwm ieithyddol ac i annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg wrth weithio ac wrth ddarparu gwasanaethau.**





## Hyfywedd a defnyddio'r Gymraeg

Wrth baratoi ar gyfer y papur gwyn ar dai digonol a rhentu teg, ac ymgysylltu'n eang â rhanddeiliaid rydym wedi argymell i'r Llywodraeth gynnwys dangosyddion ar ail gartrefi, llety gwyliau byr-dymor ac eiddo gwag hirdymor. Wrth lunio strategaeth dai hirdymor i Gymru credwn y dylai'r Llywodraeth ystyried amcanion strategaethau hybu cynghorau sir a pharciau cenedlaethol. Dylid hefyd adrodd ar y berthynas rhwng lleoliad tai fforddiadwy o safon ac ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Yn ein hymateb i'r papur gwyrdd ar ddigonolrwydd tai a rhenti teg, mynegom ein siom nad oedd Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr effaith ar gymunedau Cymraeg, felly croesawyd asesiad llawn o effaith y papur gwyn ar dai digonol a rhentu teg ar y Gymraeg a strategaeth Cymraeg 2050. Cyhoeddwyd **blog ar y cyd â'r Comisiynydd Plant a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol** yn trafod polisi cyhoeddus ym maes tai.



## Ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

Er mwyn datblygu tystiolaeth i arwain y gwaith sy'n cael ei nodi fel blaenoriaeth yn ein cynllun strategol newydd yn 2025-30, holwyd dros 1,600 o blant a phobl ifanc am eu barn ynghylch y cyfleoedd sy'n bodoli i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg. Bydd y gwaith hwn yn cael ei ddadansoddi a'r argymhellion yn cael eu rhannu yn ystod y cyfnod nesaf.

## Pwy sy'n siarad Cymraeg yng Nghymru?

Wrth i ni baratoi at greu a chyhoeddi'r adroddiad 5-mlynedd ar sefyllfa'r Gymraeg yng Nghymru, rydym wedi cyhoeddi **dashfwrdd data rhyngweithiol** lle mae modd cael mynediad at y prif ystadegau am siaradwyr Cymraeg. Mae'n defnyddio data Cyfrifiad 2021, y brif ffynhonnell am nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg.

Mae modd ei ddefnyddio i gael data manwl am ble yn union mae siaradwyr Cymraeg yn byw gan weld sut mae patrymau wedi newid dros amser, yn ogystal â darganfod rhagor am fywydau'r siaradwyr hyn.

Yn ystod y cyfnod diwethaf rydym wedi rhannu'r data gyda grwpiau fel Mentrau Iaith Cymru er mwyn cefnogi cynllunio ieithyddol yn lleol.



## Cofleidia dy iaith: Cynhadledd Cymdeithas Ryngwladol y Comisiynwyr Iaith

**Nod Cymdeithas Ryngwladol y Comisiynwyr Iaith yw cefnogi a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ieithyddol a hawliau ieithyddol ledled y byd.**

Ym mis Mehefin 2024, cynhaliwyd cynhadledd ryngwladol yng Nghymru dan gadeiryddiaeth Comisiynydd y Gymraeg. Y nod oedd archwilio effeithiau deddfu ieithyddol yng Nghymru a thu hwnt. Lansiwyd y gynhadledd yn y Senedd a oedd yn gyfle i ddathlu 10 mlynedd ers sefydlu'r Gymdeithas.

Cafwyd sesiynau gan siaradwyr rhyngwladol fel Raymond Théberge, Comisiynydd Ieithoedd Swyddogol Canada, Dr Fernand de Varennes, Cyn-Rapporteur Arbennig y Cenhedloedd Unedig ar faterion lleiafrifol, a Chomisiynydd Iaith Iwerddon, Séamas Ó Concheanainn.









Llwyddodd y gynhadledd i roi llwyfan i arferion gorau a thynnu sylw yn rhyngwladol at y gwahaniaeth y mae safonau'r Gymraeg wedi'i wneud. Trosglwyddwyd y gadeiryddiaeth ar ddiwedd y gynhadledd i Shirley MacLean KC, Comisiynydd Ieithoedd Swyddogol New Brunswick. Cafodd cerdd arbennig ei hysgrifennu ar gyfer yr achlysur gan **Mererid Hopwood** a'i rhannu yn ystod y gynhadledd i ddathlu pwysigrwydd ac arwyddocâd y Gymraeg, ac ieithoedd swyddogol a lleiafrifol ar draws y byd.







**Yr Athro Colin H. Williams, yr arbenigwr cydnabyddedig rhyngwladol ar bolisi a chynllunio iaith, yw un o sylfaenwyr y Gymdeithas ac meddai,**

"Mae'r ffordd y mae'r Gymdeithas wedi esblygu ac aeddfedu yn fy llenwi â balchder gan fod yr aelodau wedi cyfrannu'n sylweddol at godi statws ieithoedd swyddogol. Mae'n ymddangos yn briodol bod y degfed pen-blwydd yn cael ei ddathlu yma yng Nghymru gan fod Comisiynydd y Gymraeg wedi bod yn aelod allweddol o'r cychwyn."

**Yn ôl Comisiynydd Ieithoedd Cynhenid Canada, Dr. Ronald E. Ignace:**

"We commend the Welsh Language Commissioner for hosting the International Association of Language Commissioners and are grateful to be welcomed into this global network. As a unique and historic Commission representing over 70 distinct indigenous languages in Canada, it is deeply encouraging to see our inherent right to languages recognized in this international space."



# Amcan 3 Cynnal a chynyddu cydymffurfiaeth sefydliadau gyda'u dyletswyddau statudol

Gweithredu strategaeth rheoleiddio gwirioneddol rhagweithiol.



Cymryd camau rheoleiddio priodol i drawsnewid perfformiad sefydliadau yn y meysydd allweddol hynny sy'n parhau i brofi'n broblematig:

- Sgiliau a recriwtio
- Safonau llunio polisi

Sefydliadau i wneud mwy i hyrwyddo'r cyfleoedd maent yn eu darparu i ddefnyddio'r Gymraeg mewn dau faes penodedig sef polisïau defnydd mewnol a defnydd gwasanaethau.

Sicrhau bod sefydliadau'n cydweithio gyda'i gilydd ac yn arloesi er mwyn ymateb yn gadarnhaol i'r gofynion sydd wedi eu gosod arnynt drwy gyfrwng cyngor y Comisiynydd, ac arferion effeithiol sydd wedi eu casglu a'u hyrwyddo.

Trawsnewid perfformiad a gallu Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau gwasanaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol i gynnig ymgynghoriadau clinigol yn y Gymraeg, drwy wella ansawdd cydymffurfiaeth sefydliadau â gofynion a osodir arnynt drwy safon 110 a safon 110A.

## Cynnal a chynyddu cydymffurfiaeth

**Fel rhan o'n gwaith rheoleiddio, rydym yn monitro ac yn asesu cydymffurfiaeth sefydliadau drwy gynnal perthynas gyda'r sefydliadau. Mae natur y berthynas a'r cyswllt yn amrywio ac yn ddibynnol ar broffil risg y sefydliadau.**

Rydym yn ymrwymo i weithredu fel rheoleiddiwr ataliol – hynny yw, un sy'n ceisio rhagweld a mynd i'r afael â heriau cyn iddynt arwain at fethiannau. Mae'r dull hwn yn cyd-fynd yn uniongyrchol ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n mynnu bod sefydliadau cyhoeddus yn gweithredu'n gynaliadwy drwy feddwl yn hirdymor, atal problemau, a chydweithio'n effeithiol. Trwy ymgysylltu'n gynnar, rhannu arferion da, a chynnig arweiniad clir, ein nod yw cefnogi sefydliadau i gydymffurfio â'r safonau yn hyderus – gan sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu darparu'n gyson ac yn unol â'r gofynion.

Eleni fe wnaethom gynnal gwaith monitro â 75 sefydliad sy'n dod o dan safonau'r Gymraeg ac 16 sefydliad sy'n gweithredu cynlluniau iaith. Fe wnaethom barhau i weithio gyda'r cyrff eraill drwy ein gwaith ymgysylltu a'n gwaith prosiect ac wrth ddeilio ag ymholiadau a chwynion yn ogystal â gweithio gyda chyrff sydd yn paratoi cynlluniau iaith newydd neu'n diwygio eu cynlluniau cyfredol. Mae hyn yn rhoi darlun cyflawn i ni o sut y mae sefydliadau yn cydymffurfio â'u dyletswyddau iaith. Mae hefyd yn ein galluogi i adnabod problemau yn gynnar ac yn helpu sefydliadau i wella eu darpariaeth a'u harferion.

Mae ein gwaith monitro yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn dangos bod cydymffurfiaeth sefydliadau cyhoeddus yn parhau i wella. Mae sicrwydd uchel bod nifer o sefydliadau yn darparu gwasanaethau Cymraeg o safon. Mae hynny'n wir ar gyfer y gwasanaethau hynny lle mae elfen o reolaeth ganolog o fewn sefydliadau.




**Eleni fe wnaethom gynnal gwaith monitro â 75 sefydliad sy'n dod o dan safonau'r Gymraeg ac 16 sefydliad sy'n gweithredu cynlluniau iaith.**

## Amcan 3

Mae cydymffurfiaeth yn gwanhau serch hynny pan fydd mwy o ddibyniaeth ar adnodd dynol, a phan fydd pobl yn darparu'r gwasanaeth ar draws nifer o wahanol adrannau, ac felly yn lleihau'r reolaeth ganolog. Mae hyn i'w weld yn y ffaith bod gwasanaethau ffôn yn dod i'r amlwg unwaith eto fel y gwasanaeth gwanaf o safbwynt cydymffurfiaeth.

Un o'r rhesymau pam nad yw gwasanaethau ffôn ar gael yn y Gymraeg, yn ôl sefydliadau, yw methiant wrth recriwtio siaradwyr Cymraeg. Mae trosiant staff yn y swyddi hyn yn medru bod yn uchel hefyd.

Mae gwaith i'w wneud o hyd os ydym am gyflawni'r deilliannau rheoleiddio rydym wedi eu gosod er mwyn sicrhau bod defnyddwyr yn cael gwasanaeth Cymraeg bob tro.

**Cyhoeddwyd adroddiad ar gydymffurfiaeth sefydliadau â'u dyletswyddau iaith – Cyflawni newid gyda'n gilydd yn ystod y flwyddyn.**




| Gwasanaeth | 21-22 | 22-23 | 23-24 | 24-25 |
|---|---|---|---|---|
| Ffurflenni | 68% | 71% | 83% | 88% |
| Gwefannau | 84% | 72% | 91% | 92% |
| Gohebiaeth | 81% | 80% | 88% | 90% |
| Gwasanaethau ffôn | 56% | 61% | 56% | 63% |
| Swyddi | 66% | 69% | 84% | 90% |
| Cyfryngau cymdeithasol | 83% | 90% | 89% | 95% |
| Dogfennau | 81% | 83% | 89% | 93% |
| Hunaniaeth gorfforaethol | 81% | 84% | 83% | 95% |
| Deunydd cyhoeddurwydd | 73% | 69% | 70% | 80% |

# Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn gweithleoedd

**Mae creu, cynnal a chefnogi gweithleoedd Cymraeg yn rhan allweddol o'r strategaeth ar gyfer sicrhau hyfywedd y Gymraeg.**

Y tu hwnt i'r byd addysg dyma'r maes strategol sydd â'r potensial mwyaf arwyddocaol i ddylanwadu yn uniongyrchol ar gyfleoedd pobl i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg, gan gyfrannu at gyflawni dau brif amcan strategaeth Cymraeg 2050.

Mae cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn gweithleoedd yn un o flaenoriaethau ein cynllun strategol newydd ar gyfer 2025-30 hefyd, ac rydym eisoes yn arwain ar y gwaith hwn gyda phartneriaid strategol eraill, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Yn ein hadroddiad ar gydymffurfiaeth sefydliadau â'u dyletswyddau iaith – **Cyflawni newid gyda'n gilydd** – nodwyd yn glir fod angen i sefydliadau ystyried a yw eu polisi presennol ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol yn debygol o sbarduno'r newid positif sydd ei angen i alluogi staff i fyw bywyd gwaith yn gynyddol drwy'r Gymraeg. Rydym hefyd yn awyddus i weld sefydliadau yn gwella eu trefniadau recriwtio ac asesu sgiliau er mwyn sicrhau bod y sgiliau cywir ar gael yn y gweithle a bod gweithwyr yn cael pob anogaeth a chefnogaeth i ddatblygu eu sgiliau a defnyddio'r sgiliau hynny yn eu bywyd gwaith.

Cynhaliwyd dwy sesiwn wybodaeth gyda sefydliadau yn ystod y flwyddyn – un ar ddatblygu polisïau ar y defnydd mewnol o'r Gymraeg a'r llall ar arferion hysbysebu swyddi. Y gobaith yw y bydd cynnal trafodaethau agored gyda sefydliadau yn gwella eu dealltwriaeth am beth yw ein huchelgais ar gyfer y maes hwn ac yn eu hannog i adolygu eu gweithdrefnau a pholisïau presennol ac ystyried sut y gallent wella.

**Mae'n dda gweld bod sawl sefydliad eisoes wedi mynd ati i adolygu eu polisïau defnydd mewnol yn sgil y digwyddiadau hyn, a bod nifer hefyd yn gweithio ar ddiwygio eu prosesau recriwtio ac yn cymryd camau ymarferol a rhagweithiol i feithrin sgiliau iaith ymhlith y gweithlu.**

Er mwyn cefnogi sefydliadau â'r gwaith hwn rydym wedi mynd ati i ddatblygu modelau polisi ac adnoddau ac wedi bod yn treialu y modelau hynny gyda detholiad o sefydliadau o wahanol sectorau oedd yn awyddus i adolygu neu greu polisïau defnydd mewnol newydd, gan gynnwys Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Sir Caerffili. Rydym hefyd yn ymrwymo, mewn cydweithrediad â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, i ddatblygu dulliau mesur cynnydd, er mwyn sicrhau ein bod yn asesu effaith y gwahanol weithgareddau yn y maes hwn yn y tymor hir.



# Rhaglen o ddigwyddiadau i hyrwyddo cydymffurfiaeth

**Mae gwella cydymffurfiaeth sefydliadau drwy roi mwy o arweiniad a chefnogaeth yn flaenoriaeth ac yn rhan bwysig o gyd-reoleiddio.**

Mewn ymateb i geisiadau gan y sefydliadau am fwy o ddigwyddiadau rhannu gwybodaeth, aethpwyd ati i drefnu cyfres o sesiynau wyneb yn wyneb ac ar-lein oedd yn mynd i'r afael â nifer o feysydd sy'n profi yn heriol o safbwynt cydymffurfiaeth, ac yn cynnig cyfleoedd i rannu gwybodaeth ac arferion da.

Cynhaliwyd cyfres o 14 o ddigwyddiadau i gyd, gyda 8 o'r rheiny yn sesiynau ar gyfer yr holl sefydliadau sydd yn gweithredu safonau neu gynlluniau iaith a 6 yn sesiynau ar gyfer sectorau penodol neu garfan benodol o sefydliadau.

Roedd y sesiynau oedd yn agored i bob sefydliad yn trafod materion oedd yn gyffredin i bawb – technoleg a gwasanaethau digidol, asesu sgiliau a recriwtio, safonau llunio polisi, polisïau defnydd mewnol ac adroddiad sicrwydd y Comisiynydd – a mynychwyd y sesiynau hynny gan gyfartaledd o 81 cynrychiolydd o wahanol sefydliadau.






Roedd sesiynau oedd wedi'u teilwra i gynulleidfaoedd penodol yn cynnwys sesiwn ar Strategaethau Hybu gydag Awdurdodau Lleol a Pharciau Cenedlaethol. Cynhaliwyd cyfres o weithdai hefyd gyda'r Byrddau Iechyd er mwyn trafod datblygiad y cynlluniau y mae'n ofynnol iddynt eu creu dan Safon 110 ar gyfer cynnal ymgynghoriadau clinigol Cymraeg. Cynhaliwyd sesiynau trafod gyda'r sector addysg, gyda'r bwriad o ddatblygu perthynas adeiladol a chael gwell dealltwriaeth o'r materion sydd yn creu anawsterau iddynt fel sector, yn enwedig yng nghyd-destun cyswllt cyntaf y myfyrwyr gyda'r sefydliadau.



## Amcan 3

**Cafwyd ymateb hynod gadarnhaol i'r sesiynau hyn i gyd, gyda nifer yn nodi bod y dull newydd hwn o gyd-reoleiddio a'r agwedd agored a chydweithredol yn cael ei werthfawrogi.**

Byddwn yn trefnu cyfres o ddigwyddiadau tebyg ar gyfer y flwyddyn i ddod, er mwyn ceisio adeiladu ar y llwyddiant yma.

Yn rhan o'r sesiynau hynny byddwn yn sefydlu fforwm strategol ar gyfer y sector iechyd, fydd yn gyfle i fesur ac adrodd ar gynlluniau 5-mlynedd Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG, gan rannu arferion gorau a datblygu atebion ar y cyd er mwyn gwella gwasanaethau gofal clinigol drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddwn hefyd yn sefydlu fforwm gweithleoedd, er mwyn rhannu syniadau am sut i ddatblygu'r polisïau defnydd mewnol a sut i roi cyfleoedd amrywiol a chynyddol i bobl ddefnyddio'r Gymraeg o fewn eu bywyd gwaith.



**"Mae rhannu profiadau a deall sut mae sefydliadau eraill wedi eu goresgyn wedi bod yn fuddiol."**




**"Roedd y sesiynau yn hynod ddefnyddiol, nid yn unig i gael y cyfle i gwrdd gyda swyddogion o swyddfa'r Comisiynydd ond hefyd i drafod heriau a llwyddiannau gyda sefydliadau ledled Cymru."**




**"Mae pob sesiwn rwyf wedi ei fynychu wedi bod yn help o ran sicrhau cydymffurfiaeth. Mae rhywbeth newydd wedi codi ym mhob sesiwn sydd yn helpu gwella dealltwriaeth."**

## Cynlluniau ymgynghoriadau clinigol y sector iechyd – Safon 110

**Rydym wedi gweld y Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd yn ymateb yn gadarnhaol i bwysau gan y Comisiynydd i adolygu a datblygu cynlluniau gweithredol, cyraeddadwy ar gyfer cynyddu eu gallu i gynnig ymgynghoriadau clinigol, sef y cynlluniau sydd angen bod yn eu lle mewn ymateb i Safon 110.**

Does dim dwywaith fod gan weithrediad llwyddiannus y cynlluniau 5-mlynedd yma y potensial i gael effaith pellgyrhaeddol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar brofiad defnyddwyr o wasanaethau iechyd yng Nghymru – gwasanaethau rydym i gyd yn mynd ar eu gofyn yn ystod ein bywydau.

Aethom ati i weithio gyda'r sefydliadau yn ystod 2024-25 er mwyn rhoi cyngor ac arweiniad ar ein disgwyliadau. Y gobaith oedd y byddai'r sefydliadau yn eu tro yn mynd ati i ymateb a rhoi sylw i'r cyngor hwnnw, a'u bod yn ystyried o ddifri a fyddai eu cynlluniau yn arwain at newid gwirioneddol wrth ddarparu ymgynghoriadau clinigol.

**Mae pob Bwrdd Iechyd bellach wedi cyhoeddi cynlluniau 5 mlynedd, a byddwn yn parhau i drafod a chefnogi'r sefydliadau er mwyn sicrhau bod y cynlluniau hynny yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol.**

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd *Mwy na Geiriau*, fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg ym maes iechyd a gofal. Mae'n weledigaeth bwysig ar gyfer gwella gwasanaethau Cymraeg yn y sector iechyd a gofal gan sicrhau bod llwyddiant y fframwaith a gweithrediad effeithiol cynlluniau Safon 110 yn mynd law yn llaw â'r fframwaith. Wrth dderbyn y cynlluniau newydd hyn, daeth i'r amlwg bod nifer o sefydliadau yn gweld y cyswllt gyda blaenoriaethau *Mwy na Geiriau*, a bod y grwpiau sy'n cael eu blaenoriaethu yn *Mwy na geiriau* yn cael eu blaenoriaethu yng nghynlluniau'r byrddau yn ogystal. Y cynlluniau sydd yn rhoi'r mecanwaith ymarferol i ni ar gyfer gyrru gwelliant a chynyddu capasiti'r sector i gynnal yr ymgynghoriadau clinigol Cymraeg.

Byddwn yn mynd ati felly i gydweithio a meithrin gwell cysylltiadau rhwng gwaith y Comisiynydd yn monitro a rheoleiddio'r safonau ac amcanion cynllun strategol *Mwy na Geiriau*. Byddwn yn cynnal fforwm strategol, ar y cyd â thîm *Mwy na Geiriau*, er mwyn sicrhau bod camau pendant a mesuradwy yn cael eu cymryd gan y sefydliadau i wella'r cynnig i gleifion.



## Arolwg o strategaethau hybu

**Mae sicrhau hyfywedd y Gymraeg fel iaith gymunedol ac fel iaith sy'n cael ei defnyddio bob dydd yn un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu'r iaith Gymraeg heddiw.**

Mae canlyniadau'r cyfrifiad yn dangos yn glir bod sefydlogrwydd y Gymraeg yn y cymunedau lle mae dwysedd uwch o siaradwyr yn dirywio ac o dan fygythiad. Mae'n glir bod angen mwy o ffocws ar gefnogi, defnyddio a throsglwyddo'r iaith yn yr ardaloedd hyn, ac yn wir ym mhob rhan o Gymru.

Mae'r safonau hybu sydd wedi'u gosod ar awdurdodau lleol ac awdurdodau parciau cenedlaethol yn berthnasol iawn yn y cyd-destun hwn.



### Safonau Hybu

Rhaid ichi lunio, a chyhoeddi ar eich gwefan, strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yn eich ardal; a rhaid i'r strategaeth gynnwys (ymysg pethau eraill)

(a) targed (yn nhermau canran y siaradwyr yn eich ardal) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd o dan sylw, a

(b) datganiad sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw; a rhaid ichi adolygu'r strategaeth a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni ar eich gwefan o fewn 5 mlynedd i ddyddiad cyhoeddi'r strategaeth (neu i ddyddiad cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni).

Bum mlynedd ar ôl cyhoeddi strategaeth yn unol â safon 145 rhaid ichi -

(a) asesu i ba raddau yr ydych wedi dilyn y strategaeth honno ac wedi cyrraedd y targed a osodwyd ganddi, a

(b) cyhoeddi'r asesiad ar eich gwefan, gan sicrhau ei fod yn cynnwys yr wybodaeth a ganlyn -

- (i) nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal, ac oedran y siaradwyr hynny;
- (ii) rhestr o'r gweithgareddau a drefnwyd gennych neu a ariannwyd gennych yn ystod y 5 mlynedd flaenorol er mwyn hybu defnyddio'r Gymraeg.

## Amcan 3

Er mwyn cefnogi sefydliadau i weithredu'r safonau'n effeithiol, rydym eisoes wedi cyhoeddi dogfen gyngor benodol ar sut i fynd ati i lunio a gweithredu strategaethau hybu'r Gymraeg. Mae'r ddogfen **hon** yn cynnig cefnogaeth i awdurdodau lleol a'r parciau cenedlaethol yng Nghymru wrth iddynt weithredu eu strategaethau 5 mlynedd, a sicrhau bod y strategaethau hynny'n cyd-fynd â gofynion safonau 145 a 146 yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015. Mae'n adnodd gwerthfawr i bob sefydliad sy'n dymuno gweithredu'n fwriadol ac yn strategol i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn eu cymunedau.

Cynhaliom arolwg eleni i ddangos sut mae awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol yn mesur cyrhaeddiad eu strategaethau pum mlynedd.

Cyflwynwyd canfyddiadau'r arolwg hwnnw yn ystod digwyddiad ym mis Rhagfyr i awdurdodau lleol ac awdurdodau parciau cenedlaethol lle cafwyd cyfle i rannu ein casgliadau, hyrwyddo arferion da a nodi ein hargymhellion.

Er mwyn cynorthwyo'r sefydliadau ymhellach, fe wnaethom adnabod rhai enghreifftiau o arferion da i'w rhannu ar ffurf astudiaethau achos gan **Gyngor Blaenau Gwent** a **Chyngor Ynys Môn**. Byddwn hefyd yn mynd ati i ddatblygu adnoddau pellach i gynorthwyo sefydliadau yn eu hymdrechion i hyrwyddo'r Gymraeg yn eu cymunedau fel y gall pobl ddefnyddio'r iaith yn naturiol yn eu bywydau bob dydd.

**Wrth symud ymlaen, rydym yn awyddus i chwarae rôl gynyddol wrth fonitro, craffu, a gwneud argymhellion i awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol ar gyflawniad eu strategaethau, a hynny er mwyn datblygu a gwella cynllunio ieithyddol mewn cymunedau.**



## Hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg

### Safon hybu gwasanaethau

**Rhaid ichi hybu unrhyw wasanaeth Cymraeg a ddarperir gennych, a hysbysebu'r gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg.**

Mae cynyddu'r defnydd o wasanaethau Cymraeg yn un o flaenoriaethau strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru. Mae gwella'r modd y mae sefydliadau yn hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg wedi ei gynnwys yng nghynllun strategol newydd y Comisiynydd.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn cytunwyd ar ddeg cynllun gan sefydliadau i hyrwyddo eu gwasanaethau Cymraeg. Casglwyd gwybodaeth ddefnyddiol o'r adroddiadau sydd yn cynnig cipolwg i ni ar y cyfleoedd a'r heriau. Mae hyn yn rhoi cyfle i rannu'r wybodaeth â sefydliadau eraill gan adnabod ymyraethau llwyddiannus er mwyn cynyddu'r defnydd o wasanaethau Cymraeg.

**Cynhaliwyd ymgyrch gan yr Adran Waith a Phensiynau i annog pobl i gysylltu â nhw yn Gymraeg ac i gyflwyno ceisiadau am fudd-daliadau yn Gymraeg.**

Adran Gwaith a Phensiynau

O ganlyniad i'r ymgyrch bu cynnydd graddol yn nifer y ceisiadau a wneir yn y Gymraeg ar gyfer Credyd Pensiwn a Chredyd Cynhwysol.

Gwelwyd cynnydd yn y defnydd o'r gwasanaethau Cymraeg rhwng Mawrth 2024 a Chwefror 2025 gyda 21% yn fwy o ddefnyddwyr yn dewis defnyddio'r Gymraeg ar lafar, cynnydd o 31% yn y nifer yn dewis defnyddio gwasanaethau ysgrifenedig Cymraeg a chynnydd o 31% yn y nifer oedd yn dewis defnyddio'r gwasanaethau llafar ac ysgrifenedig.

**Yn ôl yr Adran Waith a Phensiynau:**

**"Roedd cymryd rhan yn y prosiect hwn i hyrwyddo ein gwasanaethau, yn ein barn ni, yn llwyddiant mawr, gan godi mwy o ymwybyddiaeth o'r tri gwasanaeth penodol a ddewiswyd. Gwnaethom hefyd ddefnyddio'r dull hwn i hyrwyddo gwasanaethau eraill yn ystod y prosiect a byddwn yn parhau i wneud hynny wrth symud ymlaen."**

**Roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn awyddus i hyrwyddo tudalennau Cymraeg ar eu gwefan a datblygwyd ymgyrch yn annog y defnydd ohonynt.**

**O ganlyniad gwelwyd cynnydd o 25.8% yn nifer yr ymwelwyr â gwefan Gymraeg y Bwrdd Iechyd.**



**25.8%**

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg University Health Board

**Bu Dŵr Cymru hefyd yn hyrwyddo eu gwasanaethau Cymraeg gan annog pobl i gymryd mantais o'r ffaith eu bod yn gallu cael gohebiaeth drwy'r Gymraeg.**

Dŵr Cymru Welsh Water

Eto gwelwyd cynnydd yn y niferoedd a gofrestrodd i dderbyn gohebiaeth drwy'r Gymraeg ac mae'r gwaith hwnnw yn parhau.

**Yn ôl Dŵr Cymru**


**"Cafodd ein gwasanaethau Cymraeg gyhoeddusrwydd ar nifer o blatfformau a chyfryngau gwahanol yn ystod yr ymgyrch, a'r gobaith yw y bydd mwy o gwsmeriaid yn cysylltu â ni drwy'r Gymraeg dros y misoedd nesaf, a mwy hefyd yn gwneud cais i dderbyn gohebiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg."**

## Penderfyniadau polisi a’r Gymraeg: Ymdrech gydwybodol?

**Mae cynnal llinellau ymholi allweddol yn rhan bwysig o’n gwaith rheoleiddio ac yn ategu ein gwaith monitro rheolaidd.**


Wrth gynnal llinell ymholi allweddol, rydym yn archwilio’n fanwl sut mae sefydliadau’n cydymffurfio â rhai safonau penodol. Pwrpas y llinell ymholi hon oedd deall y trefniadau sydd gan sefydliadau wrth iddynt ystyried effaith eu penderfyniadau polisi ar y Gymraeg. Roeddem yn falch o gyhoeddi **adroddiad** yn cyflwyno ein prif ganfyddiadau ac argymhellion. Anfonwyd holiadur am y safonau llunio polisi at yr holl sefydliadau sy’n dod o dan ofynion y safonau. Cafwyd atebion gan 89 sefydliad, sy’n gyfystyr â 71% o’r holl sefydliadau sy’n dod o dan y safonau.

Dangosodd y gwaith bod enghreifftiau da o sefydliadau yn asesu’r effaith ar y Gymraeg a gwelwyd bod gan sefydliadau ddealltwriaeth dda o ofynion y safonau. Fodd bynnag, mae gwaith pellach i’w wneud os ydym am weld sefydliadau yn rhoi sylw dyledus i effeithiau eu penderfyniadau polisi ar y Gymraeg.




**Dangosodd y gwaith bod enghreifftiau da o sefydliadau yn asesu’r effaith ar y Gymraeg a gwelwyd bod gan sefydliadau ddealltwriaeth dda o ofynion y safonau.**

# Amcan 4 Cynyddu defnydd o'r Gymraeg gan sefydliadau ar draws pob sector



Hwyluso defnyddio'r Gymraeg gyda busnesau ac elusennau drwy gynnal hyfforddiant, darparu canllawiau a rhannu arfer da.

Mwy o ymrwymiadau i ddefnyddio'r Gymraeg gan fusnesau ac elusennau.

Targedu'r sectorau canlynol yn benodol: archfarchnadoedd, darparwyr iechyd a gofal, elusennau cenedlaethol, a banciau.

Cydweithio gyda chyrff ariannu a rhwydweithiau er mwyn dylanwadu ar ragor o fusnesau ac elusennau i ddefnyddio'r Gymraeg.

Darparu cyngor am ffurfiau safonol enwau lleoedd Cymru gan roi amlygrwydd iddynt drwy ail lansio'r Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru ar ei newydd wedd yn 2024. Datblygu ein gallu i ddarparu cyngor am ffurfiau enwau tirweddol a chyhoeddi canllawiau safoni i gefnogi'r gwaith.

## Cronfa enwau lleoedd newydd

**Fel rhan o'n gwaith yn gwarchod statws a hyrwyddo defnyddio enwau lleoedd Cymraeg mae'r Comisiynydd wedi lansio cronfa newydd Enwau Lleoedd Safonol Cymru.**

Mae'r gronfa yn cynnwys adnoddau defnyddiol fel ffeiliau sain a delweddau sy'n deillio o'n gwaith partneriaeth â'r Llyfrgell Genedlaethol a'r Arolwg Ordnans. Dyma'r lle i wirio a oes enw Cymraeg ar le a sut mae ei sillafu'n gywir. Mae modd rhannu llawer iawn mwy o wybodaeth â'r cyhoedd drwy'r rhyngwyneb newydd ac mae'n cynnwys nodiadau esboniadol a dolenni at adnoddau allanol eraill o ddiddordeb.

Enwau Lleoedd Safonol Cymru
Standardised Welsh Place-names




"Mae gwaith Comisiynydd y Gymraeg yn casglu ac yn safoni enwau lleoedd Cymru yn hollbwysig i ni. Mae ein casgliadau'n cynnwys miloedd o gyfeiriadau at y lleoedd hyn, ac mae cael mynediad at y gronfa, dan drwydded agored, yn ein helpu i sicrhau defnydd cywir a chyson ohonynt."

**Jason Evans**
**Rheolwr Data Agored**
**Llyfrgell Genedlaethol Cymru**

"O gyflwyno i'n timau arolygu, i gydweithio ar gyfoethogi ein data, mae'r tîm yn Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn darparu mewnwelediad arbenigol a chefnogaeth i'r Arolwg Ordnans, gan ein galluogi i gyflawni ein rôl fel y Gwasanaeth Mapio Cenedlaethol."

**Arolwg Ordnans**



## Safoni a gwarchod enwau tirweddol Cymru ac enwau eraill

Yn ogystal â chynghori awdurdodau a Llywodraeth Cymru am ffurfiau safonol trefi a phentrefi Cymru, yn 2024-25 buom hefyd yn gweithio ar:

- Enwau tirweddol Eryri a thu hwnt, gan barhau â'n partneriaeth lwyddiannus â Pharc Cenedlaethol Eryri.
- Enwau Cymraeg safonol ar ddinasoedd a threfi eraill y tu allan i Gymru, i gyd-fynd â'r rhestr o siroedd rydym wedi ei chyhoeddi eleni
- Enwau henebion sydd yng ngofal Cadw

**Mae ffrwyth y gwaith hwn i gyd i'w weld yn y gronfa o enwau lleoedd ar ein gwefan.**



**"Rydym yn hynod falch o'r berthynas sydd wedi esblygu gyda Chomisiynydd y Gymraeg dros y blynyddoedd diwethaf. Safoni enwau tirweddol y Parc Cenedlaethol yw calon ein cydweithio ac mae hynny wedi'i gwblhau ar gyfer sawl clwstwr o enwau led-led Eryri erbyn hyn.**

**Drwy'r bartneriaeth, rydym wedi meithrin perthnasau cadarnhaol gyda rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys Arolwg Ordnans a Llywodraeth Cymru a hynny'n allweddol i lwyddiant hirdymor y gwaith.**

**Diolch i'r cydweithio eang yma, mae ein gwaith fel Awdurdod ar enwau tirweddol wedi aeddfedu ac rydym yn falch eithriadol o effaith y bartneriaeth gyda Chomisiynydd y Gymraeg ar gyflwr Treftadaeth Ddiwylliannol Eryri a dealltwriaeth ein cymunedau lleol ohoni."**

**Naomi Jones**
**Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol**
**Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

## Rhoi seiliau statudol i'r gwaith safoni

**Eleni oedd y tro cyntaf i'n gwaith ni yn y maes enwau lleoedd gael ei gydnabod mewn deddfwriaeth wrth i Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 ddod i rym.**

Rhoddodd y ddeddf hon gyfle i ni weithredu fel ymgynghorai statudol mewn perthynas ag enwau etholaethau newydd Senedd Cymru gan sicrhau bod enwau Cymraeg safonol (yn unig) ar bob un o etholaethau'r Senedd.




"Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi darparu cefnogaeth ac arbenigedd amhrisiadwy i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru wrth ddatblygu enwau Cymraeg unigol ar gyfer etholaethau newydd y Senedd. Mae'r dull hwn nid yn unig wedi cryfhau polisi enwi'r Comisiwn, ond hefyd wedi ein galluogi i chwarae ein rhan wrth hyrwyddo'r Gymraeg.

Rydym yn edrych ymlaen at barhau i ddefnyddio'r polisi enwi hwn yn ystod y cylch nesaf o adolygiadau etholiadol, ac yn edrych ymlaen at gynnal y dull cydweithredol gyda Chomisiynydd y Gymraeg yn y dyfodol."

**Shereen Williams**
**Prif Weithredwr**
**Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru**



## Cydweithio â busnesau ac elusennau

**Mae tîm Hybu Comisiynydd y Gymraeg yn cydweithio ag amrywiaeth eang o fusnesau ac elusennau i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg. Sefydliadau yw'r rhain nad ydyn nhw yn dod o dan Fesur y Gymraeg.**

Mae'r sefydliadau yma yn cynnig gwasanaethau Cymraeg yn wirfoddol, ac mae'r tîm yn cynnig anogaeth a chefnogaeth er mwyn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn medru defnyddio'r iaith gyda'r sefydliadau yma o ddydd i ddydd. Mae'n braf gweld sefydliadau yn ymrwymo i gynnig mwy o wasanaethau Cymraeg dros gyfnod o amser gan weithio ar ddatblygu Cynllun Datblygu'r Gymraeg gyda golwg ar dderbyn cymeradwyaeth y Cynnig Cymraeg.








## Y Cynnig Cymraeg

**Dros y flwyddyn ddiwethaf cwblhawyd 152 asesiad ar lein sy'n dadansoddi darpariaeth Gymraeg bresennol sefydliadau ac yn eu harwain at greu Cynllun Datblygu'r Gymraeg.**

**Mae 23 o sefydliadau wedi cyflwyno Cynllun Datblygu terfynol a byddwn yn cydweithio gyda nhw dros y cyfnod nesaf i sicrhau cynnydd yn eu darpariaeth Gymraeg.**

**Mae 47 o sefydliadau wedi derbyn cymeradwyaeth y Cynnig Cymraeg eleni yn rhan o gyfanswm o 160 o sefydliadau sydd wedi derbyn y gydnabyddiaeth ers cychwyn y Cynnig Cymraeg.**

Cynhaliwyd **ymgyrch y Cynnig Cymraeg** dros gyfnod o wythnos yn ystod mis Mai. Prif fwriad yr ymgyrch oedd cefnogi'r sefydliadau sydd eisoes wedi derbyn y Cynnig Cymraeg i hyrwyddo'u gwasanaethau, rhannu llwyddiant busnesau ac elusennau, a chodi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Cafwyd blogiau byr a chynnwys diddorol gan elusennau fel Gisda, Tenovus, a Banc Bwyd Caerdydd, ac fe rannodd nifer o sefydliadau a mudiadau negeseuon am ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Eleni hefyd recordiwyd podlediad gyda thîm Hybu Comisiynydd y Gymraeg er mwyn trafod y gwaith sy'n cael ei gyflawni i annog y defnydd o'r Gymraeg ymysg busnesau ac elusennau.




**Mewn blog gan Gyngor Celfyddydau Cymru nodwyd:**

**"Mae'r Cynnig Cymraeg yn farc safon arbennig o bwysig a defnyddiol i fudiadau celfyddydol. Mae'r broses o gyflawni'r cynnig ynghyd â'r gefnogaeth gan y tîm Hybu yn caniatáu i sefydliadau sicrhau sail gadarn ar gyfer eu holl ddefnyddwyr. Er mwyn annog defnydd o'r Gymraeg gyda'r cyhoedd ac aelodau staff, rhaid creu amodau ffafriol ac adeiladol. Unwaith mae'r seilwaith yn ei le, gallwn gydweithio a chefnogi mudiadau i gymryd camau creadigol pellach. Mae'r Cynnig Cymraeg yn rhoi hyder a sicrwydd i'r sefydliadau ac i ninnau fel Cyngor, eu bod yn gweithredu yr hyn sydd ei angen."**

## Hyfforddiant, canllawiau ac arfer da

**Byddwn yn rhannu canllawiau ac arfer da gyda sefydliadau ac yn darparu sesiynau hyfforddi i'w cynorthwyo i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg.**

Yn ystod y flwyddyn lansiwyd tudalen newydd ar ein gwefan er mwyn rhoi cyngor i sefydliadau am sut i fynd ati i **wella a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol**. Mae'r dudalen yn llawn cyngor, arweiniad ac enghreifftiau gan sefydliadau sy'n llwyddo ac mae wedi derbyn ymateb cadarnhaol gan ddefnyddwyr.





"Mae defnyddio canllaw a chyngor Comisiynydd y Gymraeg wedi bod yn ddefnyddiol i Badminton Cymru, nid yn unig fel rhestr wirio, ond hefyd fel rhywbeth sydd wedi ein helpu wrth gynllunio i fod yn fwy cynhwysol a chynrychioliadol fel sefydliad.

Mae wedi newid sut rydyn ni'n cyfathrebu a chysylltu â'n haelodau, ac rydym wedi sylwi bod mwy o ymgysylltu gyda'r dilynwyr hynny sydd yn siaradwyr Cymraeg o ganlyniad."

**Shuvro Ghoshal**
**Arweinydd Gwaith Digidol**
**Badminton Cymru**

**162**

**Daeth 162 o unigolion i 11 sesiwn hyfforddi yn ystod y flwyddyn er mwyn rhannu gwybodaeth, cyngor ac i rwydweithio**

**96**

**Trefnwyd cyfarfodydd rhwydweithio ar gyfer y sector elusennol a gafodd eu mynychu gan 96 o unigolion**

Bu'r rhwydweithiau yma yn gyfrwng gwych i glywed am arfer da, a thrafod cyfleon i rannu a hyrwyddo'r Gymraeg o ddydd i ddydd. Cynhaliwyd sesiynau hyfforddi gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Cronfeydd y Loteri ac Arfor er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, rhoi cyngor ar sut gall sefydliadau wneud mwy o ddefnydd o'r iaith, a thrafod y gefnogaeth sydd ar gael gan y tîm i gynnig rhagor o wasanaethau Cymraeg.

Cynhaliwyd digwyddiad ar gyfer sefydliadau yn y sector preifat ar y cyd â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Pwrpas y digwyddiad oedd amlygu'r gefnogaeth sydd ar gael gan y ddau sefydliad i'r sector preifat. Mynychodd 60 o unigolion a chafwyd sesiynau gan Gomisiynydd y Gymraeg, cynllun Cymraeg Gwaith, Principality a Mentera.



## Cydweithio ag arianwyr a sefydliadau cyhoeddus

**Mae'r Tîm Hybu yn cefnogi cyrff ariannu i sicrhau bod sefydliadau sy'n derbyn arian cyhoeddus yn ystyried y Gymraeg wrth ddyrannu arian.**

Rydym wedi cefnogi'r gwaith yma gyda chynllun Arfor 2 a Chyngor Celfyddydau Cymru. Mae gweithio tuag at dderbyn y Cynnig Cymraeg bellach yn cael ei gynnwys fel amod i gyrff sy'n cael eu hariannu drwy gynllun Arfor 2 a gan Gyngor Celfyddydau Cymru. O ganlyniad i gydweithio gyda'r cyrff ariannu bu cynnydd yn y nifer o ymrwymiadau gan fusnesau ac elusennau i ddefnyddio'r Gymraeg.

Yn ystod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd cyhoeddwyd partneriaeth newydd rhwng y Comisiynydd a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Nod y bartneriaeth fydd annog y sefydliadau hynny sydd yn derbyn y Cynnig Cymraeg i fanteisio ar wersi Cymraeg gan y Ganolfan er mwyn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Byddwn yn parhau i adeiladu ar y berthynas a'r bartneriaeth hon gan sicrhau ein bod yn cydweithio'n agos gyda'r sefydliadau i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.







## Iaith Gwaith

**Mae'r bathodyn Iaith Gwaith wedi hen ennill ei blwyf – mae i'w weld ym mhobman ac yn gyfle i bobl ddangos eu bod yn siarad Cymraeg a bod croeso i eraill siarad Cymraeg â nhw, boed hynny yn y siop, yn yr ysbyty neu yn y ganolfan hamdden.**






Mae deunyddiau electronig ar gael hefyd. Mae'r rhain yn cynnwys posteri, logo, llofnod e-bost a chefndiroedd rhyngweithiol ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau.

Mae croeso i unrhyw un lawrlwytho'r adnoddau yn rhad ac am ddim o'n **gwefan ni** neu o wefan **Dysgu Cymraeg**. Mae sefydliadau yn gallu cynhyrchu eu nwyddau eu hunain gan ddefnyddio'r brand ar ddeunydd sydd eisoes ar gael i staff. Er enghraifft mae modd brodio'r bathodyn 'Cymraeg' ar wisg, neu osod y bathodyn ar gerdyn adnabod staff sy'n siarad Cymraeg.

**"Mae'r bathodyn Iaith Gwaith a'r cortynnau gwddf yn ein galluogi ni i adnabod siaradwyr eraill, ac yn meithrin ymdeimlad o berthyn i gymuned o fewn y sefydliad ehangach. Mae'n sbarduno sgwrs gydag aelodau staff a myfyrwyr na fyddwn i efallai yn sgwrsio nac yn ymwneud â nhw yn fy rôl, ac yn chwalu'r teimlad o letchwithdod wrth siarad â rhywun newydd yn y Gymraeg."**

**Aelod o staff**
**Prifysgol Metropolitan Caerdydd**

Cymraeg

## Sioe Mewn Cymeriad

**Mae'r ymateb i sioe *Geiriau* gan Manon Steffan Ros a grëwyd y llynedd wedi bod yn bositif iawn a bron i 1,000 o ddisgyblion ar draws Cymru gyfan wedi mwynhau'r sioe. Mae ymweliadau ag ysgolion yn parhau i gael eu trefnu hefyd.**

Drwy gyfrwng y sioe mae'r disgyblion yn dysgu mwy am waith y Comisiynydd a'r rhesymau dros ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywyd bob dydd. Mae'n sioe fywiog, sydd hefyd yn cyflwyno cerddoriaeth Gymraeg gyfredol i'r gynulleidfa ifanc.

Byddwn yn targedu mwy o ysgolion ar hyd ac ar led Cymru dros y cyfnod nesaf. Ar ôl gweld perfformiadau o'r sioe mae'r ysgolion yn derbyn **pecyn i athrawon** sy'n cynnig mwy o weithgareddau a chyflwyniadau am y Gymraeg, budd defnyddio'r iaith, a rôl Comisiynydd y Gymraeg.







**"Doeddwn i erioed wedi clywed am rai o'r bandiau Cymraeg hyn o'r blaen, ond ar ôl gweld y sioe yn yr ysgol, roeddwn i eisiau mynd i chwilio am ganeuon newydd a dysgu mwy am gerddoriaeth Gymraeg."**

**Disgybl ysgol**

**"Fe wnaeth y plant ymateb yn dda iawn i'r sioe! Roedd sawl un wedi mwynhau'r gerddoriaeth ac roedd perfformiad yr actor yn wych. Roedd y negeseuon sy'n cael eu cyflwyno yn y sioe hefyd yn rhai pwysig iawn. Diolch yn fawr iawn!"**

**Athrawes**

# Sylwebaeth ar berfformiad ariannol

## Uchafbwyntiau'r perfformiad ariannol

Corfforaeth undyn yw Comisiynydd y Gymraeg a ariennir gan Weinidogion Cymru. Ar gyfer y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2025, dyrannodd Gweinidogion Cymru gyllideb ar gyfer y categorïau isod, a nodir y gwariant canlynol yn erbyn pob categori:

| | Dyraniad £000 | [1]Alldro £000 | Tanwariant £000 |
|---|---|---|---|
| Refeniw | 3,243 | 3,242 | 1 |
| Cyfalaf | 50 | 50 | - |
| Nid yn arian parod (amorteiddio a dibrisiant) | 147 | 125 | 22 |

[1]Alldro at bwrpas monitro cyllidebol Llywodraeth, yn trin rhent les swyddfa Caerdydd fel gwariant trwy'r datganiad gwariant net cynhwysfawr.

Nod y Comisiynydd yw gwario'r gyllideb yn briodol, a chyfeirio adnoddau i feysydd sy'n gyson â'r amcanion strategol, gan sicrhau gwerth am arian. Yn dilyn derbyn cyllid ychwanegol o £60,000 yn ystod y flwyddyn yn digolledu'r sefydliad am gostau cyflogaeth a phensiwn uwch na'r disgwyl, a thanwariant mewn rhai categorïau gwariant gweinyddu, addaswyd y gyllideb o fewn y flwyddyn gan gyfeirio cyllideb ychwanegol, yn bennaf i faes rhaglenni.

## Crynodeb o'r perfformiad ariannol

| | 2023-24 Alldro £000 | 2024-25 [1]Alldro £000 | 2024-25 [2]Cyllideb £000 | 2024-25 Amrywiant £000 |
|---|---|---|---|---|
| Costau swyddogion | 2,632 | 2,678 | 2,604 | (74) |
| Gweinyddu | | | | |
| Llety: rhent/lesoedd | 15 | 5 | 5 | - |
| Llety: costau eraill | 107 | 89 | 89 | - |
| Dadfeiliadau swyddfa | (109) | 4 | - | (4) |
| Teithio a chynhaliaeth | 37 | 38 | 33 | (5) |
| Hyfforddiant a recriwtio | 55 | 28 | 29 | 1 |
| Cyfreithiol a phroffesiynol | 106 | 88 | 101 | 13 |
| Technoleg gwybodaeth | 112 | 101 | 130 | 29 |
| Cyfathrebu | 14 | 16 | 20 | 4 |
| Ffi archwilwyr allanol | 20 | 20 | 20 | - |
| Gweinyddu arall | 5 | 3 | 6 | 3 |
| | 362 | 392 | 433 | 41 |
| Rhaglenni eraill llai incwm | 286 | 159 | 116 | (43) |
| Llog net a (dderbyniwyd) / dalwyd | - | (1) | 1 | 2 |
| Gwariant refeniw net | 3,280 | 3,228 | 3,154 | (74) |
| Dibrisiant ac amorteiddiad | 58 | 48 | 111 | 63 |
| Amhariad asedau anghyffyrddadwy | - | 33 | - | (33) |
| Colled ar waredu asedau sefydlog | 56 | 17 | - | (17) |
| Dibrisiant asedau hawl i ddefnydd | 76 | 42 | 42 | - |
| **Gwariant net ar ôl llog a dibrisiant** | **3,470** | **3,368** | **3,307** | **(61)** |

[1]Alldro yn trin les swyddfa Caerdydd yn unol ag IFRS16 lesoedd
[2]Cyllideb fewnol derfynol a gytunwyd gan y Tîm Arwain ym mis Mawrth 2024

## Costau swyddogion

Gosodwyd her gyllidebol o £39,000 ar ddechrau'r flwyddyn, gan dybio arbedion yn sgil swyddi yn wag am gyfnod, oherwydd staff yn ymddiswyddo drwy drosiant naturiol. Yn sgil yr ail-strwythuro a'r cynllun ymadael nid oedd unrhyw ymadawiadau oherwydd ymddiswyddiadau yn ystod y cyfnod. Yn ychwanegol at hyn, roedd y setliad cyflog ar gyfer 2024-25 yn uwch na'r disgwyl adeg llunio'r gyllideb. Bu cynnydd i gostau yn sgil newid i'r strwythur staffio, a chynnydd i'r croniad ar gyfer costau gwyliau nad oedd staff wedi'u cymryd ar ddiwedd y flwyddyn.

Llwyddwyd i reoli'r cynnydd gwariant i £74,000 gyda £60,000 ohono yn cael ei ariannu drwy ddyraniad o gyllid ychwanegol gan y Llywodraeth.

## Llety: rhent / lesoedd swyddfa a chostau eraill

Dyma'r flwyddyn lawn gyntaf ers cwblhau'r prosiect i gau ac adleoli'r swyddfeydd. Erbyn hyn mae costau rhedeg y swyddfeydd wedi sefydlogi i tua £139,000 y flwyddyn. Ym mis Medi 2024 paratowyd asesiad o lwyddiant y prosiect gan gynnwys asesiad o'r buddion ariannol. Mae'r prosiect wedi cyflawni arbedion o tua £115,000 y flwyddyn sydd £21,000 yn fwy nag a ragwelwyd adeg cynllunio'r prosiect. Yr unig amrywiant sylweddol i gostau rhedeg y swyddfeydd yw gwariant ar drydan, sydd unwaith eto wedi cynyddu yn sgil effeithiau'r farchnad.

## Dadfeiliadau swyddfa

Cafodd darpariaethau dadfeiliadau eu rhyddhau yn 2023-24 yn sgil llwyddiant wrth negodi gyda'r landlordiaid adeg cau'r swyddfeydd. Mae'r gost fach eleni o ganlyniad i chwyddiant a newid i'r gyfradd ddisgownt a gynghorir gan Drysorlys EF.

## Teithio a chynhaliaeth

Mae gwariant ar deithio a chynhaliaeth wedi cynyddu yn 2024-25, ac yn £5,000 yn fwy na'r gyllideb. Ystyrir ymgysylltu â rhanddeiliaid yn elfen holl bwysig o waith y sefydliad, ac mae hyn wedi gyrru'r cynnydd. Mae'r gyllideb ar gyfer 2025-26 wedi'i gosod gyda'r bwriad bod hyn yn parhau.

## Hyfforddiant, recriwtio a lles

Roedd y gwariant ar hyfforddiant, recriwtio a lles yn gyson â'r gyllideb. Oherwydd arbedion mewn meysydd eraill yn 2023-24 bu modd cynyddu gwariant ar hyfforddiant yn y flwyddyn honno. Eleni mae'r gwariant wedi dychwelyd i lefel arferol.

## Cyfreithiol a phroffesiynol

Roedd gwariant ar wasanaethau archwilio mewnol ac allanol ac yswiriant yn gyson â'r gyllideb. Bu arbediad o ryw £20,000 ar gostau cyfieithu, yn bennaf oherwydd y newid yn strwythur yr adroddiadau ymchwilio, sydd wedi arwain at leihad yn y nifer o eiriau i'w cyfieithu. Bu cynnydd o ryw £7,000 i'r costau cyfreithiol, yn sgil y ddarpariaeth ar gyfer costau cyfreithiol yn ymwneud ag achos Tribiwnlys 2024/02.

## Technoleg gwybodaeth

Roedd tanwariant o £29,000 ar wasanaethau TG yn y flwyddyn. Y prif reswm oedd arbediad o £18,000 wrth derfynu trwyddedau ar gyfer y System Rheoli Achosion, nes bod y datblygiad amgen yn cael ei gwblhau a'i roi ar waith yn ystod 2025-26. Hefyd roedd arbedion o £11,000 ar ddiogelwch TG, megis :

- Arbedion ar gost achrediadau seibr ddiogelwch drwy dendrau cystadleuol
- Manteisio ar brofion senario y cynlluniau parhad busnes, mewn cydweithrediad ag uned cadernid a diogelwch gwladol Llywodraeth Cymru
- Amseru rhoi'r systemau diogelwch newydd ar waith

## Gwariant rhaglenni eraill

Gosodwyd cyllideb o £116,000 ar ddechrau'r flwyddyn. Roedd y gyllideb yn sylweddol llai na'r gwariant yn 2023-24. Bu modd cynyddu gwariant ar raglenni yn 2023-24 yn sgil rhyddhau darpariaethau a chroniadau nad oedd eu hangen mwyach.

Gydag arbedion ar gostau gweinyddu yn ystod 2024-25, arallgyfeiriwyd cyllid ychwanegol i raglenni, gan gynyddu'r gwariant i £159,000. Y prif brosiectau i elwa o'r cynnydd oedd:

- Archebu nwyddau Iaith Gwaith
- Gweithgareddau cefnogi cydymffurfiaeth
- Ymchwil i gefnogi'r Adroddiad 5 Mlynedd

Mae rhagor o wybodaeth ar dudalennau 16 i 60 ar rai o'r prosiectau mwyaf allweddol gafodd eu cyflawni.

# Rhan 2 Atebolrwydd

Mae'r rhan yma o'r adroddiad yn amlinellu gwybodaeth am y ffordd rwyf yn rheoli'r sefydliad ac yn sicrhau llywodraethiant corfforaethol da. Fel y Swyddog Cyfrifyddu, mae gennyf gyfrifoldeb personol i sicrhau bod safon uchel o reolaeth ariannol yn y sefydliad.

Mae'n ofynnol i mi gyhoeddi datganiad llywodraethiant blynyddol sy'n egluro sut mae'r cyfrifoldeb hwn wedi ei roi ar waith yn ystod y flwyddyn.


| | |
|---|---|
| Datganiad llywodraethiant | 66 |
| Adroddiad cydraddoldeb | 75 |
| Adroddiad amgylcheddol | 81 |
| Adroddiad taliadau cydnabyddiaeth | 83 |
| Adroddiad staff | 93 |
| Datganiad o gyfrifoldebau'r swyddog cyfrifyddu | 98 |
| Tystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd | 99 |

# Datganiad Llywodraethiant

**Mae'r datganiad llywodraethiant hwn yn nodi sut y caiff y ffordd o gyflawni fy nyletswyddau eu llywodraethu a'u rheoli, a sut yr wyt fi, fel y Comisiynydd, yn atebol am yr hyn a wnaf.**

## Rôl y Comisiynydd

Sefydlwyd Comisiynydd y Gymraeg yn statudol fel corfforaeth undyn o dan adran 1 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Rwyf yn bersonol gyfrifol am gyfarwyddo a rheoli'r sefydliad. Apwyntir Panel Cynghori gan Weinidogion Cymru i'm cynghori, ac rwyf wedi apwyntio Pwyllgor Archwilio a Risg er mwyn darparu sicrwydd pellach.

Rwy'n annibynnol o Weinidogion ac yn gyfrifol am bennu cyfeiriad strategol fy swyddfa. Rwy'n atebol i Senedd Cymru am weithredoedd fy swyddfa ac mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus yn gallu craffu ar gyfrifon ac effeithiolrwydd fy swyddfa wrth gyflawni fy nyletswyddau statudol.

## Dirprwy Gomisiynydd

Yn unol ag adrannau 12 a 13 y Mesur, mae'n ofynnol i mi benodi Dirprwy Gomisiynydd. Penodwyd y Cyfarwyddwr Rheoleiddio, Osian Llywelyn, fel y Dirprwy Gomisiynydd o 12 Chwefror 2024 am gyfnod o dair blynedd.

## Cynllun Strategol ac adolygu cynnydd

Eleni oedd blwyddyn olaf Cynllun Strategol 2022-25. Roedd y cynllun yn cynnwys datganiad o weledigaeth, amcanion strategol hir dymor a blaenoriaethau mesuradwy i'w cyflawni yn ystod oes y strategaeth. Rhoddwyd y cynllun ar waith drwy gynllun gweithredol blynyddol ac roeddem yn adrodd ar yr hyn oedd yn cael ei gyflawni bob chwarter. Mae rhan gyntaf yr adroddiad blynyddol yn adrodd ar berfformiad y Cynllun Strategol fesul amcan ac yn rhoi trosolwg o'r hyn a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn olaf o'i weithredu.

Yn ystod y flwyddyn, bûm yn paratoi **Cynllun Strategol** newydd am y cyfnod 2025-30. Bûm yn ymgysylltu ar gynllun drafft cyn cyhoeddi fersiwn derfynol. Mae'r cynllun newydd yn seiliedig ar yr un weledigaeth hir dymor yn ogystal â thair amcan strategol newydd a thair thema arbennig. Y tair thema rydym wedi eu hadnabod yw iechyd a gofal; y gweithle; a phlant a phobl ifanc. Bydd gennym hefyd gynllun gweithredol blynyddol ac rydym yn adrodd ar yr hyn sy'n cael ei gyflawni bob chwarter drwy ddulliau mesur penodol.

## Fframwaith Llywodraethiant

Rwyf yn gweithredu **Fframwaith Llywodraethiant** sydd ar gael ar ein gwefan. Pwrpas y Fframwaith yw egluro sut rwy'n cadw fy annibyniaeth fel corfforaeth undyn a chydbwyso'r annibyniaeth honno â'm hatebolrwydd am yr arian cyhoeddus rwy'n ei dderbyn. Mae'r Fframwaith, sydd yn dilyn arfer da, yn cynnwys gwybodaeth am fy strwythur llywodraethu, ac yn cynnwys y systemau a'r prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd sy'n cyfeirio ac yn rheoli'r ffordd yr wyf yn gweithredu ac yn defnyddio fy adnoddau. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r ffordd y mae'r Fframwaith hwn yn cael ei weithredu yn ystod y flwyddyn.

## Tîm Arwain

Mae'r Tîm Arwain yn cyfrannu at ddatblygu fy nodau strategol a'm cynllun gweithredol blynyddol; dyrannu adnoddau ariannol, ac adnoddau eraill mewn ffordd effeithlon ac effeithiol; asesu rheoli risg a chyfleoedd; ac asesu perfformiad parhaus y sefydliad. Cafodd y **cylch gwaith** ei adolygu eleni ac mae copi i'w weld ar ein gwefan.

Dyma restr o'r aelodaeth yn ystod y flwyddyn:

| | |
|---|---|
| **Efa Gruffudd Jones** | **Comisiynydd y Gymraeg** |
| **Osian Llywelyn** | Dirprwy Gomisiynydd a Chyfarwyddwr Rheoleiddio |
| **Siân Elen McRobie** | Cyfarwyddwr Llywodraethiant a Gwasanaethau Corfforaethol |
| **Lowri Williams** | Cyfarwyddwr Strategol |

## Panel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg

Mae gennyf Banel Cynghori statudol a sefydlwyd dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Penodir yr aelodau gan Weinidogion Cymru am gyfnod o dair blynedd. Caf ymgynghori â'r Panel Cynghori ynghylch unrhyw fater. Caiff y **cylch gwaith** ei adolygu yn flynyddol, ac mae copi i'w weld ar ein gwefan.

Cynhaliwyd tri chyfarfod o'r Panel Cynghori yn ystod y flwyddyn a dyma fanylion presenoldeb yr aelodau:

| | Gorffennaf 2024 | Tachwedd 2024 | Chwefror 2025 |
|---|---|---|---|
| Gwyn Williams (Cadeirydd) | ✓ | ✓ | ✓ |
| Nia Elias | ✓ | ✓ | ✓ |
| Anne Davies | ✓ | ✓ | ✓ |
| Elin Maher | ✓ | ✓ | ✓ |
| Rona Aldrich | ✓ | ✓ | ✓ |



## Pwyllgor Archwilio a Risg

Mae gennyf Bwyllgor Archwilio a Risg sy'n gyfrifol am ddarparu cyngor a sicrwydd annibynnol i mi fel Swyddog Cyfrifyddu ac i'r Tîm Arwain ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd rheolaeth fewnol a rheoli risg. Caiff y **cylch gwaith** ei adolygu yn flynyddol, ac mae copi i'w weld ar ein gwefan.

Fel rhan o'r cylch gwaith mae'r pwyllgor yn derbyn adroddiadau archwilio mewnol rheolaidd, y gofrestr risg strategol ac adroddiad eithriad ar faterion llywodraethiant a chorfforaethol. Mae'r pwyllgor hefyd yn craffu ar yr adroddiad blynyddol, y cyfrifon statudol ac adroddiadau'r archwilwyr allanol. Caiff yr adroddiad cyllid a'r adroddiad cynnydd perfformiad chwarterol eu rhannu gyda'r aelodau yn ogystal ag adroddiadau penodol gan fy nhîm mewn ymateb i unrhyw risgiau neu heriau penodol sydd yn codi.

Mae pedwar aelod annibynnol ar y pwyllgor; a chaiff aelodau ymddeol ar wahanol adegau er mwyn sicrhau parhad profiad a gwybodaeth. Dyma restr o'r aelodau a manylion eu presenoldeb yn y pedwar cyfarfod a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn:

| | Mehefin 2024 | Medi 2024 | Rhagfyr 2024 | Mawrth 2025 |
|---|---|---|---|---|
| Mair Gwynant (Cadeirydd) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Alan Davies | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Jayne Woods | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Aled Walters (o 1 Mehefin 2024 ymlaen) | ✗ | ✓ | ✓ | ✓ |

**Sylwadau Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg, Mair Gwynant:**

Mae gwaith y sefydliad ar faterion risg, rheolaeth a llywodraethiant wedi parhau i ddatblygu yn sylweddol yn ystod 2024/25, gydag ymateb positif i ofynion y Pwyllgor o ran ymateb i risg a heriau corfforaethol.

Yn seiliedig ar waith y Pwyllgor dros y flwyddyn, gallwn adrodd fod yr adroddiadau a rannwyd a'r trafodaethau gyda'r Comisiynydd a'r swyddogion yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor:

- fod yna drefniadau, polisïau a phrosesau er mwyn ceisio sicrhau llywodraethiant effeithiol
- fod yna drefniadau ariannol effeithlon
- bod system mewn lle i reoli risg
- bod rheolaeth fewnol yn gadarn.

Bydd y Pwyllgor yn parhau i graffu ar waith y sefydliad er mwyn sicrhau gwelliant parhaus, llywodraethiant safonol ac ymateb priodol i unrhyw risgiau sy'n codi.

## Archwilwyr Mewnol

Mae cwmni TIAA yn gweithredu fel Archwilwyr Mewnol ac maent wedi eu penodi am gyfnod o 3 blynedd arall yn dilyn proses dendro ar y cyd ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Comisiynydd Plant Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a gynhaliwyd eleni.

Caiff rhaglen archwilio mewnol ei chytuno yn flynyddol er mwyn rhoi sicrwydd annibynnol a gwrthrychol i mi o ran rheoli risg, rheoli a llywodraethu. Yn unol â'r rhaglen ar gyfer 2024-25, archwiliwyd y meysydd gwaith canlynol yn ystod y flwyddyn. Derbyniwyd adroddiadau a oedd yn argymell gwelliannau pellach i'r system reolaeth fewnol.

| Maes | Math o archwiliad | Lefel sicrwydd | Nifer yr argymhellion |
|---|---|---|---|
| Cynllunio cydraddoldeb strategol | Sicrwydd | Sylweddol | 0 |
| Diogelu data – GDPR | Sicrwydd | Rhesymol | 5 |
| Rheoli perfformiad a hyfforddiant staff | Ymgynghorol | d/b | 6 |
| Rheolaeth ariannol allweddol: | | | |
| ▪ Incwm, arian parod a rheolaeth trysorlys | Sicrwydd | Sylweddol | 0 |
| ▪ Cyflogres | Sicrwydd | Sylweddol | 0 |
| ▪ Taliadau credydwyr a threuliau | Sicrwydd | Sylweddol | 0 |

Caiff pob adroddiad archwilio mewnol ei ystyried gan y Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae'r pwyllgor yn cadw trosolwg o'r cynnydd a wneir yn erbyn argymhellion yr archwilydd mewnol. Rwyf wedi ymateb i'w hargymhellion ac wedi cytuno ar raglen o welliant parhaus.

**Yn eu hadroddiad blynyddol rhoddodd yr archwilwyr mewnol y farn ganlynol ar lywodraethiant y sefydliad:**

Mae TIAA yn fodlon, yn seiliedig ar y meysydd a adolygwyd yn ystod y flwyddyn, bod gan Gomisiynydd y Gymraeg brosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu rhesymol ac effeithiol ar waith.

Mae'r farn hon wedi'i seilio'n llwyr ar y materion a ddaeth i sylw TIAA yn ystod yr adolygiadau archwilio mewnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn, ac nid yw'n farn ar holl elfennau'r prosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu, yr hyfywedd ariannol parhaus na'ch gallu i fodloni ymrwymiadau ariannol sydd rhaid i Gomisiynydd y Gymraeg eu cael o'i amrywiol ffynonellau sicrwydd.

## Archwilwyr Allanol

Archwilydd Cyffredinol Cymru sydd yn gyfrifol am archwilio'r cyfrifon yn unol â pharagraff 19, Atodlen 1 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

## Rheoli risg

Mae trefniadau rheoli risg y sefydliad yn cael eu harwain gan y Fframwaith Rheoli Risg sy'n dilyn canllawiau'r Llywodraeth. Mae'r Tîm Arwain yn adolygu risgiau gweithredol fel rhan o'r adolygiadau cynnydd chwarterol ar y cynllun gweithredol. Yn ogystal, caiff risgiau perthnasol eu nodi ym mhob papur a gyflwynir i'r Tîm Arwain. Caiff y risgiau hyn eu hymgorffori i'r gofrestr risg strategol lle mae hynny'n berthnasol.

Caiff risgiau ar lefel strategol eu hadolygu'n ffurfiol pob chwarter gan y Tîm Arwain a phroses er mwyn adrodd yn dilyn hynny i'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Y Cyfarwyddwr Llywodraethiant a Gwasanaethau Corfforaethol yw Rheolwr Risg ac Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth y sefydliad ond cafodd y cyfrifoldebau hynny eu trosglwyddo ar ddiwedd 2024-25 dros dro i'r Dirprwy Gomisiynydd yn ystod absenoldeb mamolaeth y Cyfarwyddwr Llywodraethiant a Gwasanaethau Corfforaethol yn ystod 2025-26.

Mae'r Fframwaith Rheoli Risg yn cydnabod nad yw'n bosib dileu pob risg ond drwy'r gofrestr risg strategol, caiff risgiau eu hadnabod a'u rheoli ac yna eu gostwng i lefel dderbyniol. Cynhaliwyd hyfforddiant a gweithdai ar reoli risg dan arweiniad yr archwilwyr mewnol i aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Risg ac i'r Tîm Arwain yn ystod y flwyddyn. Arweiniodd hyn at wneud gwelliannau i'r Fframwaith a sefydlu cofrestr risg strategol newydd.

Mae'r drafodaeth ar risg yn ystyried cyd-destun yr heriau cyfredol y mae'r sefydliad yn eu hwynebu gan gynnwys cyd-destun economaidd anodd ac ansefydlog, pwysau sylweddol ar adnoddau'r sefydliad, yr hinsawdd wleidyddol a'r risg cynyddol o ymosodiadau seibr.

## Llywodraethu gwybodaeth

Mae diogelu data personol yn bwysig iawn ac rwyf yn parhau i weithio i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data. Rydym yn gweithio i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chadw'n ddiogel.

Derbyniwyd 11 cais am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn ystod y flwyddyn (2023-24: 11 cais). Ymatebwyd i'r ceisiadau yma o fewn y terfynau amser a nodir gan y Ddeddf.

Ni dderbyniwyd cais gwrthrych am wybodaeth o dan Ddeddfwriaeth Diogelu Data yn ystod y flwyddyn (2023-24: 0 cais).

## Sicrwydd gan reoleiddwyr allanol eraill

### Ymchwiliadau allanol

Ni chynhaliwyd ymchwiliadau i waith y Comisiynydd yn ystod 2024-25 gan reoleiddwyr allanol yn dilyn cwyn nac achosion diogelu data.

### Risgiau diogelwch

Mae rheoli risgiau diogelwch mewn meysydd amrywiol o ddata, gwybodaeth, ein hamgylchedd Technoleg Gwybodaeth, ein swyddfeydd, a'n staff yn hanfodol. Derbyniwyd achrediad Cyber Essentials a Cyber Essentials+ am yr eildro yn ystod 2024-25 ac fe wnaethom hefyd dderbyn achrediadau IASME Cyber Assurance Lefel 1 a 2 am y tro cyntaf eleni. Bydd y rhain yn cefnogi'r trefniadau sydd eisoes ar waith i sicrhau bod ein polisïau a'n gweithdrefnau mewn perthynas â'r ystod eang o risgiau diogelwch yn cael eu rheoli yn briodol.

## Cwynion yn erbyn y sefydliad

Mae gennym **weithdrefn gwyno benodol** os bydd unigolyn am gwyno am weithredoedd neu anweithiau'n ymwneud ag arfer swyddogaethau'r Comisiynydd. Derbyniwyd un gŵyn yn erbyn y sefydliad yn ystod 2024-25 (2023-24: 6 cwyn). Roedd y gŵyn a dderbyniwyd yn 2024-25 yn ymwneud ag atebion gan y sefydliad i geisiadau rhyddid gwybodaeth. Datryswyd y mater.

## Gweithio'n gyfochrog ag ombwdsmyn a chomisiynwyr

Rwy'n cyfarfod yn rheolaidd â Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Comisiynydd Plant Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac Archwilio Cymru i drafod materion strategol a gweithredol. Mae swyddogion hefyd yn mynychu rhwydweithiau a chyfarfodydd sefydliadau sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru ar draws y meysydd cyllid, adnoddau dynol, llywodraethiant, diogelu data a thechnoleg gwybodaeth. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn aelod statudol o Banel Cynghori Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

## Tribiwnlys y Gymraeg

Yn ystod 2024-25, cyflwynwyd 2 gais gan unigolion (2023-24: 4 cais) i Dribiwnlys y Gymraeg ailystyried penderfyniadau'r Comisiynydd. Ceir crynodeb o bob achos a'r dyfarniad isod. Ni dderbyniwyd unrhyw apêl gan sefydliad yn ystod y flwyddyn.

| Rhif cyfeirnod | Crynodeb | Dyfarniad y Tribiwnlys |
|---|---|---|
| **TyG/24/01** | Cais gan yr apelydd yn gofyn am adolygiad gan y Tribiwnlys o benderfyniad y Comisiynydd i beidio â chynnal ymchwiliad i gŵyn mewn perthynas â methiant honedig i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg. | Ni wnaeth y Tribiwnlys roi caniatâd i'r cais gael ei wneud dan adran 103 Mesur y Gymraeg. |
| **TyG/24/02** | Cais gan yr apelydd yn gofyn am adolygiad gan y Tribiwnlys o benderfyniad y Comisiynydd i beidio â chynnal ymchwiliad i gŵyn mewn perthynas â methiant honedig i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg. | Yn dilyn gwrandawiad ar 21 Mawrth 2025, penderfynodd y Tribiwnlys ar 30 Mawrth 2025 i ailystyried ei benderfyniad ac i ganiatáu i'r cais gael ei wneud o dan adran 103 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. |

## Cofrestr buddiannau

Caiff y gofrestr buddiannau ei diweddaru ddwywaith y flwyddyn. Cyhoeddir gwybodaeth am fuddiannau'r Tîm Arwain ac aelodau'r Panel Cynghori a'r Pwyllgor Archwilio a Risg ar y wefan. Ni chafwyd trafodion materol perthnasol yn ystod y flwyddyn lle roedd y Comisiynydd, y cyfarwyddwyr neu'r uwch swyddogion, yn ymwneud â sefydliadau yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol.

## Twyll

Mae gweithdrefnau a pholisïau ar waith i sicrhau nad yw'r sefydliad yn goddef twyll. Cyflwynwyd y gofrestr risg twyll i'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn ystod y flwyddyn ac ymatebodd fy nhîm a'r Pwyllgor Archwilio a Risg i holiadur Archwilio Cymru ar lefelau rheolaeth mewnol yn ymwneud â thwyll fel rhan o'r archwiliad blynyddol. Ni fu achos o dwyll yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025.

## Effeithiolrwydd trefniadau chwythu'r chwiban

Mae'n arfer da gan gyflogwyr i osod gweithdrefnau chwythu'r chwiban mewnol ac mae gennyf bolisi chwythu'r chwiban cadarn ar waith. Mae manylion cyswllt Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg a rheolwr o fewn tîm Archwilwyr Mewnol y Comisiynydd, TIAA Ltd, wedi eu cynnwys yn y polisi fel y gellir codi pryderon gyda nhw. Ni fu unrhyw ddigwyddiad yn ystod y flwyddyn o bryderon dan y polisi chwythu chwiban.

## I gloi

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n fodlon bod gweithdrefnau llywodraethiant addas a phriodol yn y sefydliad ac mae barn yr archwilwyr a'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cefnogi hynny. Rwy'n hyderus bod y datganiad hwn yn rhoi sylw i'r holl faterion perthnasol a wnaeth godi yn ystod y flwyddyn.

**Efa Gruffudd Jones**
Swyddog Cyfrifyddu

# Adroddiad Cydraddoldeb

## Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28

**2024-25 oedd blwyddyn gyntaf weithredol Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28. Fel rhan o'r cynllun hwnnw, mae Cynllun Gweithredu penodol sy'n amlinellu'r gweithgareddau sydd i'w cyflawni dros gyfnod y Cynllun. Darperir crynodeb isod o'r cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn yn erbyn y pedair amcan o fewn y cynllun.**

### Amcan 1: Y Gweithlu

**Nod hirdymor: Mae gennym weithlu dwyieithog sy'n gynrychioladol o gymdeithas ac rydym yn gweithio i atal bylchau cyflog o bob math.**

Ar 31 Mawrth 2025, roeddem yn cyflogi 37.6 o bobl (cyfwerth â llawn amser). Rydym yn gyson yn casglu a chynnal data cydraddoldeb am ein holl swyddogion yn seiliedig ar y 9 nodwedd warchodedig. Nid yw'n orfodol i swyddogion ei gwblhau, felly mae angen ystyried hynny wrth ddadansoddi data. Fodd bynnag, ar y cyfan mae staff yn barod i rannu'r wybodaeth hon a byddwn yn parhau i'w hannog i'w lenwi.

Mae dehongli data amrywiaeth yn ystyrlon yn anodd mewn sefydliad bach, lle gall nifer isel o unigolion newid canrannau ar draws y sefydliad yn sylweddol. Mae hefyd yn golygu na allwn gyhoeddi'r rhan fwyaf o'n data amrywiaeth sy'n ymwneud â'r 9 nodwedd warchodedig. Er hynny, caiff y data hwn ei fonitro'n fewnol gan ein tîm Adnoddau Dynol ac fe'i hadolygir yn rheolaidd. Hyd yn hyn ni fu unrhyw fater sy'n peri pryder; ond byddwn yn darparu gwybodaeth pan fydd modd gwneud hynny.

Rydym yn parhau i ofyn i ymgeiswyr swyddi gwblhau holiadur cydraddoldeb fel rhan o'r broses recriwtio, ac, wrth wneud, rydym yn casglu data ar 7 o'r 9 nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r data eleni yn dangos bod ystod ehangach o bobl wedi ymgeisio am swyddi o'i gymharu â lefelau amrywiaeth y gweithlu sefydlog. Yn benodol, rydym wedi denu canran uwch o fenywod. Er mwyn annog gwell cynhwysiant a dealltwriaeth ymysg staff, bu rhai aelodau staff ar gyrsiau yn ymwneud ag iechyd meddwl, ymwybyddiaeth straen a chynlluniau gweithredu lles a chefnogi niwroamrywiaeth yn y gweithle.

Er mwyn hwyluso'r broses recriwtio ac annog ymgeiswyr i lenwi'r ffurflen monitro cydraddoldeb, fe wnaethom ni uno'r ddwy ffurflen. O ganlyniad i'r newid yma derbyniwyd mwy o ddata monitro a chydraddoldeb.

Rydym wedi ymrwymo i gynnig gofod diogel ar gyfer cyfweliadau. Gall hyn gynnwys (ond ddim yn gyfyngedig) gwahoddiad i ddefnyddio gofod o fewn ein swyddfeydd.

Mae'r broses o benodi staff a gosod eu cyflogau yn dilyn trefn gyson a theg nad yw'n ffafrio'r naill ryw dros y llall. Fodd bynnag, oherwydd maint y sefydliad gall newidiadau bychain i'r strwythur gael effaith sylweddol ar yr ystadegau.

Nid yw'n ofynnol i ni gyhoeddi ein bwlch cyflog ar sail rhywedd oherwydd ein bod yn gyflogwr bach, ond rydym yn ei gyfrifo ac yn dewis ei gyhoeddi'n flynyddol yn yr adroddiad blynyddol (tudalen 94). Ar 1 Ebrill 2024 roedd y bwlch o blaid merched ond oherwydd newidiadau staffio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r bwlch wedi newid i fod o blaid dynion o fewn y gweithlu ar 31 Mawrth 2025.

Mae'r bwlch cyflog yn destun monitro cyson ac rydym yn parhau i gadw golwg ar y mathau o gytundebau, a phatrymau gweithio'r gweithlu er mwyn deall a delio â rhwystrau posibl all godi.

Rydym wedi cofrestru fel cyflogwr 'Lefel 1: Ymroddedig i Hyderus o ran Anabledd' ac rydym wedi ymrwymo i:

- sicrhau bod ein proses recriwtio yn gynhwysol a hygyrch
- hysbysebu a hyrwyddo swyddi gwag er mwyn cyrraedd pobl anabl
- gynnig cyfweliad i bobl anabl (Cynllun Cyfweliad Gwarantedig)
- rhagweld a darparu addasiadau rhesymol yn ôl y gofyn
- cefnogi unrhyw aelodau staff presennol.

## Amcan 2: Y Gymuned

**Nod hirdymor: Rydym yn ymgysylltu â phob rhan o gymdeithas ac yn cymryd camau rhagweithiol i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith.**

Mae'n bwysig ein bod yn codi ymwybyddiaeth o waith y Comisiynydd ymysg ein holl randdeiliaid gan gymryd cyfleon o hyd i estyn allan, ac i sicrhau ein bod yn hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Er mwyn cyflawni hyn mae'r Comisiynydd yn teithio i rannau gwahanol o Gymru yn gyson gan gyfarfod ag ystod eang o bobl o gefndiroedd gwahanol – o blant mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, i grwpiau ieuenctid, i weithwyr mewn elusennau, mudiadau gwahanol, ac yn y sector gyhoeddus.

Yn ystod y cyfnod adrodd bu'r Comisiynydd yn ymweld ag ysgolion yn Llanrwst a Llanelli, Ysgol Fitzalan yng Nghaerdydd, Coleg Sir Gâr, grŵp ieuenctid yn Grangetown, Ysbyty Glan Clwyd, elusen pobl ifanc GISDA, i enwi ond rhai, heb anghofio'r cyfleon i drafod ac ymweld â stondinau yn y Sioe Amaethyddol yn Llanelwedd, Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Meifod, a'r Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd. Yn ystod yr ymweliadau mae cael trafod wyneb yn wyneb, rhannu fideos, rhoi cyflwyniadau a chael clywed am brofiadau eraill yn ymwneud â'r Gymraeg yn hynod bwysig, ac yn llywio'n gwaith o ddydd i ddydd.

Yn ogystal ag ymweliadau wyneb yn wyneb, mae manteisio ar ddulliau eraill o gyfathrebu yn hynod bwysig hefyd er mwyn sicrhau bod ein gwaith mor hygyrch ag sy'n bosib. Rydym yn defnyddio podlediadau, blogiau ar y wefan, dylanwadwyr, negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol, cyflwyniadau, pecynnau gwybodaeth, ac ymgyrchoedd er mwyn cyrraedd cynulleidfaoedd ar draws Cymru a thu hwnt. Mae fideos, sydd ag is-deitlau mewn 5 o'r ieithoedd mwyaf yng Nghymru, wedi eu creu a'u rhannu mewn digwyddiadau cenedlaethol ac ar gyfryngau cymdeithasol. Mae'r ieithoedd hyn yn cynnwys Arabeg a BSL. Bu cyfnod o ymgysylltu am ein gweledigaeth a'n hamcanion strategol drwy ein Cynllun Strategol newydd ar gyfer 2025-2030. Rhannwyd y Cynllun ar ein gwefan am gyfnod o 8 wythnos. Rhoddwyd cyfle i randdeiliaid ymateb mewn e-bost, drwy ffurflen ar y wefan, ac mewn cyfarfodydd wyneb i wyneb. Rhannwyd negeseuon yn ystod y cyfnod ymgysylltu ar gyfryngau cymdeithasol ac ar ein gwefan. Yn deillio o'r Cynllun Cydraddoldeb daeth cyfleon i gydweithio ac i greu partneriaethau gyda grwpiau sy'n cynrychioli amrywiaeth o fewn ein cymunedau. Sicrhawyd bod y grwpiau hyn yn ymwybodol o'r ymgysylltu a rhannwyd gwybodaeth yn ein Cylchlythyr chwarterol.

Cynhaliwyd cyfnod o ymgysylltu ar newidiadau arfaethedig i'n Polisi Gorfodi – dogfen statudol sy'n rhoi cyngor a gwybodaeth ar sut y byddwn yn sicrhau bod sefydliadau yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Mae'r polisi hefyd yn egluro sut y byddwn yn delio â diffyg cydymffurfiaeth a pha gamau y byddwn yn eu cymryd mewn gwahanol amgylchiadau.

Er mwyn hyrwyddo cyfranogiad eang yn yr ymarferiad ymgysylltu – gan dargedu sefydliadau cyhoeddus, rhanddeiliaid allweddol sydd â rôl o hyrwyddo'r Gymraeg, a'r cyhoedd yng Nghymru – cyhoeddwyd gwybodaeth berthnasol ar ein gwefan, lle roedd ffurflen ar-lein ar gael ar gyfer cyflwyno sylwadau. Tynnwyd sylw'n benodol at y cyfle i ymateb drwy'r wefan, ac anfonwyd e-bost gan y Comisiynydd at randdeiliaid penodol megis sefydliadau sy'n ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg, cymdeithasau tai, a mudiadau perthnasol. Rhannwyd gwybodaeth bellach drwy gylchlythyr rhanddeiliaid, a hyrwyddwyd hwn drwy Facebook, gan gyrraedd dros 2,700 o ddilynwyr a 756 o danysgrifwyr. Yn ogystal, postiwyd dolenni ar X a LinkedIn – ynghyd â negeseuon atgoffa tuag at ddiwedd y cyfnod ymgysylltu – i annog cyfranogiad gan y cyhoedd yn ogystal â rhanddeiliaid sefydliadol.

Derbyniwyd ymatebion cynhwysfawr a thrylwyr gan amrywiaeth o randdeiliaid yn ystod y cyfnod o 8 wythnos o ymgysylltu. Mae'r sylwadau hyn yn cael eu hystyried yn fanwl wrth lunio'r fersiwn derfynol o'r polisi gorfodi diwygiedig, cyn ei gyflwyno i Weinidogion Cymru ar gyfer cymeradwyaeth.

Ffordd bwysig o sicrhau bod ein negeseuon yn cyrraedd ystod eang o gynulleidfaoedd yw ein hymgyrchoedd cenedlaethol. Yn ystod mis Mai 2024 cynhaliwyd wythnos ymgyrch y Cynnig Cymraeg lle cawsom gyfle i roi ffocws arbennig ar y Cynnig Cymraeg a'i bwysigrwydd yn hybu'r Gymraeg yn y sector preifat a'r trydydd sector. Trefnwyd blog dyddiol ar Golwg 360 er mwyn rhoi sylw i amryw o fudiadau sydd wedi derbyn y Cynnig Cymraeg gan gysylltu gyda phapurau lleol a phapurau bro yn yr ardaloedd hynny. Drwy gydweithio gyda Nation Cymru cyhoeddwyd darn barn arbennig gan y Comisiynydd yn nodi pwysigrwydd y Cynnig Cymraeg i'r weledigaeth ehangach o gynyddu defnydd o'r iaith, a chafwyd sylw yn y wasg a'r cyfryngau.

I gyd-fynd â'r gweithgareddau rhyddhawyd podlediad dwyieithog arbennig gyda phennaeth y tîm Hybu yn sgwrsio gyda Hanna Hopwood. Wrth rannu gwaith busnesau ac elusennau rydym yn sicrhau bod grwpiau amrywiol ar hyd ac ar led Cymru yn cael cyfle i gyfrannu ac i ddysgu am ein gwaith, ac i glywed am fanteision y Gymraeg yn y sectorau hyn.

Mae ymgyrch Defnyddia dy Gymraeg yn ymgyrch flynyddol er mwyn annog sefydliadau i hyrwyddo eu gwasanaethau Cymraeg yn eang, ac i ddenu siaradwyr Cymraeg o bob man i ddefnyddio'r Gymraeg sydd gyda nhw yn hyderus. Bu'r band Eden yn llysgenhadon ar gyfer yr ymgyrch ac fe grëwyd ffilmiau gyda nhw mewn ysgol yn sir Gaerfyrddin yn ogystal â recordio podlediad. Gan fod ffocws yr ymgyrch ar iechyd a gofal crëwyd ffilmiau hefyd o gartref gofal yng Nghonwy ac elusen ieuenctid a digartrefedd yng Ngwynedd. Cafwyd sylw da i'r ymgyrch yn genedlaethol ac yn rhanbarthol, ar radio, ar deledu ac yn y wasg brint.

Yn ystod y flwyddyn hefyd rhannwyd negeseuon ar y cyd gyda'r DWP er mwyn annog defnyddwyr i roi gwybod i ni am eu profiadau o gael gwasanaethau fel budd-daliadau yn y Gymraeg.

## Amcan 3: Ffordd o weithio

**Nod hirdymor: Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn rhan annatod o'n ffordd ni o weithio.**

Un o'r camau cyntaf a gymerwyd yn 2024-25 oedd sefydlu grŵp llywio mewnol i arwain ar weithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac i roi'r rhaglen waith yn ei lle. Mae'r grŵp yn cwrdd yn chwarterol ac yn cael ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Llywodraethiant a Gwasanaethau Corfforaethol ac mae cynrychiolwyr o wahanol dimoedd ar draws y sefydliad yn aelodau.

Cafodd y templed ar gyfer cynnal asesiadau effaith ar gydraddoldeb ei adolygu a'i symleiddio er mwyn ceisio ei gwneud yn haws ei wreiddio i'r ffordd rydym yn gweithio a'n helpu i sicrhau ein bod yn:

- deall effeithiau posibl unrhyw benderfyniad polisi drwy asesu'r effeithiau ar wahanol grwpiau yn fewnol ac yn allanol;
- nodi unrhyw effeithiau andwyol a chamau gweithredu er mwyn eu dileu neu eu lliniaru;
- gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth gyda rhesymeg clir.

Mae pwyslais penodol bellach o fewn y templed hefyd ar ystyried unrhyw effeithiau economaidd gymdeithasol ac yn cymryd camau i liniaru unrhyw effeithiau sy'n cael eu hadnabod. Darparwyd hyfforddiant i swyddogion sy'n ymhél â'r broses ar y templed newydd.

Mae gofynion cydraddoldeb hefyd yn parhau i fod yn rhan ganolog o'n proses gaffael a chomisiynu. Fel sefydliad, rydym yn defnyddio'r egwyddorion a osodir gan Lywodraeth Cymru a'r Gwasanaeth Sifil wrth ystyried ein proses gaffael, gan sicrhau bod egwyddorion cydraddoldeb yn greiddiol i'r modd y pwrcesir gwasanaethau gan y Comisiynydd.

Mae gennym ddogfen fewnol ar gyfer asesu perfformiad contract, sydd eisoes wedi ei addasu er mwyn sicrhau bod y rheolwr contractau yn asesu gofynion cydraddoldeb lle bo hynny'n berthnasol. Roedd hynny yn elfen allweddol o'r broses gaffael eleni ar gyfer pob gwasanaeth a gomisiynwyd.

Daeth gofynion deddfwriaeth gaffael newydd i rym ar 24 Chwefror 2025. Yn ystod y flwyddyn mae swyddogion y sefydliad wedi mynychu nifer o seminarau a gweithdai ynghyd â chwblhau hyfforddiant gan gyrff Llywodraeth ar anghenion y ddeddfwriaeth newydd. Cafodd rhwydwaith gaffael newydd ei sefydlu yn ystod y flwyddyn er mwyn hwyluso cydweithio rhwng cyrff sydd wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru. Bydd y rhwydwaith yma yn parhau i gydweithio i rannu arferion effeithiol a defnyddiol gyda'n gilydd. Byddwn yn sicrhau bod cysondeb yn y modd rydym yn hyrwyddo ein gwaith ar gydraddoldeb, ac yn manteisio ar gyfleoedd i gydweithio ar bwrcasu a chomisiynu gwaith ar y cyd lle mae hyn yn ateb ein gofynion statudol a gweithredol.

## Amcan 4: Anghenion unigol

**Nod hirdymor: Mae ein holl weithgareddau yn hygyrch ac ar gael i bawb.**

Mae gwaith yn digwydd ar wefan Comisiynydd y Gymraeg sy'n sicrhau bod awdit cyson i sicrhau hygyrchedd. Mae hyn yn cynnwys cydweithio â chwmni datblygu gwefannau sy'n arbenigo mewn materion yn ymwneud â hygyrchedd. Rydym hefyd yn sicrhau bod ein swyddogion yn datblygu gwybodaeth, ymwybyddiaeth ac arbenigedd eu hunain am sut i barhau i ddatblygu cynnwys ar y wefan sydd ar gael i bawb. Mae adroddiadau manwl yn cael eu creu yn flynyddol er mwyn adnabod anghenion unigol sy'n codi ar y wefan ynglŷn ag hygyrchedd ac yn mynd i'r afael â materion amrywiol. Yn ddiweddar rydym wedi bod yn trafod ein gwaith gyda'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol, wedi trafod taith defnyddwyr drwy'r wefan, ac wedi addasu'r strwythur er mwyn dod o hyd i gynnwys a thudalennau penodol yn haws. Rydym yn dilyn canllawiau sy'n sicrhau iaith glir a chryno bob amser.

Mae sicrhau platfformau amrywiol i rannu ein gwaith yn bwysig er mwyn cyrraedd amrywiaeth o gynulleidfaoedd. Mae strategaeth gyfathrebu a chynlluniau cyfathrebu ar gyfer prosiectau unigol yn ein galluogi i dargedu cynulleidfaoedd yn y ffyrdd mwyaf effeithiol gan werthuso ac addasu'r dulliau hynny pan fod angen. Un ffordd effeithiol o rannu ein gwaith yw'r Cylchlythyr allanol sy'n crynhoi ein gwaith ac yn ei rannu ymysg ein holl gysylltiadau. Mae cysylltu yn rhagweithiol â'r wasg yn lleol a chenedlaethol hefyd yn digwydd yn gyson. Mae datganiadau i'r wasg, blogiau, podlediadau, fideos byr, cyflwyniadau, erthyglau hirach, digwyddiadau, ac ymweliadau i gyd yn ffyrdd yr ydym yn sicrhau bod ein gweithgareddau yn hygyrch ac ar gael i bawb. Pan fo hynny'n addas rydym yn cysylltu gyda'r papurau bro am gynlluniau sy'n lleol ac o ddiddordeb penodol iddyn nhw e.e os oes busnes neu elusen leol wedi derbyn y Cynnig Cymraeg, neu os oes sefydliad neu ysgol wedi cymryd rhan yn ymgyrch Defnyddia dy Gymraeg, neu os yw'r Comisiynydd yn mynd ar ymweliad â'r ardal honno. Mae sicrhau ffotograffiaeth safonol a chydweithio mewn partneriaeth ar gyfryngau cymdeithasol hefyd yn sicrhau bod ein cynulleidfaoedd yn tyfu, a'r cynnwys ar gael i fwy o bobl.

Mae derbyn hyfforddiant ar greu dogfennau hygyrch wedi ein galluogi i sicrhau bod mwy o bobl yn eu darllen ac yn medru cael gafael arnynt. Rydym hefyd wedi addasu dogfennau penodol ar y wefan i fod yn ddogfennau 'hawdd eu darllen' sydd yn ffordd syml ac uniongyrchol o rannu gwybodaeth ag eraill.

Rydym wedi parhau i gasglu gwybodaeth gan achwynwyr am ddata amrywiaeth er mwyn dod i wybod am unrhyw rwystrau sy'n bodoli i dderbyn gwasanaethau'r Comisiynydd a gallu ymateb i hynny. Nid yw'n bosib cyhoeddi'r data gan fod yr ymatebion yn isel ond nid oes unrhyw bryderon wedi eu nodi yn ystod y flwyddyn.

Rydym yn ymateb i unrhyw geisiadau unigol sy'n codi mewn perthynas â phob agwedd o'n gwaith ac yn gweithredu yn rhagweithiol mewn ymateb i ganlyniadau asesiadau effaith cydraddoldeb.

# Adroddiad Amgylcheddol

**Eleni oedd blwyddyn gyntaf weithredol y Polisi Cynaliadwyedd a gafodd ei adolygu ar ddiwedd 2024-25.**

Fel rhan o'r polisi, mae Cynllun Gweithredu sy'n manylu ar y camau gweithredu angenrheidiol y byddwn yn eu cymryd fel sefydliad dros y cyfnod 2024-27. Un o'r camau cyntaf a gymerwyd oedd sefydlu grŵp mewnol newydd i lywio'r gwaith ac i gytuno ar gyfrifoldebau a thasgau penodol yn gysylltiedig â'r Cynllun Gweithredu. Mae'r grŵp yn cwrdd yn chwarterol dan arweiniad y Cyfarwyddwr Llywodraethiant a Gwasanaethau Corfforaethol ac mae cynrychiolaeth ar draws y sefydliad yn bresennol.

Mae'r camau penodol a gymerwyd yn ystod 2024-25 yn cynnwys:

- Cyflwyno eitem yn ymwneud â mater amgylcheddol yn y cylchlythyr mewnol i staff yn chwarterol. Cafwyd eitemau diddorol ar amrywiol bynciau yn cynnwys annog staff i gymryd rhan yn nigwyddiad Diwrnod Glanhau'r Byd a mynd i'r afael â rhai mythau sy'n bodoli am newid hinsawdd.
- Ymchwilio i'r cynllun ceir gwyrdd a thalu am docyn trên blynyddol.
- Cyflwyno opsiwn gwyrdd wrth archebu ceir llog.
- Aelodau'r grŵp yn mynychu cwrs llythrennedd carbon.
- Darparu hyfforddiant ar newid hinsawdd i bawb yn y sefydliad.

Ar ben y camau penodol hyn, mae nifer o'r arferion a adroddwyd arnynt yn flaenorol hefyd wedi parhau yn y sefydliad yn cynnwys:

## Trefniant gweithio hybrid / gweithwyr cartref

Roeddem eisoes wedi lleihau nifer y swyddfeydd yn ystod 2023-24 gyda nifer o staff yn newid eu statws i fod yn 'weithwyr cartref'. Yn ystod y flwyddyn, cyflwynwyd y cysyniad o 'ddiwrnod angori' er mwyn annog staff sy'n parhau i fod o fewn pellter rhesymol i swyddfa i weithio yn y swyddfa ar yr un diwrnod er mwyn ceisio gwneud y defnydd gorau o'r cyfleusterau sydd gennym a gwrthbwyso hynny â lles staff. Mae gan staff dal ddewis o ran eu hamgylchedd gwaith am weddill yr amser sy'n golygu bod lefel y cymudo i'r swyddfa, a'r ôl troed carbon o ganlyniad, yn parhau yn gyson â'r blynyddoedd diwethaf.

## Cynnal cyfarfodydd rhithiol lle'n bosib

Mae swyddogion yn parhau i ddewis cyfarfod yn rhithiol yn gyntaf pan fo hynny yn bosib er mwyn cyfyngu ar nifer y teithiau busnes sydd eu hangen, sydd eto yn golygu bod ôl troed carbon wedi parhau'n weddol gyson yn y cyswllt hwn.

## Gweithio mewn ffordd di-bapur

Anogir staff i beidio ag argraffu oni bai bod gwir angen ac mae argraffwyr newydd wedi eu gosod yn cynnig yr opsiwn mwyaf effeithlon.

## Ailgylchu yn y gweithle

Roedd trefniadau eisoes wedi eu rhoi ar waith er mwyn ymateb i'r gofynion ailgylchu newydd yn y gweithle a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2024 yn cynnwys gosod biniau pwrpasol ar wahân ar gyfer ailgylchu gwastraff o bob math, a gosod arwyddion newydd i godi ymwybyddiaeth am y gofynion ac i annog lleihau gwastraff.

# Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth

## Cytundebau gwasanaeth

Mae Deddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethiant 2010 yn gofyn bod penodiadau cyhoeddus yn cael eu gwneud ar sail teilyngdod a chystadleuaeth deg ac agored. Mae'r egwyddorion recriwtio a gyhoeddwyd gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn pennu'r amgylchiadau pan ellir gwneud penodiadau fel arall.

Oni nodir yn wahanol isod, mae gan y swyddogion yn yr adroddiad hwn benodiadau sy'n ben agored. Byddai ymadawiadau cynnar, ac eithrio am gamymddwyn, yn arwain at yr unigolyn yn derbyn iawndal fel a nodir yng nghynllun digolledu'r Gwasanaeth Sifil.

## Polisi taliadau cydnabyddiaeth

Mae swyddogion Comisiynydd y Gymraeg yn parhau ar amodau a thelerau sy'n gyson â rhai Llywodraeth Cymru. Mae gan y Comisiynydd bolisi i gydnabod staff sy'n ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol tu hwnt i'w rôl arferol ar sail dros dro. Mae'r polisi hwn yn glynu'n agos at drefniant tebyg a weithredir gan Lywodraeth Cymru.

Mae cynllun datblygu perfformiad yn weithredol ar gyfer ei holl swyddogion. Ni chyplysir taliadau cydnabyddiaeth â pherfformiad ar gyfer swyddogion sydd yn bodloni'r gofynion sylfaenol ar gyfer y swydd, er gellir hepgor y cynnydd yn rhychwant y tâl pan nad yw'r gofynion perfformiad sylfaenol wedi eu bodloni.

Ar y cyfan, cyflogir swyddogion (gan gynnwys uwch swyddogion) i swyddi parhaol. Mae cyfnodau rhybudd yn amrywio o bedair wythnos i dri mis, gan ddibynnu ar lefel a hyd gwasanaeth.

Telir aelodau'r Panel Cynghori, a benodwyd gan Weinidogion Cymru, yn unol â chyfraddau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Telir aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Risg, a benodwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg, ar raddfeydd tebyg i aelodau'r Panel Cynghori.

## Taliadau cydnabyddiaeth (*)

(*) Mae'r adran hon yn amodol ar archwiliad

Rhestrir yn yr adrannau sy'n dilyn daliadau cydnabyddiaeth a diddordebau pensiwn y Comisiynydd a'r cyfarwyddwyr sydd ag awdurdod neu sy'n gyfrifol am arwain a rheoli prif weithgareddau'r Comisiynydd:

| | Cyflog £000 | | [1]Buddion Pensiwn (i'r £1,000 agosaf) | | Cyfanswm £000 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2024-25** | **2023-24** | **2024-25** | **2023-24** | **2024-25** | **2023-24** |
| Efa Gruffudd Jones | 95-100 | 95-100 | 37,000 | 37,000 | 130-135 | 130-135 |
| Osian Llywelyn[2] | 80-85 | 25-30 | 32,000 | 12,000 | 110-115 | 40-45 |
| Gwenith Price[3] | - | 40-45 | - | (13,000) | - | 30-35 |
| Lowri Williams[4] | 35-40 | 55-60 | 39,000 | 42,000 | 70-75 | 95-100 |
| Siân Elen McRobie[5] | 65-70 | 30-35 | 26,000 | 12,000 | 90-95 | 40-45 |

[1]Caiff gwerth y buddion pensiwn ei gyfrifo fel a ganlyn: (cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn* x20) + (cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad*) - (cyfraniadau a wneir gan aelod) *ac eithrio cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiad o ganlyniad i drosglwyddo hawliau pensiwn.

Caiff gwerth buddion pensiwn ei gyfrifo gan MyCSP, sefydliad sydd yn gyfrifol am weinyddu Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar ran y Gwasanaeth Sifil. Nid oes gan Gomisiynydd y Gymraeg unrhyw ddylanwad dros y cyfrifo na'r symiau a adroddir. Nid yw hwn yn swm y mae'r sefydliad wedi ei dalu i swyddog yn ystod y flwyddyn; mae'n gyfrifiad sy'n defnyddio gwybodaeth o'r tabl buddion pensiwn. Gall nifer o ffactorau ddylanwadu ar y ffigurau hyn e.e. newidiadau mewn cyflog swyddog, p'un a ydyw'n dewis gwneud cyfraniadau ychwanegol i'r cynllun pensiwn o'i gyflog yn ogystal â ffactorau prisio eraill sy'n effeithio ar y cynllun pensiwn yn ei gyfanrwydd.

[2]Penodwyd yn gyfarwyddwr ar 30/10/2023. Derbyniodd y cyfarwyddwr lwfans o 10% o'r cyflog am ddirprwyo i Gomisiynydd y Gymraeg yn ystod y flwyddyn; a lwfans cyfrifoldeb o 5% o'r cyflog ar gyfer y cyfnod hyd 28/02/2025. Roedd y cyflog blynyddol cywerth â llawn amser yn 2023-24 rhwng £70,000 a £75,000.

[3]Wedi ymddeol fel cyfarwyddwr ar 27/10/2023. Roedd y cyflog blynyddol cywerth â llawn amser yn 2023-24 rhwng £75,000 a £80,000.

[4]Ar gyfnod absenoldeb mamolaeth rhwng 11/03/2024 a 03/03/2025. Roedd y cyflog blynyddol cywerth â llawn amser yn 2024-25 rhwng £60,000 a £65,000.

[5]Penodwyd yn gyfarwyddwr ar 01/10/2023. Roedd y cyflog blynyddol cywerth â llawn amser yn 2023-24 rhwng £60,000 a £65,000.

## Cyflog

Mae 'cyflog' yn cynnwys cyflog gros, goramser a lwfans cyfrifoldeb pan fo'n briodol. Mae'r adroddiad hwn wedi ei seilio ar daliadau cronedig gan Gomisiynydd y Gymraeg a gofnodwyd yn y cyfrifon hyn.

Caiff Comisiynydd y Gymraeg ei benodi gan Brif Weinidog Cymru yn unol ag Atodlen 1 Paragraffau 3(1) a 6(1) Mesur y Gymraeg. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn aelod o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PGPGS). Wrth bennu unrhyw gynnydd blynyddol yn nhâl y Comisiynydd, bydd Prif Weinidog Cymru yn ystyried argymhellion y Corff Adolygu Cyflogau uwch-swyddogion (SSRB), corff sy'n cynghori Prif Weinidog y Deyrnas Unedig a'r gweinyddiaethau datganoledig ar lefelau tâl y sector cyhoeddus.

## Tâl yn seiliedig ar berfformiad

Ni wnaed taliadau yn seiliedig ar berfformiad na thaliadau bonws yn ystod 2024-25 i uwch swyddogion (2023-24: £0).

## Buddion mewn da

Mae gwerth ariannol buddion mewn da yn cwmpasu unrhyw fuddion a ddarperir gan y cyflogwr ac a ystyrir gan Gyllid a Thollau EF yn daliad trethadwy. Ni wnaed buddion mewn da yn ystod 2024-25 i uwch swyddogion (2023-24: £0).

## Tâl cydnabyddiaeth: amrediad a chanolrif

Gofynnir i gyrff sy'n adrodd, ddatgelu amrediad tâl swyddogion a'r berthynas rhwng tâl y swyddog uchaf ei dâl yn eu sefydliad a thâl gweithlu'r sefydliad.

| | Newid % | **31 Mawrth 2025** | 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|---|
| Band cyflog (£000) y swyddog uchaf ei dâl[1] | 0.0 | **95-100** | 95-100 |
| Rhychwant tâl uchaf (ac eithrio'r swyddog uchaf ei dâl) | | **77,495** | 77,159 |
| Rhychwant tâl isaf | | **33,748** | 32,141 |
| Tâl cymedrig[2] | | **47,426** | 44,269 |
| Tâl cymedrig (ac eithrio'r swyddog uchaf ei dâl)[2] | 7.2 | **46,175** | 43,090 |
| Pwynt tâl 25ain canraddol | | **43,758** | 38,420 |
| Pwynt tâl 50ain canraddol | | **43,758** | 41,675 |
| Pwynt tâl 75ain canraddol | | **50,682** | 45,843 |
| Cymhareb pwynt tâl 25ain canraddol â'r swyddog uchaf ei dâl[3] | | **2.23** | 2.54 |
| Cymhareb pwynt tâl 50ain canraddol â'r swyddog uchaf ei dâl[3] | | **2.23** | 2.34 |
| Cymhareb pwynt tâl 75ain canraddol â'r swyddog uchaf ei dâl[3] | | **1.92** | 2.13 |

Cyfrifir cyfanswm canol rifol y gydnabyddiaeth drwy ddefnyddio tâl cywerth â llawn amser (cyflog gros) yr holl swyddogion, heb gynnwys y Comisiynydd, a hynny ar y dyddiad adrodd.

Gweler y dudalen nesaf am sylwadau ar y troednodiadau.

[1]Nid oes newid wedi bod i fand cyflog y swyddog uchaf ei dâl, sef y Comisiynydd.

[2]Mae'r cynnydd o 7.2% yn y tâl cymedrig oherwydd cynnydd i'r cyfraddau cyflog yn dilyn y setliad tâl, a staff yn symud i rychwant uwch yn y band cyflog.

[3]Bu lleihad i'r gymhareb ar gyfer pwyntiau tâl 25ain, 50ain, a 75ain canolraddol oherwydd cynnydd i'r cyfraddau cyflog yn dilyn y setliad tâl, a staff yn symud i rychwant uwch yn y band cyflog, pan nad oedd newid i gyflog y swyddog uchaf ei dâl.

## Trefniadau oddi ar y gyflogres

Ni wnaethpwyd unrhyw daliadau i unigolion dan drefniadau oddi ar y gyflogres yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2025 (2023-24: £0).

## Ymgynghorwyr

Gwnaethpwyd taliadau o £54,000 i ymgynghorwyr yn ystod y flwyddyn (2023-24: £83,900). Noder y prif elfennau gwariant fel a ganlyn:

- £9,100 Arolwg omnibws siaradwyr Cymraeg
- £26,500 Gwaith dadansoddi Cyfrifiad 2021
- £1,800 Ymgynghori ar faterion polisi adnoddau dynol
- £13,300 Cymorth gyda achrediadau sicrwydd seibr ddiogelwch
- £3,300 Awdit o hygyrchedd y wefan a chamau cywiro

## Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

| Enw | Cyfanswm y pensiwn cronedig a chyfandaliad perthnasol ar oedran ymddeol ar 31/03/25 | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad perthnasol ar oedran ymddeol | Gwerth trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod 31/03/25 | Gwerth trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod 31/03/24 | Cynnydd gwirioneddol yng ngwerth trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Efa Gruffudd Jones | 5-10 | 0.0-2.5 | 76 | 40 | 25 |
| Osian Llywelyn | 10-15 | 0.0-2.5 | 166 | 134 | 16 |
| Lowri Williams | 20-25 | 0.0-2.5 | 416 | 367 | 32 |
| Siân Elen McRobie | 10-15 | 0.0-2.5 | 138 | 113 | 11 |

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Cyn 1 Ebrill 2015, yr unig gynllun oedd Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS), sydd wedi'i rannu i adrannau gwahanol - mae **classic**, **premium**, a **classic plus** yn darparu buddion ar sail cyflog terfynol, tra bod **nuvos** yn darparu buddion ar sail cyflog cyfartalog gyrfa gyfan. O 1 Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil - Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac eraill neu **alpha**, sy'n darparu buddion ar sail cyfartaledd gyrfa gyfan. Ymunodd yr holl weision sifil a oedd newydd eu penodi, a'r mwyafrif o'r rhai a oedd eisoes mewn gwasanaeth, â'r cynllun newydd hwn.

Mae cynlluniau'r PCSPS ac **alpha** yn gynlluniau statudol heb eu hariannu. Mae cyflogeion a chyflogwyr yn gwneud cyfraniadau (mae cyfraniadau'r cyflogeion yn amrywio rhwng 4.6% ac 8.05%, yn dibynnu ar eu cyflog). Diwellir balans cost buddion a delir gan arian a bleidleisir arno gan Senedd y DU bob blwyddyn. Cynyddir pensiynau sy'n daladwy yn unol â'r ddeddfwriaeth cynyddu pensiynau. Yn lle'r trefniadau buddion diffiniedig, gall cyflogeion ddewis pensiwn cyfraniadau diffiniedig a chyfraniad cyflogwr, sef y cyfrif pensiwn **partnership**.

Yn **alpha**, mae pensiwn yn cronni ar gyfradd o 2.32% o enillion pensiynadwy bob blwyddyn, a chaiff y cyfanswm a gronnir ei addasu'n flynyddol yn unol â chyfradd a bennir gan Drysorlys EF. Gall aelodau ddewis ildio (cyfnewid) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a osodir gan Ddeddf Cyllid 2004. Cafodd buddion PCSPS bob aelod a newidiodd i **alpha** o'r PCSPS eu 'bancio', a'r rhai â buddion cynharach yn un o adrannau cyflog terfynol y PCSPS yn derbyn y buddion hynny yn seiliedig ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael **alpha**.

Y pensiynau cronedig a ddangosir yn yr adroddiad hwn yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w dderbyn pan fydd yn cyrraedd oed pensiwn arferol, neu'n syth ar ôl peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os ydynt eisoes wedi cyrraedd oed pensiwn arferol neu hŷn. Yr oedran pensiwn arferol yw 60 ar gyfer aelodau **classic**, **premium**, a **classic plus**; 65 ar gyfer aelodau **nuvos**; a'r uchaf o 65 neu oed pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer aelodau **alpha**. Mae'r ffigurau pensiwn yn yr adroddiad hwn yn dangos y pensiwn a adeiladwyd yn PCSPS neu **alpha** fel y bo'n briodol. Pan fo gan aelod fuddiannau yn PCSPS ac **alpha**, mae'r ffigurau'n dangos gwerth cyfunol y buddion yn y ddau gynllun, ond yn nodi y gall rhannau cyfansoddol y pensiwn hwnnw fod yn daladwy o oedrannau gwahanol.

Pan gyflwynodd Llywodraeth y DU gynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus newydd yn 2015, roedd trefniadau trosiannol a oedd yn trin aelodau presennol y cynllun yn wahanol ar sail eu hoed. Parhaodd aelodau hŷn y PCSPS yn y cynllun hwnnw, yn hytrach na symud i **alpha**. Yn 2018, canfu'r Llys Apêl fod y trefniadau trosiannol yng nghynlluniau pensiwn y gwasanaeth cyhoeddus yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon yn erbyn aelodau iau ("dyfarniad McCloud").

O ganlyniad, mae camau'n cael eu cymryd i unioni diwygiad 2015, gan wneud darpariaethau'r cynllun pensiwn yn deg i bob aelod. Mae dwy ran i unioni pensiynau'r gwasanaeth cyhoeddus. Arweiniodd rhan gyntaf yr unioni at gau PCSPS ar 31 Mawrth 2022, â'r holl aelodau gweithredol yn dod yn aelodau o **alpha** o 1 Ebrill 2022. Mae ail ran yr unioni yn dileu'r gwahaniaethu ar sail oedran ar gyfer y cyfnod unioni, rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022, drwy symud aelodaeth aelodau cymwys yn ystod y cyfnod hwn yn ôl i'r PCSPS ar 1 Hydref 2023.

Mae'r buddion pensiwn cronedig, y gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod a'r ffigwr cyfanswm tâl unigol a adroddir ar gyfer unrhyw unigolyn y mae unioni pensiynau'r gwasanaeth cyhoeddus yn effeithio arnynt wedi'u cyfrifo ar sail eu cynnwys yn y PCSPS am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022, yn dilyn dyfarniad McCloud. Mae unioni pensiynau'r gwasanaeth cyhoeddus yn berthnasol i unigolion a oedd yn aelodau, neu'n gymwys i fod yn aelodau, o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus ar 31 Mawrth 2012 ac a oeddynt yn aelodau o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022. Mae'r sail ar gyfer y cyfrifo yn adlewyrchu'r sefyllfa gyfreithiol bod yr aelodau yr effeithir arnynt wedi'u trosglwyddo'n ôl i'r PCSPS ar gyfer y cyfnod unioni ac y bydd hyn yn weithredol oni bai bod yr aelod yn arfer ei hawl ar ymddeoliad i benderfynu yn hytrach i dderbyn buddion a gyfrifwyd o dan delerau'r cynllun **alpha** ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022.

Mae'r cyfrif pensiwn **partnership** yn drefniant pensiwn cyfraniad diffiniedig galwedigaethol sy'n rhan o'r Legal & General Mastertrust. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 8% a 14.75% (yn dibynnu ar oed yr aelod). Nid oes yn rhaid i'r cyflogai gyfrannu ond, os byddant yn gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn cyfrannu'n gyfatebol hyd at derfyn o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% pellach o gyflog pensiynadwy er mwyn talu am sicrwydd budd risg a ddarperir yn ganolog (marw yn y swydd ac ymddeoliad ar sail salwch).

Ceir rhagor o wybodaeth am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan **www.civilservicepensionscheme.org.uk**

## Gwerthoedd trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod

Ystyr gwerth trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod (GTGAP) yw'r gwerth cyfalaf wedi ei asesu gan actwari o fuddion cynllun pensiwn sydd wedi eu cronni gan aelod ar adeg benodol mewn amser. Y buddion y rhoddir gwerth arnynt yw buddion cronedig yr aelod a phensiwn cymar amodol sy'n daladwy o'r cynllun. Mae GTGAP yn daliad a wneir gan gynllun pensiwn neu drefniant er mwyn sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun pensiwn neu drefniant arall lle bydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn y cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi eu cronni o ganlyniad i gyfanswm eu haelodaeth o'r cynllun pensiwn, ac nid yn unig eu gwasanaeth mewn swyddogaeth uwch y mae'r datgeliad yn berthnasol iddi.

Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun arall neu drefniant y mae'r aelod wedi ei drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd pensiwn arall a gronnir i'r aelod o ganlyniad i'r ffaith ei fod wedi pwrcasu budd pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Cyfrifir GTGAPau yn unol â'r Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (fel y'u diwygiwyd) 2008, ond nid ydynt yn ystyried unrhyw wir ostyngiad neu ostyngiad potensial i fudd-daliadau sy'n deillio o'r Dreth Lwfans dros Oes a allai fod yn daladwy pan gymerir budd-daliadau pensiwn.

## Cynnydd gwirioneddol mewn GTGAP

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn GTGAP sydd wedi ei ariannu gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun pensiwn neu drefniant arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer cychwyn a diwedd y cyfnod.

## Rhwymedigaethau pensiwn

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PGPGS) ac **alpha** yn gynlluniau buddiannau diffiniedig heb eu hariannu ar gyfer nifer o gyflogwyr ac o ganlyniad nid oes modd i Gomisiynydd y Gymraeg adnabod ei gyfran o'r asedau na'r rhwymedigaethau sylfaenol. Pennodd Actiwari'r cynllun werth y cynllun ar 31 Mawrth 2020. Gallwch weld y manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet (cyhoeddiad Saesneg yn unig): **Civil Superannuation Annual Report and Accounts 2023-24**

Telir i'r Tâl-feistr Cyffredinol symiau priodol i gynrychioli rhwymedigaethau cronedig Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Ceir rhagor o fanylion yn yr Adroddiad Staff ar dudalen 96 ac yn nodyn 1.9 i'r cyfrifon.

Ar gyfer 2024-25, roedd cyfraniadau'r cyflogwr o £533,000 (2023-24: £509,000) yn daladwy i gynlluniau pensiwn y gwasanaeth sifil ar raddfa gyfunol o 28.97% o gyflog pensiynadwy (2023-24: 26.6% i 30.3% o gyflog pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog). Mae Actiwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr, gan amlaf bob pedair blynedd, yn dilyn prisiant llawn o'r cynllun. Diwygiwyd y bandiau cyflog a chyfraddau'r cyfraniadau ar gyfer 2024-25 a byddant yn parhau heb eu newid hyd 2028-29. Mae cyfraddau'r cyfraniadau yn adlewyrchu buddion wrth iddynt gael eu cronni, nid pan delir y costau mewn gwirionedd, ac maent yn adlewyrchu profiad blaenorol y cynllun.

Nid oes unrhyw swyddog sy'n gyflogedig gan Comisiynydd y Gymraeg yn aelod o'r cynllun pensiwn **partnership**.

Nid oes unrhyw berson wedi ymddeol ar sail afiechyd yn ystod y flwyddyn.

# Adroddiad staff

## Demograffeg oedran/rhyw'r gweithlu

Oedran cymedrig staff Comisiynydd y Gymraeg ar 31 Mawrth 2025 oedd 43.8 mlwydd oed (31 Mawrth 2024: 42.0 mlwydd oed).

Crynhoir demograffeg rhyw y cyfarwyddwyr a'r staff ar 31 Mawrth 2025 yn y tabl isod:

| | | **31 Mawrth 2025** | | 31 Mawrth 2024 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Gwryw** | **Menyw** | Gwryw | Menyw |
| Comisiynydd a'r Cyfarwyddwyr | cywerth â llawn amser | **1.0** | **3.0** | 1.0 | 3.0 |
| | % | **25.0** | **75.0** | 25.0 | 75.0 |
| Swyddogion eraill | cywerth â llawn amser | **11.0** | **22.6** | 13.0 | 25.0 |
| | % | **32.8** | **67.2** | 34.2 | 65.8 |
| Cyfanswm | cywerth â llawn amser | **12.0** | **25.6** | 14.0 | 28.0 |
| | % | **32.0** | **68.0** | 33.4 | 66.6 |

## Bwlch tâl ar sail rhyw

Crynhoir bwlch tâl ar sail rhyw gweithlu Comisiynydd y Gymraeg ar 31 Mawrth 2025 yn y tabl isod:

| | **31 Mawrth 2025** | 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| Bwlch tâl cymedrig ar sail rhyw | **6.1%** | 2.7% |
| Canolrif y bwlch tâl ar sail rhyw | **0.0%** | 0.0% |

Y prif ffactor sy'n dylanwadu ar y newid i'r bwlch cyflog cymedrig o blaid swyddogion gwrywaidd yw newidiadau i ddemograffeg rhyw staff yn ystod y flwyddyn. Fel cyfran, ymadawodd niferoedd uwch o swyddogion gwrywaidd o'r graddau cyflog is, o ganlyniad i'r rhaglenni ymadael a diswyddo gwirfoddol.

## Rheoli absenoldeb a phresenoldeb

Cyfanswm y diwrnodau gwaith a gollwyd drwy absenoldeb salwch am y cyfnod 1 Ebrill 2024 hyd 31 Mawrth 2025 oedd 195.0 (2023-24: 110.5). Mae'r ffigwr yma yn cynnwys cymysgedd o absenoldeb tymor byr a hirdymor (diffiniad absenoldeb hirdymor yw absenoldeb o fwy nag 20 diwrnod am yr un rheswm).

Cyfartaledd y diwrnodau gwaith a gollwyd fesul pen (cywerth â llawn amser) oedd 5.0 (2023-24: 2.6) a hynny wedi ei seilio ar 39.2 aelod o staff cywerth â llawn amser (2023-24: 42.2).

## Trosiant staff

Roedd cyfradd trosiant staff yn 2024-25 yn 10.2% (2023-24: 9.5%).

## Lles

Mae lles swyddogion yn hollbwysig i'r Comisiynydd, ac yn ystod y flwyddyn ehangwyd y gwasanaethau i hybu iechyd a lles ymysg staff. Rydym wedi cynnig y brechlyn ffliw i bob swyddog yn rhad ac am ddim a thanysgrifio i wasanaeth cymorth i gyflogeion trwy VivUp, dan gytundeb fframwaith Llywodraeth Cymru. Rydym hefyd wedi darparu adnoddau i gefnogi lles ariannol ein staff a chynnal amryw o sesiynau i hybu iechyd a lles da ymysg swyddogion. Yn ogystal, cynigir buddion i staff fel cynlluniau talebau gofal plant, a chynllun beicio i'r gwaith sy'n ysgogi ymarfer corff a lleihau allyriadau carbon wrth deithio i'r swyddfeydd.

## Arolwg staff

Cynhaliwyd arolwg staff blynyddol y Comisiynydd yn Ionawr 2025, gyda 74% o'r gweithlu yn ymateb.

Roedd canlyniadau'r arolwg yn gadarnhaol. Ystyrir ymrwymiad staff i'r broses yn bwysig, a threfnir ystod o sesiynau trafod i wrando ar sylwadau a chasglu syniadau.

## Dysgu a datblygu

Mae'r Comisiynydd yn gweithredu trefn datblygu perfformiad sy'n sicrhau bod swyddogion yn deall yr hyn a ddisgwylir ganddynt wrth eu gwaith ac yn sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r gallu i gyflawni hynny.

Hyrwyddir cyfleoedd dysgu a datblygu i'r holl staff a chyflwynwyd rhaglen o ddatblygiad personol ar draws y sefydliad yn y flwyddyn a fu er mwyn nodi unrhyw anghenion penodol ac i ddatblygu sgiliau'r gweithlu. Trefnwyd cyrsiau drwy ddarparwyr amrywiol gan gynnwys Coleg y Gwasanaeth Sifil, Data Cymru, a CIPR.

Ystyrir yr opsiynau mwyaf cost effeithiol wrth ddiwallu anghenion hyfforddi a datblygu, a chynhigir amrywiaeth o ddulliau hyfforddi lle bo hynny'n ymarferol bosibl.

## Cydnabyddiaeth undeb

Mae gan y sefydliad gangen gydnabyddedig o undeb y PCS, ac mae cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal rhwng cynrychiolwyr y gangen, y Comisiynydd, y Cyfarwyddwr Llywodraethiant a Gwasanaethau Corfforaethol a'r Swyddog Adnoddau Dynol.

## Cofrestr rhoddion

Mae gan y Comisiynydd gofrestr rhoddion. Nid oes unrhyw eitem a gofnodwyd yn cael ei ystyried yn faterol berthnasol i'w gynnwys yn yr adroddiad hwn.

## Niferoedd swyddogion a chostau perthnasol

| | Staff parhaol £000 | Staff ar gytundeb cyfnod penodol £000 | **Cyfanswm 2024-25 £000** | Cyfanswm 2023-24 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Costau swyddogion** | | | | |
| Cyflog | 1,833 | 11 | **1,844** | 1,917 |
| Taliadau ymadael | 94 | - | **94** | - |
| Nawdd cymdeithasol | 191 | 1 | **192** | 196 |
| Pensiwn | 534 | 3 | **537** | 509 |
| | 2,652 | 15 | **2,667** | 2,622 |
| Ffioedd aelodau pwyllgorau | | | **11** | 10 |
| Cyfanswm | | | **2,678** | 2,632 |

| | **2024-25** | 2023-24 |
|---|---|---|
| **Niferoedd swyddogion** | | |
| Comisiynydd y Gymraeg | **1.0** | 1.0 |
| Staff parhaol | **37.9** | 39.1 |
| Swyddogion ar gytundeb cyfnod penodol | **0.3** | 2.1 |
| Nifer cyfartalog[1] | **39.2** | 42.2 |
| Aelodau o bwyllgorau[2] | **8.75** | 9.0 |

[1] Nifer cywerth â llawn amser a gyflogwyd ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn.

[2] Mae'r aelodau yn cynnwys 5.00 aelod o'r Panel Cynghori (2023-24: 5.00) a 3.75 aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg (2023-24: 4.00) ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn.

Ceir gwybodaeth am fuddiannau cyflog a phensiwn y Comisiynydd ac uwch swyddogion y Comisiynydd ar dudalennau 84 i 85 a 89 i 92.

## Taliadau ymadael

Talwyd costau diswyddo a chostau ymadael eraill yn unol â darpariaethau Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil (CSCS), cynllun statudol a wnaed o dan Ddeddf Blwydd-dâl 1972. Mae'r tabl isod yn dangos cyfanswm y pecynnau ymadael y cytunwyd arnynt ac y rhoddwyd cyfrif amdanynt yn 2024-25 (rhoddir ffigurau cymharol 2023-24 hefyd). Talwyd costau ymadael o £94,000 yn 2024-25, sef y flwyddyn ymadael (2023-24: £0).

| | Nifer diswyddiadau gorfodol 2024-25 | Nifer diswyddiadau eraill 2024-25 | **Nifer diswyddiadau fesul band cost 2024-25** | Nifer diswyddiadau fesul band cost 2023-24 |
|---|---|---|---|---|
| £10,000 – £25,000 | - | 2 | **2** | - |
| £25,000 – £50,000 | - | 2 | **2** | - |
| Cyfanswm pecynnau ymadael | - | 4 | **4** | - |

# Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

Yn unol ag Atodlen 1 Paragraff 18(1), Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae'n ofynnol i Gomisiynydd y Gymraeg lunio cyfrifon o ran bob blwyddyn ariannol yn unol â'r ffurf a'r sail a nodir yn y cyfarwyddiadau cyfrifon a roddir, gyda chydsyniad Trysorlys EF, gan Weinidogion Cymru. Llunnir y cyfrifon ar sail groniadol, ac mae'n rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o sefyllfa'r Comisiynydd ac o'r incwm a gwariant, datganiad sefyllfa ariannol, newidiadau yn ecwiti'r trethdalwr a'r llifoedd arian am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion y *Government Financial Reporting Manual* ac yn arbennig:

- cadw at gyfarwyddyd cyfrifon a roddwyd gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y gofynion perthnasol o ran cadw cyfrifon a datgeliadau, a gweithredu polisïau cyfrifo perthnasol a'u defnyddio'n gyson;
- llunio penderfyniadau ac amcangyfrifon mewn modd rhesymol;
- datgan a gadwyd at y safonau cyfrifo perthnasol a osodwyd yn y *Government Financial Reporting Manual*, a datgelu ac esbonio unrhyw wyro materol a welir yn y cyfrifon;
- llunio cyfrifon ar sail bod yn fusnes gweithredol; a
- chadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol hyn yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a chymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol ac am y farn sydd ei hangen er mwyn pennu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Yn unol ag Atodlen 1 Paragraff 16(1), Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, y Comisiynydd yw'r Swyddog Cyfrifyddu. Mae cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am sicrhau priodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdano, dros gadw cofnodion priodol ac i warchod asedau Comisiynydd y Gymraeg, wedi eu nodi yn y memorandwm, *Managing Public Money*, a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF a Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Fel Swyddog Cyfrifyddu rwyf wedi cymryd bob cam y dylwn fod wedi ei gymryd i wneud fy hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod archwilwyr Comisiynydd y Gymraeg yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd y gwn, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.

**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg
Swyddog Cyfrifyddu
26 Awst 2025

# Tystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

## Barn ar y datganiadau ariannol

Rwy'n tystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 dan Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr, Datganiad Sefyllfa Ariannol, Datganiad Llifoedd Arian, Datganiad Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu perthnasedd arwyddocaol. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EF.

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa materion Comisiynydd y Gymraeg ar 31 Mawrth 2025 ac o'i wariant net, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EF.
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o dan Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail y barnau

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (Y DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio datganiadau ariannol a rheoleidd-dra cyrff y sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran o'm tystysgrif sy'n nodi cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol o'r corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barnau.

## Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol i baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi adnabod unrhyw ansicrwydd perthnasol mewn perthynas â digwyddiadau neu amodau a all, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Caiff fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r Comisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â busnes gweithredol eu disgrifio yn yr adrannau perthnasol o'r dystysgrif hon.

Caiff y sail gyfrifyddu busnes gweithredol ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg ei mabwysiadu gan ystyried y gofynion yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle disgwylir y bydd y gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn parhau i'r dyfodol.

## Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a rhannau eraill o'r adroddiad a archwilir a'm hadroddiad i fel archwilydd ar y rhain. Comisiynydd y Gymraeg sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu wybodaeth a gafwyd wrth gyflawni'r archwiliad, neu'n ymddangos fel arall fel pe bai wedi cael ei chamddatgan yn berthnasol. Os wyf yn canfod anghysondebau perthnasol o'r fath neu wybodaeth berthnasol o'r fath sy'n ymddangos fel pe bai wedi cael ei chamddatgan, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn achosi camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud, os wyf yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi'i chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i mi nodi'r ffaith honno.

Nid oes unrhyw beth gennyf i'w nodi yn hyn o beth.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff sydd i'w harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed dan Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd a gaiff eu harchwilio wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed dan Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

## Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth am y corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Blynyddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol neu ni chafwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad o ganghennau nad ymwelodd fy nhîm â hwy;
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Atebolrwydd a gaiff ei harchwilio yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;
- nid yw gwybodaeth a nodir gan Weinidogion Cymru ynghylch cydnabyddiaeth ariannol a thrafodion eraill wedi cael ei datgelu;
- nid yw datgeliadau penodol ynghylch cydnabyddiaeth ariannol a nodir gan Lawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF wedi cael eu gwneud neu nid yw rhannau o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff sydd i'w harchwilio yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu'n adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EF.

## Cyfrifoldebau Comisiynydd y Gymraeg am y datganiadau ariannol

Fel a esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, y Comisiynydd y Gymraeg sy'n gyfrifol am:

- gadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi datganiadau ariannol ac Adroddiad Blynyddol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol ac am fod wedi'i fodloni eu bod yn rhoi darlun gwir a theg;
- sicrhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol yn ei cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy;
- sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol;
- pa bynnag reolaethau mewnol sy'n angenrheidiol ym marn y Swyddog Cyfrifyddu i allu paratoi datganiadau ariannol heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall;
- asesu gallu'r corff i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y Swyddog Cyfrifyddu yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan y corff yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

## Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb yw archwilio'r datganiadau ariannol, eu hardystio ac adrodd arnynt yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU wastad yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, yn golygu achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a nodir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr, yr archwilwyr mewnol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau Comisiynydd y Gymraeg sy'n ymwneud ag:
  - adnabod, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau a phu'n a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
  - canfod ac ymateb i'r risgiau o dwyll a phu'n a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a hefyd
  - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble allai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, canfûm botensial ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: cofnodi siwrnalau anarferol.
- Cael dealltwriaeth am y fframwaith awdurdod sydd gan Comisiynydd y Gymraeg, yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Comisiynydd y Gymraeg yn gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Comisiynydd y Gymraeg;
- Cael dealltwriaeth am berthnasoedd partïon cysylltiedig.

Yn ychwanegol at yr uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a ganfuwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a phrofi yn erbyn dogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr a'r Pwyllgor Archwilio a Risg ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Risg, y Tîm Arwain a'r Panel Cynghori;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrthwneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu'n rhoi arwydd o wyrduedd bosibl; a gwerthuso'r rhesymeg fusnes dros unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes.

Fe wnes i hefyd gyfleu deddfau a rheoliadau dynodedig perthnasol a risgiau posibl o dwyll i holl aelodau'r tîm archwilio ac aros yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Effeithir ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, gan yr anhawster cynhenid o ran canfod afreolaidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Comisiynydd y Gymraeg, a natur, amseriad a hyd a lled y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn **www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities.** Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

## Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Rwy'n gorfod ateb gofynion o ran cael tystiolaeth sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu gyda'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith pethau eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol yr wyf yn eu hadnabod yn ystod fy archwiliad.

## Adroddiad

Nid oes unrhyw sylwadau gennyf i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Ann-Marie Harkin**
Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio
(Ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru)

27 Awst 2025

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd

Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu yw hygrededd gwefan Comisiynydd y Gymraeg a'r gwaith o gynnal y wefan honno; nid yw'r gwaith a gyflawnir gan archwilwyr yn cynnwys ystyriaeth o'r materion hyn ac, yn unol â hynny, nid yw archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldebau am unrhyw newidiadau a allai fod wedi cael eu cyflwyno i'r datganiadau ariannol ers eu cyflwyno'n wreiddiol ar y wefan.

# Rhan 3 Datganiadau Ariannol


| | |
|---|---|
| Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr | 106 |
| Datganiad Sefyllfa Ariannol | 107 |
| Datganiad Llifoedd Arian | 108 |
| Datganiad Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr | 109 |
| Nodiadau'r Cyfrifon | 110 |

# Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2025

| | Nodiadau | | **2024-25** | | 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **£000** | **£000** | £000 | £000 |
| **Gwariant** | | | | | |
| Costau Swyddogion | 3 | **2,678** | | 2,632 | |
| Gweinyddu | 4 | **409** | | 418 | |
| Gwariant rhaglenni eraill | 5 | **181** | | 286 | |
| Amorteiddiad ar asedau anghyffyrddadwy | 6 | **23** | | 17 | |
| Amhariad ar asedau anghyffyrddadwy | 6 | **33** | | - | |
| Dibrisiant ar asedau hawl i ddefnydd | 7 | **42** | | 76 | |
| Dibrisiant ar eiddo, offer a pheiriannau | 8 | **25** | | 41 | |
| | | | **3,391** | | 3,470 |
| **Incwm** | 5 | | **(22)** | | - |
| Gwariant net | | | **3,369** | | 3,470 |
| Costau llog ar rwymedigaethau lesoedd | 12 | | **4** | | 6 |
| Llog (derbynadwy)/taladwy net arall | | | **(5)** | | (6) |
| **Gwariant net ar ôl llog** | | | **3,368** | | 3,470 |


Mae'r holl weithgareddau a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn yn parhau.
Mae'r nodiadau ar dudalennau 110 i 126 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2025

| | Nodiadau | **31 Mawrth 2025** £000 | £000 | 31 Mawrth 2024 £000 | £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Asedau nad ydynt yn gyfredol** | | | | | |
| Asedau anghyffyrddadwy | 6 | **268** | | 308 | |
| Asedau hawl i ddefnydd | 7 | **137** | | 179 | |
| Eiddo, offer a pheiriannau | 8 | **101** | | 104 | |
| **Cyfanswm asedau nad ydynt yn gyfredol** | | | **506** | | 591 |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy | 9 | **54** | | 47 | |
| Arian parod ac arian cywerth | 10 | **135** | | 175 | |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | | **189** | | 222 |
| **Cyfanswm asedau** | | | **695** | | 813 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | | | |
| Masnach a symiau eraill sy'n daladwy | 11 | **(310)** | | (397) | |
| Rhwymedigaethau hawl i ddefnydd | 12 | **(40)** | | (39) | |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | | **(350)** | | (436) |
| **Cyfanswm asedau nad ydynt yn gyfredol ac asedau cyfredol net** | | | **345** | | 377 |
| **Rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol** | | | | | |
| Rhwymedigaethau hawl i ddefnydd | 12 | **(85)** | | (122) | |
| Darpariaethau | 13 | **(114)** | | (100) | |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol** | | | **(199)** | | (222) |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | | | **146** | | 155 |
| Cronfa gyffredinol | | | **146** | | 155 |
| **Ecwiti'r trethdalwyr** | | | **146** | | 155 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 110 i 126 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Mae'r datganiadau ariannol ar dudalennau 106 i 109 wedi eu cymeradwyo gan y Swyddog Cyfrifyddu ac wedi eu llofnodi gan:



**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg
Swyddog Cyfrifyddu
26 Awst 2025

# Datganiad Llifoedd Arian am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2025

| | Nodiadau | 2024-25 £000 | 2023-24 £000 |
|---|---|---|---|
| **Llifoedd arian o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Gwariant net | | **(3,369)** | (3,470) |
| Amorteiddiad ar asedau anghyffyrddadwy | 6 | **23** | 17 |
| Amhariad ar asedau anghyffyrddadwy | 6 | **33** | - |
| Dibrisiant ar asedau hawl i ddefnydd | 7 | **42** | 76 |
| Dibrisiant ar eiddo, offer a pheiriannau | 8 | **25** | 41 |
| Colled ar werthiant asedau nad ydynt yn gyfredol | | **17** | 58 |
| (Cynnydd)/Lleihad mewn derbyniadau masnach ac asedau cyfredol eraill | 9 | **(7)** | 34 |
| (Lleihad)/Cynnydd mewn taliadau masnach a thaliadau eraill | 11 | **(87)** | 140 |
| Cynnydd/(Lleihad) mewn darpariaethau | 13 | **14** | (165) |
| **(All-lif) arian net o weithgareddau gweithredu** | | **(3,309)** | (3,269) |
| | | | |
| **Llifoedd arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Taliad i gaffael asedau anghyffyrddadwy | 6 | **(33)** | - |
| Taliad i gaffael asedau hawl i ddefnydd | 7, 12 | **-** | (22) |
| Taliad i gaffael eiddo, offer a pheiriannau | 8 | **(23)** | (93) |
| Derbyniadau am werthiant eiddo, offer a pheiriannau | | **1** | - |
| **(All-lif) arian net o weithgareddau buddsoddi** | | **(55)** | (115) |
| | | | |
| **Llifoedd arian o weithgareddau cyllido** | | | |
| Asedau hawl i ddefnydd, Taliadau les: cyfalaf | 12 | **(36)** | (73) |
| Asedau hawl i ddefnydd, Taliadau les: llog | 12 | **(4)** | (6) |
| Llog a dderbyniwyd/(dalwyd) | | **5** | 6 |
| Cyllido gan Weinidogion Cymru | 16 | **3,359** | 3,459 |
| **Cyllido net** | | **3,324** | 3,386 |
| | | | |
| **(Lleihad)/Cynnydd net mewn arian parod ac arian cywerth yn y cyfnod** | | **(40)** | 2 |
| **Arian parod ac arian cywerth ar ddechrau'r cyfnod** | 10 | **175** | 173 |
| **Arian parod ac arian cywerth ar ddiwedd y cyfnod** | 10 | **135** | 175 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 110 i 126 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2025

| | Nodiadau | £000 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill 2023 | | 166 |
| **Newidiadau mewn cronfeydd ar gyfer 2023-24** | | |
| (Diffyg) a gadwyd | | (3,470) |
| **Cyfanswm incwm a gwariant a gydnabyddir ar gyfer 2023-24** | | (3,470) |
| Cyllido gan Weinidogion Cymru | 16 | 3,459 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2024** | | **155** |
| **Newidiadau mewn cronfeydd ar gyfer 2024-25** | | |
| (Diffyg) a gadwyd | | (3,368) |
| **Cyfanswm incwm a gwariant a gydnabyddir ar gyfer 2024-25** | | (3,368) |
| Cyllido gan Weinidogion Cymru | 16 | 3,359 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2025** | | **146** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 110 i 126 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau'r cyfrifon am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2025

Lluniwyd y cyfrifon hyn yn unol â *Government Financial Reporting Manual* (FReM) 2024-25 a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF, ac unrhyw Gyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru, gyda chaniatâd y Trysorlys. Mae'r polisïau cyfrifyddol a gynhelir yn y FReM yn gweithredu Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), wedi'u haddasu neu eu dehongli ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Lle bo'r FReM yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddol, dewiswyd y polisi cyfrifyddol a ystyrir fwyaf addas ar gyfer amgylchiadau neilltuol Comisiynydd y Gymraeg, er mwyn rhoi barn gwir a theg. Disgrifir isod y polisïau neilltuol a ddilynwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg. Fe'u gweithredwyd yn gyson wrth ddelio â'r eitemau a ystyrir yn berthnasol i'r cyfrifon.

## Sail busnes gweithredol

Nid oes unrhyw fwriad i derfynu'r gwasanaeth a ddarperir gan Comisiynydd y Gymraeg fel y dangosir gan y cyllid a ddyfarnwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf a diffyg deddfwriaeth sy'n angenrheidiol i ddirwyn Comisiynydd y Gymraeg i ben. Mae Datganiad Sefyllfa Ariannol Comisiynydd y Gymraeg ar 31/03/2025 yn dangos asedau net o £146,000 (31/03/2024: asedau net o £155,000). Pe byddai sefyllfa o rwymedigaethau net, byddai hyn yn adlewyrchu rhwymedigaethau oedd yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn ariannol honno. I'r graddau na allai Comisiynydd y Gymraeg eu talu o'i ffynonellau incwm eraill, byddent yn disgyn, yn y pen draw, i'w talu gan Gymorth Grant gan Lywodraeth Cymru. Yn unol â'r confensiynau arferol sy'n berthnasol i reolaeth dros incwm a gwariant, a nodir yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, ni chaiff Cymorth Grant ei dalu cyn bod ei angen, ond nid oes unrhyw reswm i gredu, lle bo angen, na fyddai'r Senedd yn cymeradwyo'r Cymorth Grant ac unrhyw gyllideb adnoddau gysylltiedig ychwanegol. Yn unol â hynny, ystyrir ei bod yn briodol mabwysiadu sail busnes gweithredol ar gyfer y datganiadau ariannol hyn.

## 1 Datganiad polisïau cyfrifo

### (1.1) Confensiynau cyfrifo

Lluniwyd y cyfrifon hyn ar sail groniadol yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol. Nid yw'r Comisiynydd wedi ailbrisio unrhyw eiddo, offer a pheiriannau nac unrhyw asedau anghyffyrddadwy gan nad yw addasiadau ailbrisio, ym marn y Comisiynydd, yn berthnasol.

### (1.2) Cyllido

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn derbyn symiau gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â gwariant a dynnir wrth gyflawni'r swyddogaethau.Ystyrir y symiau hyn yn rhai ariannu ac fe'u credydir i'r Gronfa Gyffredinol adeg eu derbyn.

### (1.3) Incwm

Cydnabyddir incwm yn y flwyddyn ariannol y darperir y gwasanaeth. Caiff incwm sydd wedi'i anfonebu cyn bod y gwasanaeth wedi'i ddarparu ei drin fel incwm gohiriedig.

### (1.4) Treth ar Werth

Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cofrestru ar gyfer Treth ar Werth. Cydnabyddir Treth ar Werth anadferadwy yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr neu ei gynnwys fel cost ased sefydlog, lle bo'n berthnasol.

### (1.5) Asedau anghyffyrddadwy

Caiff asedau anghyffyrddadwy dros £1,000, gan gynnwys TAW anadferadwy, eu cyfalafu. Mae asedau anghyffyrddadwy yn cynnwys trwyddedau meddalwedd cyfrifiadurol a thrwyddedau eraill. Grwpiwyd nifer o asedau o'r un math gyda'i gilydd wrth bennu a ydynt uwchben neu o dan y trothwy.

Cynhwysir asedau anghyffyrddadwy ar eu cost hanesyddol. Caiff asedau sefydlog anghyffyrddadwy eu hamorteiddio drwy randaliadau cyfartal blynyddol dros eu hoes economaidd defnyddiol amcangyfrifedig, rhwng 3 a 10 mlynedd.

### (1.6) Eiddo, offer a pheiriannau

Mae eiddo, offer a pheiriannau dros £1,000, gan gynnwys TAW anadferadwy, yn cael eu cyfalafu. Grwpiwyd nifer o asedau o'r un math gyda'i gilydd wrth bennu a ydynt uwchben neu o dan y trothwy.

Cynhwysir eiddo, offer a pheiriannau ar eu cost hanesyddol, gan gynnwys costau fel gwaith gosod y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i ddod â nhw i'r cyflwr gweithio ar gyfer eu defnydd arfaethedig. Caiff eiddo, offer a pheiriannau eu dibrisio drwy randaliadau cyfartal blynyddol dros hyd y les, neu eu hoes economaidd defnyddiol amcangyfrifedig, rhwng 36 a 90 mis.

### (1.7) Arian yn y banc ac arian parod

Caiff cyllid a dynnir lawr gan Lywodraeth Cymru ei gadw mewn cyfrif banc masnachol pan gaiff ei dderbyn. Roedd balansau arian y Comisiynydd wedi'u cadw mewn cyfrifon banc masnachol ar ddiwedd y flwyddyn. Ni ddaliwyd unrhyw arian gan Dâl-feistr Cyffredinol EF. Nid yw'r Comisiynydd yn dal balansau arian mân.

### (1.8) Darpariaethau

Cydnabyddir darpariaethau yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol pan fydd gan Gomisiynydd y Gymraeg rwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol yn deillio o ddigwyddiad yn y gorffennol a bod tebygolrwydd y bydd angen all-lif o fudd economaidd i dalu'r rhwymedigaeth.

### (1.9) Pensiynau

Telir i'r Tâl-feistr Cyffredinol symiau priodol i gynrychioli rhwymedigaethau cronedig Pensiwn y Gwasanaeth Sifil am bensiynau a buddiannau tebyg i bersonau a gyflogir gan y Comisiynydd ac am gostau gweinyddol sydd i'w priodoli i'r rhwymedigaethau a'u cyflawni.

Mae gweithwyr cyfredol a blaenorol yn dod o dan ddarpariaethau cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Ceir rhagor o fanylion yn yr Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adroddiad Staff.

### (1.10) Buddion cyflogai

Cydnabyddir cyflogau, cyfraniadau yswiriant gwladol, a budd-dal ariannol ac anariannol ar gyfer cyflogeion cyfredol yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr wrth i wasanaethau cyflogeion gael eu cyflawni. Polisi'r Comisiynydd yw cyfrif am absenoldebau tymor byr a ddigolledir (gwyliau blynyddol taladwy) fel rhwymedigaeth (cost cronedig) lle disgwylir setlo'r iawndal absenoldeb o fewn deuddeg mis ar ôl diwedd y cyfnod y mae'r cyflogeion yn cyflawni'r gwasanaeth ynddo.

### (1.11) Asedau a rhwymedigaethau hawl i ddefnydd

Cydnabyddir prydlesi gweithredu fel ased hawl i ddefnydd a rhwymedigaeth les ar y fantolen. Mesurir yr ased hawl i ddefnydd ar gost sy'n cyfateb i fesuriad cychwynnol rhwymedigaeth y brydles. Mae asedau hawl i ddefnydd yn cael eu dibrisio drwy randaliadau cyfartal blynyddol o ddyddiad cychwyn y brydles hyd at ddiwedd oes ddefnyddiol, neu ddiwedd cyfnod y brydles, pa un bynnag sydd gynharaf.

Ar y dyddiad cychwyn mesurir rhwymedigaeth y les fel gwerth presennol y taliadau les sydd heb eu talu ar y dyddiad hwnnw, wedi'u disgowntio ar y gyfradd llog a gyhoeddir gan Drysorlys EF mewn perthynas â phrydlesi dan IFRS16.

Yn dilyn y mesuriad cychwynnol, bydd y rhwymedigaeth yn cael ei leihau ar gyfer taliadau a wneir a'u gynyddu ar gyfer llog. Mae rhwymedigaeth y brydles yn cael ei ail fesur i adlewyrchu unrhyw ailasesiad neu addasiad, ac adlewyrchir yr addasiad cyfatebol yn yr ased hawl i ddefnydd.

### (1.12) Prydlesi gweithredol

Caiff rhentolion prydlesi gweithredol ar gyfer prydlesi gwerth isel neu sydd â bywyd disgwyladwy o lai na 12 mis eu cyflwyno i'r Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr yn y flwyddyn y maent yn berthnasol iddi.

## 2 Gwybodaeth segmentol

Mae gwariant, incwm a llog yn ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau Comisiynydd y Gymraeg. Mae'r Comisiynydd yn gweithredu yng Nghymru ac yn ymdrin â materion sy'n effeithio ar y Gymraeg a gallu personau yng Nghymru i fyw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg. Dim ond un segment sy'n gweithredu ac fe adlewyrchir hyn yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad Sefyllfa Ariannol a'r nodiadau cysylltiedig.

## 3 Costau Swyddogion

| | **2024-25 £000** | 2023-24 £000 |
|---|---|---|
| Swyddogion cyflogedig | **2,667** | 2,622 |
| Ffioedd aelodau o bwyllgorau | **11** | 10 |
| | **2,678** | 2,632 |

Ceir manylion costau swyddogion yn yr Adroddiad ar Daliadau Cydnabyddiaeth ac Adroddiad Staff ar dudalen 96.

## 4 Gweinyddu

Yr oedd costau gweinyddu yn cynnwys:

| | **2024-25** **£000** | 2023-24 £000 |
|---|---|---|
| Llety – Costau rhent prydlesi swyddfeydd | **5** | 15 |
| Llety – Costau eraill | **89** | 107 |
| Darpariaeth ar gyfer addurno a dadfeiliadau swyddfeydd | **4** | (109) |
| Teithio, cynhaliaeth a lletygarwch | **38** | 37 |
| Hyfforddiant a recriwtio | **28** | 55 |
| Cyfreithiol a phroffesiynol | **88** | 106 |
| Technoleg gwybodaeth a thelathrebu | **101** | 112 |
| Cyfathrebu | **16** | 14 |
| Gwasanaethau archwilwyr (tâl yr archwiliad allanol) | **20** | 20 |
| Costau gweinyddu eraill | **20** | 61 |
| | **409** | 418 |

Ni wnaeth yr archwilwyr allanol ymgymryd â gwaith nad oedd yn waith archwilio yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 (2023-24: £0).

Ceir rhagor o fanylion yn y sylwebaeth ar y perfformiad ariannol ar dudalennau 63 i 64.

## 5 Gwariant rhaglenni eraill

Mae'r gwariant yn gysylltiedig â nifer o brosiectau yr ymgymerwyd â hwy. Roedd cyfanswm y gwariant yn ystod y flwyddyn yn £181,000 (2023-24: £286,000). Derbyniwyd incwm o £22,000 ar ffurf nawdd, ar gyfer dau brosiect (2023-24: £0). Ceir rhagor o fanylion ar dudalen 64.

## 6 Asedau sefydlog anghyffyrddadwy

| | Asedau dan ddatblygiad | Meddalwedd | Trwyddedau | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cost** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2024 | 237 | 114 | 43 | 394 |
| Ychwanegiadau | - | 33 | - | 33 |
| Amhariad | (33) | - | - | (33) |
| Gwarediadau | - | (25) | (43) | (68) |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **204** | **122** | **-** | **326** |
| **Amorteiddiad** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2024 | - | 43 | 43 | 86 |
| Cost am y flwyddyn | - | 23 | - | 23 |
| Gwarediadau | - | (8) | (43) | (51) |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **-** | **58** | **-** | **58** |
| **Gwerth net yn y llyfrau ar 31 Mawrth 2025** | **204** | **64** | **-** | **268** |
| Gwerth net yn y llyfrau ar 31 Mawrth 2024 | 237 | 71 | - | 308 |

## 6 Asedau sefydlog anghyffyrddadwy (parhad)

| | Asedau dan ddatblygiad £000 | Meddalwedd £000 | Trwyddedau £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cost** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2023 | 288 | 73 | 43 | 404 |
| Ychwanegiadau | - | - | - | - |
| Trosglwyddiadau | (51) | 51 | - | - |
| Gwarediadau | - | (10) | - | (10) |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **237** | **114** | **43** | **394** |
| **Amorteiddiad** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2023 | - | 33 | 43 | 76 |
| Cost am y flwyddyn | - | 17 | - | 17 |
| Gwarediadau | - | (7) | - | (7) |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **-** | **43** | **43** | **86** |
| **Gwerth net yn y llyfrau ar 31 Mawrth 2024** | **237** | **71** | **-** | **308** |
| Gwerth net yn y llyfrau ar 31 Mawrth 2023 | 288 | 40 | - | 328 |

Mae asedau dan ddatblygiad yn cynrychioli'r System Rheoli Achosion sy'n cael ei ddatblygu.

## 7 Asedau hawl i ddefnydd

| | Anheddau dan brydles £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|
| **Cost** | | |
| Ar 31 Mawrth 2024 | 233 | 233 |
| Ychwanegiadau | - | - |
| Gwarediadau | - | - |
| Addasiadau i'r gwerth | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **233** | **233** |
| | | |
| **Dibrisiant** | | |
| Ar 31 Mawrth 2024 | 54 | 54 |
| Cost am y flwyddyn | 42 | 42 |
| Gwarediadau | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **96** | **96** |
| | | |
| **Gwerth net yn y llyfrau ar 31 Mawrth 2025** | **137** | **137** |
| Gwerth net yn y llyfrau ar 31 Mawrth 2024 | 179 | 179 |

## 7 Asedau hawl i ddefnydd (parhad)

| | Anheddau dan brydles £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|
| **Cost** | | |
| Ar 31 Mawrth 2023 | 273 | 273 |
| Ychwanegiadau | 77 | 77 |
| Gwarediadau | (118) | (118) |
| Addasiadau i'r gwerth | 1 | 1 |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **233** | **233** |
| **Dibrisiant** | | |
| Ar 31 Mawrth 2023 | 96 | 96 |
| Cost am y flwyddyn | 76 | 76 |
| Gwarediadau | (118) | (118) |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **54** | **54** |
| **Gwerth net yn y llyfrau ar 31 Mawrth 2024** | **179** | **179** |
| Gwerth net yn y llyfrau ar 31 Mawrth 2023 | 177 | 177 |

## 8 Eiddo, offer a pheiriannau

| | Celfi a gosodiadau £000 | Offer swyddfa £000 | Isadeiledd ac Offer TG £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cost** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2024 | 60 | 12 | 243 | 315 |
| Ychwanegiadau | 1 | 4 | 18 | 23 |
| Gwarediadau | (9) | (11) | (41) | (61) |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **52** | **5** | **220** | **277** |
| **Dibrisiant** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2024 | 44 | 12 | 155 | 211 |
| Cost am y flwyddyn | 4 | - | 21 | 25 |
| Gwarediadau | (9) | (11) | (40) | (60) |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **39** | **1** | **136** | **176** |
| **Gwerth net yn y llyfrau ar 31 Mawrth 2025** | **13** | **4** | **84** | **101** |
| Gwerth net yn y llyfrau ar 31 Mawrth 2024 | 16 | - | 88 | 104 |

## 8 Eiddo, offer a pheiriannau (parhad)

| | Celfi a gosodiadau £000 | Offer swyddfa £000 | Isadeiledd ac Offer TG £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cost** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2023 | 425 | 51 | 206 | 682 |
| Ychwanegiadau | 16 | - | 77 | 93 |
| Gwarediadau | (381) | (39) | (40) | (460) |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **60** | **12** | **243** | **315** |
| **Dibrisiant** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2023 | 365 | 51 | 158 | 574 |
| Cost am y flwyddyn | 9 | - | 32 | 41 |
| Gwarediadau | (330) | (39) | (35) | (404) |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **44** | **12** | **155** | **211** |
| **Gwerth net yn y llyfrau ar 31 Mawrth 2024** | **16** | **-** | **88** | **104** |
| Gwerth net yn y llyfrau ar 31 Mawrth 2023 | 60 | - | 48 | 108 |

Roedd y gwarediadau yn bennaf oherwydd cau dwy swyddfa, ac adleoli trydydd swyddfa i anheddau llai o faint.

Cyllido asedau: Nid oedd gan y Comisiynydd brydlesi cyllidol na chontractau Menter Cyllid Preifat.
Eiddo'r Comisiynydd oedd yr holl asedau a ddatgelwyd uchod.

Nid oedd ymrwymiadau cyfalaf cyfreithiol ar 31 Mawrth 2025 (31 Mawrth 2024: £0).

## 9 Derbyniadau masnachol ac asedau cyfredol eraill

| | **31 Mawrth 2025 £000** | 31 Mawrth 2024 £000 |
|---|---|---|
| Derbyniadau masnachol | **1** | - |
| Rhagdaliadau | **51** | 44 |
| Dyledwyr arall | **2** | 3 |
| | **54** | 47 |

Y symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn yw £1,000 (31 Mawrth 2024: £1,000).

## 10 Arian parod ac arian cywerth

| | **2024-25 £000** | 2023-24 £000 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | **175** | 173 |
| Newidiadau net mewn balansau arian parod ac arian cywerth | **(40)** | 2 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **135** | 175 |

## 11 Taliadau masnachol a rhwymedigaethau cyfredol eraill

| | **31 Mawrth 2025 £000** | 31 Mawrth 2024 £000 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn** | | |
| Treth arall a nawdd cymdeithasol | **46** | 46 |
| Taliadau masnachol | **126** | 210 |
| Croniadau | **138** | 141 |
| | **310** | 397 |

## 12 Rhwymedigaethau hawl i ddefnydd

| | **2024-25 £000** | 2023-24 £000 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | **161** | 179 |
| Cyflwynwyd yn y flwyddyn | **-** | 55 |
| Addasiadau i'r gwerth | **-** | (1) |
| Ad-daliadau | **(40)** | (78) |
| Costau cyllido | **4** | 6 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **125** | 161 |

## 12 Rhwymedigaethau hawl i ddefnydd (parhad)

**Dadansoddiad o amseru disgwyliadwy'r rhwymedigaethau**

| | **31 Mawrth 2025** | 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| O fewn blwyddyn | **40** | 39 |
| Dros flwyddyn ond o fewn pum mlynedd | **85** | 122 |
| Ar ôl pum mlynedd | **-** | - |
| | **125** | 161 |

## 13 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a phridiannau

| | **Arall** | **Cyfreithiol** | **Dadfeiliadau ac ailaddurno** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Darpariaeth ar 31 Mawrth 2024 | 1 | 4 | 95 | 100 |
| Darparwyd yn y flwyddyn | - | 15 | 3 | 18 |
| Darpariaeth a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn | - | (4) | (1) | (5) |
| Rhyddhau darpariaethau nas defnyddiwyd | - | - | - | - |
| Newid i'r gyfradd disgownt | - | - | 1 | 1 |
| **Darpariaeth ar 31 Mawrth 2025** | **1** | **15** | **98** | **114** |

## 13 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a phridiannau (parhad)

Yn seiliedig ar gyfraddau disgowntio, yn glir o CPI, Trysorlys EF ym mis Rhagfyr 2024, defnyddiwyd cyfradd wedi'i bwysoli o 1.66% mewn termau real ar gyfer y dadfeiliadau (2023-24: 1.88%).

Gwneir darpariaethau ar gyfer ail-addurno yn ystod tymor y brydles ac ar gyfer dadfeilio, er mwyn dychwelyd yr adeiladau i'w cyflwr gwreiddiol ar derfyn y brydles. Gall yr ymrwymiadau hyn newid yn sgil gwybodaeth a digwyddiadau yn y dyfodol a allai achosi newid i'r symiau a ddarparwyd ar sail yr amcangyfrif gorau, ar ddiwedd y cyfnod ariannol. Mae'r darpariaethau hyn wedi eu hadolygu a'u diweddaru yn ystod y flwyddyn fel sy'n ofynnol dan IAS 37.

Mae darpariaethau cyfreithiol yn cynnwys costau cyfreithiol mewn perthynas â cheisiadau dan ystyriaeth Tribiwnlys y Gymraeg am adolygiad o benderfyniadau Comisiynydd y Gymraeg neu apelau yn erbyn dyfarniadau'r Comisiynydd. Ceir manylion pellach am y ceisiadau hyn ar wefan Tribiwnlys y Gymraeg.

**Dadansoddiad o amseru disgwyliadwy'r rhwymedigaethau**

| | Arall | Cyfreithiol | Dadfeiliadau ac ailaddurno | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| O fewn blwyddyn | 1 | 15 | 11 | 27 |
| Dros flwyddyn ond o fewn pum mlynedd | - | - | 87 | 87 |
| Ar ôl pum mlynedd | - | - | - | - |
| | 1 | 15 | 98 | 114 |

## 14 Rhwymedigaethau amodol

Mae'r Comisiynydd yn datgelu rhwymedigaethau amodol yn unol â Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol 37 (Darpariaethau, Rhwymedigaethau Amodol ac Asedau Amodol) lle mae rhwymedigaeth posib yn ddibynnol ar ddigwyddiad yn y dyfodol lle bo ansicrwydd yn ei gylch; neu fod rhwymedigaeth bresennol ond nid yw'r taliad yn debygol neu ni ellir mesur y swm yn ddibynadwy.

Nid oedd unrhyw rwymedigaethau amodol ar 31 Mawrth 2025.

## 15 Offerynnau cyllidol

Oherwydd natur gweithgareddau'r Comisiynydd a'r modd y caiff y gweithrediadau eu hariannu, nid yw'r Comisiynydd yn agored i lefel uchel o risg ariannol.

## 16 Trafodion gyda phartïon cysylltiedig

Cytunwyd ar Femorandwm o Gydweithio, dyddiedig Hydref 2024, rhwng y Comisiynydd a Llywodraeth Cymru. Ystyrir Llywodraeth Cymru yn barti cysylltiedig.

Yn ystod 2024-25 derbyniodd Comisiynydd y Gymraeg arian cyllido refeniw o £3,309,000 (2023-24: £3,365,500) ac arian cyfalaf o £50,000 (2023-24: £93,600) gan Weinidogion Cymru.

Cydnabuwyd costau o £45,300 yn daladwy i Lywodraeth Cymru ar gyfer rhent a chostau gwasanaethau'r swyddfa (2023-24: £5,800), a £1,400 ar gyfer costau gosod y swyddfa (2023-24: £28,900). Roedd £3,100 yn ddyledus ar 31 Mawrth 2025 (31 Mawrth 2024 £7,500).

Yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2025, anfonebwyd costau o £0 i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â gwasanaethau a roddwyd gan staff ar secondiad (2023-24: £26,400). Roedd £0 yn ddyledus ar 31 Mawrth 2025 (31 Mawrth 2024: £0).

## 17 Digwyddiadau ers diwedd y flwyddyn ariannol

Ni chafwyd digwyddiadau ers dyddiad y datganiad sefyllfa ariannol sy'n effeithio ar ddealltwriaeth y datganiadau ariannol hyn.

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

**Comisiynydd y Gymraeg**
Uned 2, Bloc C
Doc Fictoria
Ffordd Balaclafa
Caernarfon
LL55 1TH

**E** **post@cyg-wlc.cymru**
**F** **0345 6033 221**
**comisiynyddygymraeg.cymru**

@comygymraeg
@comygymraeg
ComisiynyddyGymraeg
Comisiynydd y Gymraeg/Welsh Language Commissioner